

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 320 - 60c
Chwefror 2014

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Diolch
Aneurin am
eich gwaith**



Tudalen 2

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 16

**Siaradwyr
cyhoeddus
o fri**



Tudalen 29

Rhodd hael i Gancr y Fron a Siaradwyr o fri



Bu cyffro mawr yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan ar brynhawn Sadwrn, 5ed o Hydref 2013, pan ddaeth dros 200 o bobl ynghyd i weld Urdd Gobaith Cymru yn cyflwyno Sioe Ffasiwn gyda Duet a Lan Lofft o Lamberd.

Roedd y pris mynediad yn cynnwys te prynhawn a gwledd o sioe ffasiwn. Bu aelodau a chyn-aelodau'r Urdd yn modelu dillad o safon, gyda Rhiannon Lewis (Cwmann) yn arwain y digwyddiad, ac Ann Davies o Langybi yn llywydd y dydd.

Nod y digwyddiad oedd codi arian tuag at Uned Cancr y Fron Ysbyty Llanelli ac Urdd Gobaith Cymru Ceredigion. Gwnaed elw o **£4,361.08** trwy gymorth noddwyr, gwerthiant tocynnau, rhoddion a raffl, gyda'r ddwy elusen yn derbyn sicc o **£2,180.54** yr un.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus CFfI Ceredigion yn Felinfach.

Dwy chwaer yn bencampwyr siarad cyhoeddus – Gwawr Hatcher o Glwb Llanwenog yn ennill y Tlws Gwydr fel y cadeirydd gorau dan 16 oed a'i chwaer Enfys yn cipio Cwpan y cadeirydd gorau dan 26 oed.



Edna Davies, beirniad Adran Ddarllen Siarad Cyhoeddus C.Ff.I. Sir Gâr yn cyflwyno cwpan i Sioned Howells am yr unigolyn gorau.



Sara Esyllt Jones gynt o Benrhos, Cwmann a Giles Van-Rees o Abernant House, Llanwrtyd a briododd yn Eglwys Shiloh, Llambod ar Hydref y 19eg. Treuliodd y ddau eu mis mêl yn Ne America ac maent bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin.



Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Ffion Quan (chwith) a Caitlin Page, disgyblion yn Ysgol Bro Pedr (Adran Hŷn) wedi bod yn cynrychioli Cymru mewn cystadlaethau traws gwlad. Mae'r ysgol am longyfarch y ddwy ar eu llwyddiant ac ar dderbyn fest Cymru. Byddant yn cystadlu yng nghystadlaethau traws gwlad ysgolion Cymru mis nesaf, felly pob lwc iddynt.



Aneurin Jones [canol] yn derbyn rhodd gan Arthur Roderick [chwith] a'r Parch Goronwy Evans [dde] am ei gyfraniad i Gapel Brondeifi dros y blynyddoedd. Gweler yr hanes ar dudalen 18.



www.facebook.com/clonc



@Cloncyn

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Ychwanegodd **Papur Bro Clonc** 16 llun i albwm **Noson Lawen Clwb Rygbi Llanbed** Ionawr 21

Deiniol Wyn Rees, Gillian Elisa, Gwenda a Geinor

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Postiodd **Nia Wyn Davies** Ionawr 5

Cyngerdd Eglwys Cellan gyda Chôr Corisma a Llewelyn Jones.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd **@Cloncyn** neges **@Craffwr**. Ionawr 7

Cylch Trafod Amaethwyr Llanbed yn **@LampeterRFC** gyda **@DafyddWDLewis**

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Clwb Rhedeg Sarn Helen Ionawr 4

Caitlin Page 23ain a Ffion Quan 25ain yn Antrim Iwerddon.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Ychwanegodd **Papur Bro Clonc** 8 llun i albwm **Siopa Nadolig Llanbed** Rhagfyr 5

Ysgol Bro Pedr yn diddanu'r siopwyr.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd **@Cloncyn** Rhagfyr 1

Gwir ysbryd y **#Nadolig** yng Nghymanfa Garolau **@Yr_Urdd** dan arweiniad **@EnfyrHatcher**

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Chwefror Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Mawrth Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590

e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Beth yw beth?

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

• Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
• Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc.
Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.

• Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk

• Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.

• E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk

• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk

• Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc.

Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.

• Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.

• Beth am ddilyn Clonc ar: Gwpeylfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncy

• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

• Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Henffych!

Cyfarchion i holl ddarlennwyr Clonc. Mae'r flwyddyn newydd wedi dod â digon o wynt a glaw a thipyn o broblem i rai sy'n byw ger afonydd a'r glannau. Y gwaith mwyaf sydd angen ei wneud yw sicrhau fod gan y dŵr le i redeg i ffwrdd. Peidiwn â disgwyl i 'fois yr hewl' wneud pob dim; fe allwn ni glirio o gwmpas ein tai yn ddigon rhwydd ac achub y blaen ar y glaw.

Allan o reolaeth, mae dŵr a than yn medru bod yn elynion creulon iawn.

Damio!

Beth sy'n ei chael hi nawr? Ffonau symudol! Ie mae gorddefnydd o rhain yn lladd ar gymdeithasrwydd. Gwelaf rhai yn siopa, a bron bob eiliad yn siarad ar y ffôn â rhywun gartre cyn rhoi nwyddau yn y fasedg. Dyna fe, efallai mai fi sy'n hen ffasiwn! Ac wedyn, rhai byth heb y teclyn yn eu dwylo – yn chwarae gemau, neu yn archwilio rhyw 'ap' neu gilydd. Efallai fy mod yn eich clywed yn dweud fod yn rhaid symud gyda'r oes!

Pellter ddim yn rhwystr!

Mae fy chwaer dros 90 oed ac yn byw yn swydd Derby. Mae'n wylwr ffyddlon o S4C. Tybed pan fydd yr awdurdodau yn gwneud cyfrif o siaradwyr Cymraeg, a ydynt yn cymryd i gyfrif y cannoedd sy'n dilyn ochr draw i'r ffin?

Pwysigrwydd ffin

Rwy'n cofio bod mewn priodas ffermwr ifanc, a pherthynas iddo yn dweud gair. Byrdwn ei anerchiad

oedd gofalu am y ffin, pwysigrwydd arbed unrhyw ddadl oedd gofalu bod y clawdd ffin wastad mewn cyflwr da i gadw'r anifeiliaid gartre.

Cwestiwn?

Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r ysgolion presennol pryd yr agorir ysgol Fro? Gobeithio y cawn weld eu troi'n gartrefi fel a ddigwyddodd i'r hen ysgol yng Nghwrtnewydd, neu efallai creu busnesau bach. Nid yw'n hawdd, ond mae yna bobol â gweledigaeth. Croeso iddynt.

Gwneud y gorau

Ffrind yn synnu yn ddiweddar o ble roeddwn yn cael rhywbeth newydd i'w ddweud bob mis. Mae'n anodd ac mae'n rhaid ailgylchu yn aml. Rwy'n cofio am fodryb i fi oedd yn rhedeg siop ar gornel stryd yn Llundain yn gwerthu brechdanau a chacennau i'r gweithwyr cyfagos. Nid oedd dim yn mynd yn ofer ganddi. Os nad oedd gwerthiant ar gacennau Dydd Llun roeddynt yn bwdin bara ar ddydd Mawrth. Efallai ei bod hi'n bryd i'r amryw gogyddion sydd ar y teledu wneud ambell i raglen i ddangos sut i achub gwastraff.

Pob hwyl am flwyddyn newydd,

CLONCYN

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i
chi gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

Beth am fod yn Ffrind Twf

Ydych chi wedi gwneud adduned blwyddyn newydd am eleni? Na? Wel, beth am addunedu i fod yn Ffrind Twf? Mae Ffrindiau Twf yn gwirfoddoli i roi ychydig oriau bob hyn a hyn i helpu trosglwyddo neges Twf yn eu hardal leol.

Cynllun cenedlaethol yw Twf, sy'n bodoli ers dros 12 mlynedd bellach, gyda'r nod o annog a helpu teuluoedd i gyflwyno Cymraeg ar yr aelwyd. Mae canran fawr o waith Swyddogion Maes Twf yn ymwneud â chydweithio â Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd er mwyn cyrraedd rhieni beichiog a rhieni â chanddynt fabanod bach. Mae'r swyddogion yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau i'r rhieni sy'n dangos y manteision o fagu plant yn ddwyieithog trwy gyflwyno'r Gymraeg i blant o'r cychwyn cyntaf.

Felly beth allech chi wneud i helpu? Wel, yn ogystal â'r gwaith craidd gyda gweithwyr iechyd mae Twf wedi datblygu gwahanol ffyrdd i helpu teuluoedd yn lleol trwy gynnal grwpiau cefnogi rhieni i deuluoedd sydd â phlant bach. Gelwir y grwpiau hyn yn 'Amser Twf'. Cynhelir chwe sesiwn o weithgaredd mewn cyfres 'Amser Twf' er mwyn cyflwyno'r Gymraeg a chodi hyder rhieni, e.e. gwaith crefft, stori a chân.

Rydym hefyd yn cynnal sesiynau adrodd stori mewn llyfrgelloedd lleol yn ogystal ag ymweld â sioeau a digwyddiadau lleol er mwyn lledu neges Twf. Yn y cyswllt yma mae gan Ffrind Twf ran pwysig wrth gefnogi a chynorthwyo Swyddogion Maes i sicrhau sesiynau safonol a fydd o fantais i deuluoedd. Bydd Ffrind Twf yn ychwanegu gwerth i waith Swyddogion Maes ac yn datblygu'n adnodd cefnogol pwysig i rieni'n lleol trwy gynorthwyo Swyddogion Maes mewn sesiynau Amser Twf, sesiynau amser stori ac mewn sioeau a digwyddiadau.



Bydd hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth ar gael i Ffrindiau Twf cyn mynd i'r afael â'u gwaith gwirfoddol ac yn ystod eich gwasanaeth gyda Twf. Os ydych chi'n awyddus i dderbyn hyfforddiant er mwyn cyfrannu at ehangu gwaith Twf yn eich ardal chi neu os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Linda Evans ar 01239 711668 neu linda.evans@iaithu.eu



CHWEFROR

- 6 Cyfarfod i drafod y prosiect ar gyfer cyswllt rheilffordd gogledd-de am 7.00y.h. yn Neuadd Fictoria, Heol y Bryn, Llanbed - cyfarfod ar gyfer y rhai sydd am fod yn rhan o'r trefnu.
- 7 Cinio'r Trydydd Byd, Neuadd Sant Pedr. 12 - 2y.p. Trefnir gan bwyllgor lleol Cymorth Cristnogol.
- 7 Noson 'Legends' gyda Eric Bristow, John Lowe, Bob Anderson a John Gwynne yn Neuadd y Celfyddydau yn y Coleg. Tocynnau trwy Bedwyr Davies yn £20 yr un. Ffoniwch 07580 128039.
- 12 Gyrfa Chwist Hafan Deg.
- 14 Cyfarfod Cymdeithas Gwenynwyr Llanbed a'r Cylch; sgwrs am arddio ar gyfer gwenyn (croeso i'r rhai nad ydynt yn aelodau), 8y.h. Neuadd Mileniwm, Cellan.
- 17 Cymdeithas Bethel Parcyrrhos am 7.30y.h. Cinio Gwanwyn yn Hedyn Mwstard. Gwestion Mr Kees a Mrs Elonwy Huysmans.
- 18 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llanbed.
- 20 Cyfarfod cyhoeddus i drafod y prosiect ar gyfer cyswllt rheilffordd gogledd-de yn Neuadd Fictoria, Heol y Bryn, am 6.00y.h.
- 22 Côr Cwmann a'r Cylch am 7.30y.h. Cinio dathlu hanner can mlwyddiant y Côr yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen.
- 24 - 28 Wythnos Adloniant C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 26 Gyrfa Chwist Hafan Deg.

MAWRTH

- 3 Cyngerdd Adloniant C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 4 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llanbed.
- 7 Cawl a Chên yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7.00y.h. Artistiaid: Plant Ysgol Llanwnnen a C.Ff.I. Llanwenog. Tocynnau oddi wrth: Aeron Hughes 422654; John Williams 481240 neu Gwen Davies 481152.
- 7 Sefydliad Prydeinig y Galon Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan yn cynnal Cawl a Chên yng Nghlwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan. Artistiaid: Côr Bechgyn 'Ar Wasgar' a Lowri Elen, Llanbed am 7.30 y.h. Tocyn £15.00. Elw tuag at y BHF am Ddiffibrilwyr.
- 10 Cyngerdd Adloniant C.Ff.I. Pontsian yn Theatr Felinfach.
- 12 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llanbed.
- 17 Cymdeithas Bethel Parcyrrhos am 7.30 yr hwyr. Lluniau yr ardal gan Mr Andrew Jones, Glanhathren gyda Chymdeithasau Eglwys Sant Iago a Brondeifi i'w gynnal yng Nghanolfan Cwmann.
- 20 Noson Stwffio Plaid Cymru Llanbed a'r Cylch yn y Shapla. Tocynnau £15, ar gael oddi wrth Rob a Delyth Phillips, 422992.
- 22 Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion [Cynradd] ym Mhafiliwn Ponrhydfendigaid am 9.00y.b.
- 24 Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion [Aelwydydd] yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth am 5.00y.h.
- 25 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llanbed.
- 26 Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion [Dawns] ym Mhafiliwn Ponrhydfendigaid am 1.00y.p.
- 28 Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion [Uwchradd] ym Mhafiliwn Ponrhydfendigaid am 9.00y.b.

EBRILL

- 6 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa.
- 6 Rihyrsal yr Undodiaid yng Nghapel Llwynrhydowen. Plant ac Ieuenctid am 4.00 ac Oedolion am 5.00y.p.
- 10 Cyngerdd yn Neuadd Ysgol Bro Pedr.
- 12 Diwrnod Blasu Cadw Gwenyn; 10.00y.b. - 4.00y.p. yn Neuadd Mileniwm, Cellan. Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan www.lampeterbeekkeepersassociation.co.uk
- 13 Rihyrsal yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi. Plant ac Ieuenctid am 4.00 ac Oedolion am 5.00y.p.
- 19 Noson gyda Dafydd Iwan a Bois y Gilfach yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00y.h. Tocynnau yn £10 ar gael oddi wrth Megan ar 01970 612768. Holl elw'r noson tuag at Apêl Elain.
- 20 Rihyrsal yr Undodiaid yng Nghapel Cribyn. Plant ac Ieuenctid am 4.00 ac Oedolion am 5.00y.p.
- 23 Eisteddfod Capel-y-Groes, Llanwnnen.
- 27 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Cribyn. Plant ac Ieuenctid am 2.00 ac Oedolion am 5.30y.h.

MAI

- 3 Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg. Manylion gan Emyr Griffiths 01545 590383 neu Enfys Llwyd 01545 590295.
- 5 Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd.

Y Parchg. J. Elwyn Jenkins

Daeth cynulleidfa luosog, yn cynnwys teuluoedd y Parchg. J. Elwyn Jenkins a'i ddiweddar briod Elizabeth, ffrindiau, gan gynnwys gweinidogion a chyn-aelodau yr eglwys yn ei ofalaethau ym Mrynaman, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan ynghyd i'r Gwasanaeth Coffa a gynhaliwyd yng Nghapel Soar, Llanbed ar 18 Ionawr. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchg. J. E. Wynne Davies, Aberystwyth. Cyfeiriodd at ei gysylltiad a'i gyfeillgarwch gydag Elwyn yn ymestyn nôl i'w magwrfu yn eglwys Dosbarth yr Hendre, sir Gaerfyrddin ac a ddatblygwyd pan oeddynt yn cyd-weinidogaethu yn Aberystwyth.

Talwyd teyrngedau hefyd gan Twynog Davies ar ran eglwys Shiloh, a Huw Jenkins ar ran eglwys Soar, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchgn. Stephen Morgan, Andrew Lenny, Irfon Evans, D. Leslie Jones, Morgan Llywelyn Jones, Elwyn Pryse, Eifion Roberts ac Aled Williams. Yr organyddes oedd Mrs Mary Jones. Wedi'r gwasanaeth darparwyd te yn festri Shiloh gan wragedd eglwys Shiloh a Soar.

Pwysleisiwyd yn y teyrngedau ddylanwad bendithiol gweinidogaeth Elwyn. Fel cyn-aelod o eglwys y Tabernacl, Aberystwyth, medrwn i, a chyn-aelodau eglwys eraill ei ofalaethau, uniaethu'n llwyr gyda'r sylwadau cwbl haeddiannol a gyflwynwyd am ei bersonoliaeth addfwyn ac annwyl; ei ffydd gadarn; ei bregethau syml yn cyflwyno neges ysbrydoledig, gyda nifer o'r sylwadau ysgafn, bachog ond eto treiddgar wedi eu cofnodi yn ei gyfrol O Ddesg y Gweinidog (2011); a'i gonsyrn parhaol fel bugail i gysuro, cefnogi a sicrhau lles aelodau yr eglwys dan ei ofal.

Mae'r atgofion yn ei hunangofiant, Pwll, Pêl a Phulpud (2008) yn cynnwys manylion am ei gefndir teuluol: ef oedd yr hynaf o wyth o blant: a'r hanesyn amdano yn hanner-llusgo glöwr hŷn, a oedd yn brin o anadl, allan o ardal yn y ffas lo lle roedd nwy yn eu bygwth. Trafodwyd ganddo hefyd hanes yr alwad i'r weinidogaeth a'r profiad o fugeilio eglwys ym Mrynaman, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan.

Er i Elwyn a finau hanu o'r un ardal - Elwyn o Ben-twyn, sef y bryn a saif uwchlaw pentref Cross Hands, a finau o ganol y pentref - deuthum i'w adnabod pan oedd y ddau ohonom yn fyfyrwyr yn Aberystwyth. Serch hynny, yr oeddwn eisoes wedi clywed llawer amdano, yn enwedig am ei gampau fel chwaraewr rygbi o fri, gan chwarae i dimau dosbarth cyntaf Llanelli ac Abertawe a hefyd Cymru mewn gornest arbennig yn erbyn y Llewod Prydeinig yn 1955. Hefyd am ei benderfyniad i adael glofa'r Mynydd Mawr yn y Tymbl i ddilyn cyrsiau yng ngholegau Trefeca ac Aberystwyth i'w baratoi ar gyfer cael ei ordeinio yn weinidog yr Efengyl.

Datblygodd y cysylltiad rhyngom pan y'i sefydlwyd yn weinidog yn eglwys y Tabernacl, Aberystwyth yn 1970: fy mhriodas i a Mary oedd yr un gyntaf iddo weinyddu yno: ac ymhenn amser buom yn gymdogion am nifer o flynyddoedd. Gwnaeth argraff fawr yn syth fel gweinidog ifanc brwd ac urddasol, a bu'n fugeil gofalus ac eithriadol o gydwybodol yn Y Tabernacl ac Ebeneser am 28 mlynedd. Yn ystod ei weinidogaeth yn Aberystwyth arweiniodd deithiau i Israel a Gwlad Groeg, a bu'n weithgar gyda Chymdeithas Cyfeillion Ysbyty Bronglais a Chymorth Cristnogol: mae'n arwyddocaol iddo gyflwyno holl elw ei gyfrol gyntaf i Gymorth Cristnogol, a'r ail gyfrol tuag at loches i blant y stryd mewn gwledydd tlawd a mudiad y deillion yn Affrica. Fe'i anrhydeddwyd yn 1998 pan fu'n Llywydd Cyngor Eglwys Rhyddion De Cymru.

Ergyd drom iddo oedd marwolaeth Elizabeth dwy flynedd yn ôl, a hynny cyn iddynt ymgartrefu nôl yn Aberystwyth fel yr oeddent wedi bwriadu.

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf gyda'i feibion Iwan, Aled ac Emyr, ei frodyr a'i chwiorydd, a'u teuluoedd.

Huw Owen



Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro?

Ceir prisau rhesymol iawn
gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£10 yn unig,

a dim ond £60 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

TEIARS
BREC'S
BATHS
GWACAWYR

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Llanwnnen

Ysgol Llanwnnen

Llongyfarchiadau i'r chwe disgybl o flynyddoedd 4, 5 a 6 a fu'n cystadlu yn rownd yr ysgol o Cogurdd. Eu tasg oedd gwneud cwsews lliwgar a Siân Jenkins, Tyllwyd a gafodd y dasg anodd o'u beirniadu. Diolch o galon ichi am roi o'ch hamser. Yr enillydd oedd Catrin Jones o flwyddyn 5 a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf. Pob lwc iti Catrin.



Da iawn i dîm pêl-rwyd yr ysgol am gystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd yn Llambod gan chwarae yn dda iawn. Aelodau'r tîm oedd Catrin, Lucy, Maria, Lilly, Emily, Carwyn, Meirion, Steffan G, Guto a Steffan H.

Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn ymweld ag Ysgol Bro Pedr dros yr wythnosau diwethaf wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer symud i'r Ysgol ym mis Medi. Mae'r ddau wedi mwynhau eu profiadau yn yr Ysgol yn fawr iawn. Diolch i Ysgol Bro Pedr am drefnu diwrnodau cyffrous a llawn hwyl ar eu cyfer.

Bu Mr Gwyndaf Lloyd o'r Gwasanaeth Tân yn ymweld â'r Ysgol yn ystod mis Ionawr a chafwyd sesiynau diddorol gyda'r plant yn dysgu am beryglon tân yn y cartref.

Bu cyngerdd a ffair Nadolig yr ysgol yn llawer o sbri a diolch i bawb a fu'n ein cynorthwyo ac i'r plant am noson arbennig. Diolch hefyd i westy'r Grannell, Llanwnnen am yr ystafell. Bu pob aelod o'r dosbarth hŷn wrthi'n cynllunio a threfnu eu stondin gan fwynhau'r noson o brynu a gwerthu yn fawr iawn. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi ein Ffair.

Ar ddiwedd y tymor aethpwyd am drip i'r sinema yn Aberystwyth i fwynhau ffilm a phopcorn er mwyn diolch i'r disgyblion am eu holl waith yn ystod y tymor.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dafydd Bowen, Delyn Aur

a Lisa Batchelor o Southampton ar eu dyweddian ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Geraint ac Elen Bowen ar enedigaeth eu merch, Betsan Mair – wyres fach gyntaf i Graham a Vivienne Bowen, Delyn Aur.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Ray Thomas, Berllan, Bro Llan a theulu Castell Du ar farwolaeth merch, chwaer a modryb annwyl iawn ym mherson Megan Jones o Alltbyblaca ddydd Nadolig 2013. Derbyniwch gydymdeimlad ardal eang yn eich profedigaeth lem.

Priodas Aur

Yn ddiweddar dathlodd Dilwyn ac Alice Davies, Alwyn eu Priodas Aur. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu, gan ddymuno iechyd da i chwi eich dau eto i'r dyfodol.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Mrs Lizzie Anne Jones Blaenllain a Mrs Mary Richards, Lowtre ar wellhad yn dilyn eu triniaethau yn yr ysbyty yn ystod y mis.

18 oed

Ar Chwefror 6ed bydd Emyr Jones, 4 Bro Llan yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Cawl a Chân

Cynhelir noson Cawl a Chân ar nos Wener, Mawrth 7fed am 7.00y.h. Artistiaid y noson fydd Plant Ysgol Llanwnnen a C.F.F.I. Llanwenog. Llywydd y noson fydd John Beaufort Williams, Brynamllwg, Llanwnnen. Mynediad yn £7. Tocynnau ar werth drwy ffonio Aeron Hughes, 422654; John Williams 481240 neu Gwen Davies 481152. Yr elw tuag at Gangen yr Urdd lleol a Phwyllgor Lles Llanwnnen. Croeso cynnes i bawb.

Pen-blwydd arbennig

Ar ddiwedd mis Ionawr dathlodd Roy Roach, Maes-yr-ŵyn ei ben-blwydd yn 70 oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Sefydliad Y Merched

Ar Nos Lun Ionawr 6ed cyfarfu'r Sefydliad yng Ngwesty'r Grannell a chafwyd noson hwylus, gyda'r aelodau yn trafod rhaglen am y flwyddyn nesaf a phawb yn rhannu'u syniadau.

Cyfeiriodd Mrs Avril Jones ein llywydd at y noson hyfryd ym mis Tachwedd gyda Mrs Rhonwen Thomas, Llanfair yn arddangos ceginio ar amrywiaeth o wahanol ddanteithion blasus. Yna, cyfarfod mis Rhagfyr pan fu Mrs Eleri Lewis, Rhywsion Uchaf Drefach yn

arddangos gwahanol ffyrdd i baratoi a pacio anrhegion Nadolig – dwy noson diddorol addysgiadol iawn

Ar Nos Sadwrn Ionawr 18fed cynhaliwyd ein Cinio Blynnyddol yn Ngwesty'r Grannell, lle cafwyd pryd blasus. Ar y noson cyhoeddwyd mae enillydd y gystadleuaeth fisol am y flwyddyn oedd Mrs Alice Davies. Ar ôl y cinio cafwyd Gyrfa Chwist yng ngofal Mrs Gwen Davies. Cafwyd llawer o hwyl.

Enillwyr oedd Merched 1af - Mrs Doris Jones, Cydradd 2il - Mrs Alice Davies a Mrs Avril Jones. Dynion - 1af - Mrs Ceinwen Roach, 2il - Mr Roy Roach.

Diolchodd ein llywydd i Mrs Ann Hughes am drefnu'r noson ac i bawb am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn.

Pwyllgor Lles

Treuliodd trigolion y pentref brynhawn hyfryd a hamddenol ar wahoddiad y Pwyllgor Lles yng Ngwesty'r Grannell yn mis Rhagfyr. Cawsom ginio blasus, ac yna ein ddiddanu gan blant ysgol Llanwnnen. Cafwyd eitemau o bob math – canu, adrodd ambell i stori ddifyr ac ati, a'r cwbl o safon uchel iawn. Diolchodd Mr John Beaufort Williams i bawb am lwyddiant y fenter newydd hon.

Diolch

Dymuna Alice a Dilwyn Davies, Alwyn, ddiolch yn gynnes iawn i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur. Cafwyd diwrnod bendigedig yng nghwmni nifer o berthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Gorsgoch

Pen-blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i Gwawr Hatcher, Cefn Hafod ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ac hefyd i Wendy Evans, Parcyrrhos ar ddathlu ei deugain oed.

Gobeithio i chi'ch dwy fwynhau'r dathliadau!!

Diolch

Dymuna Mrs Ilse Shaw ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a gweddïau ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn.

Siarad Cyhoeddus

Llongyfarchiadau i Iwan Evans, Parcyrrhos ar ennill y siaradwr gorau o dan 16 yng nghystadleuaeth siarad gyhoeddus y CFfl. Hefyd i Gwawr Hatcher ar ennill y cadeirydd gorau o dan 21 yn yr un gystadleuaeth.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Braf yw cael croesawu dau ddisgybl newydd i'r ysgol sef Glesni Rees ac Edward Weedon ar ôl gwyliau'r Nadolig. Erbyn hyn maent wedi ymgartrefu'n llwyr yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Croeso cynnes i Miss Charlotte Evans i Ysgol Cwrtnewydd fel myfyrwraig. Mae hi'n astudio yng Ngholeg y Drindod a bellach ar Ymarfer Dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Gobeithio y byddwch chi'n hapus gyda ni.

Ar ddechrau'r mis cynhaliwyd cystadleuaeth pêl rwyd yng Nghanolfan Hamdden Llambled. Cystadleuaeth gyda'r Urdd oedd hon ac roedd pob ysgol o gylch Llambled yn cystadlu. Cyrhaeddodd i'r rownd derfynol ac ennill yr ail safle. Cawsom dipyn o hwyl ac roedden ni'n hapus iawn gyda'r canlyniad!

Mae gwersi y tri phwnc wedi ailgychwyn ac yn digwydd bob yn ail ddydd Mawrth gydag Ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd. Mae plant blwyddyn 3 i 6 yn derbyn gwersi Technoleg Gwybodaeth, Daearyddiaeth a Cherddoriaeth ar y cyd. Ar y dydd Mawrth arall mae'r tair ysgol yn mynd â'r plant i gael gwersi ymarfer corff yn y Ganolfan Hamdden a gwersi nofio yn Llanbed.

Hoffem groesawu Cylch Meithrin Drefach yn ôl i'n plith yn dilyn y gwyliau. Mae'r cylch yn defnyddio neuadd a'r ardal allanol yr ysgol bob pythefnos.

Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn ffodus i gael y cyfle dros rhai diwrnodau i ymweld ag adran uwchradd Bro Pedr, ac un disgybl wedi ymweld ag Ysgol Dyffryn Teifi. Mae hyn yn gyfle euraidd i brofi blas ar fywyd yn yr ysgol uwchradd. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn gwersi amrywiol.



Ar Ionawr 31 cynhaliwyd Bingo blynyddol Mabolgampau Cwrtnewydd yn neuadd yr ysgol. Yn y llun gwelir Mrs Wendy Davies gyda'r plant a oedd yn bresennol yn cyflwyno sieciau i Mrs Mary Jones o Gymdeithas Hŷn Llanwenog, Elinor Hopkins o Gylch Meithrin Drefach, Carol Rees o Gylch Ti a Fi Cwrtnewydd ac ar ran Ysgol Cwrtnewydd rhai o blant yr ysgol. Diolch i Gwyn a Val Jones am noson lwyddiannus iawn.

Eleni eto, penderfynon ni gystadlu yng Nghystadleuaeth coginio'r Urdd sef Cogurdd. Cynhaliwyd y rownd gyntaf yn yr ysgol. Bu deuddeg o blant wrthi'n brysur yn Neuadd yr ysgol yn paratoi couscous. Hanna Davies oedd yr enillydd, Lisa Jenkins yn ail a Carwyn Davies yn drydydd. Ymlaen yn awr i rownd dau cylch Llambled. Diolch i Miss Sirian Davies am drefnu'r cyfan a'n harwain ni, ac i Miss Jo am feirniadu'r gystadleuaeth.



Dymunwn bob llwyddiant i Miss Heddwyn Davies yn ei swydd newydd fel Uwch Ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant. Gwerthfawrogn ei gwaith a'i hymroddiad i'r ysgol dros ei chyfnod fel Pennaeth yr ysgol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys ag Eileen a Lyn Rees, Tanrhos o golli ei chwaer Beryl Williams, Blaenwaun, Talylychau yn sydyn ar ddydd Sul olaf y flwyddyn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Carol Davies, Pantywilco ar ei phenodiad i Bennaeth Ysgolion Cwrtnewydd, Llanwenog a Llanwnnen. Pob hwyl gyda'r swydd newydd.

Diolch

Dymuna Walter Harries, Clarence ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Sally ei wraig ar ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch hefyd i holl staff Cartref Maes-y-felin am eu gofal amdani.

£17.50 yw pris
Tanysgrifiad
Blwyddyn Papur
Bro Clonc.
Beth am ei brynu
fel anrheg i rywun?

Cysylltwch â
Mary Davies,
ysgrifenyddes
Clonc
ysgrifennydd@
clonc.co.uk

Alltyblaca

Gwellhad

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Sara Humphreys-Jones, Frongelli a gafodd anffawd gartref yn ystod mis Rhagfyr ac a fu'n cael triniaeth wedyn yn Ysbyty Glangwili. Wedi treulio amser yn gwella gyda'i theulu ar wahanol aelwydydd mae nôl gartref yn Frongelli ac yn gwella'n foddhaol. Cofion gore atoch Sara ac edrychwn ymlaen i'ch gweld o gwmpas unwaith eto.

Cydymdeimlo

Ar fore Nadolig daeth ton o dristwch dros yr ardal pan glywyd am farwolaeth Megan Jones, Llwynbedw. Roedd wedi brwydro yn ddewr iawn yn erbyn afiechyd creulon, ond yn anffodus collodd y frwydr.

Bu'r angladd yn breifat yn ôl ei dymuniad yn Eglwys St Lucia, Llanwnnen ac yna rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent Capel y Groes.

Cydymdeimlwn yn ddwys a'i gŵr Gwyn, ei mab Heddwyn a'r teulu oll yn eu colled.

Sarn Helen

Yn ystod y tymor cynhaliwyd pencampwriaeth clwb Sarn Helen rhwng holl rasys y clwb, Steven Holmes enillodd gategori dynion agored, dynion 40 Glyn Price, dynion 50 Mark Dunscombe, menywod agored Dee Jolly, menywod 35 Eleri Rivers a menywod 45 Helen Willoughby. Rhoddwyd tarian gan Mr a Mrs Lyn Rees i'r dyn â'r mwyaf o bwyntiau sef Glyn Price, ac hefyd tarian i'r ddynes gyntaf yn rhoddedig gan Mr a Mrs Gethin Jones i Dee Jolly – fe'u cyflwynwyd yn ystod cinio blynyddol y clwb yn gwesty'r Talbot Tregaron.

Cafodd y plant barti Nadolig, a Grace Page oedd pencampwraig y merched a Tomos Willoughby oedd pencampwr y bechgyn i blant ysgol uwchradd. Beca Jones a Daniel Willoughby oedd pencampwyr yr ysgolion cynradd.

Llanfair-ym-Muallt oedd lleoliad traws gwlad rhyng-ranbarth Cymru, Caryl Davies yn gorffen yn 21 a Elen Page 46 yn ras menywod dros 35, Caitlin Page 5 a Ffion Quan 6 dan 17, Grace Page 38 dan 13, ac roedd y pump yn cynrychioli gorllewin Cymru. Hefyd ar yr un diwrnod enillodd Dawn Kenwright y fedal aur yn ras dros 55, a Daniel Jones yn gorffen yn 6ed yn ras blwyddyn 6.

Llongyfarchiadau i Helen Willoughby, Aneurin James, a Nigel Davies sydd wedi gorffen Brecon ultra 40 trail marathon, ac yn ras Aberystwyth 10K enillodd Glyn Price y categori vet 45, Dawn Kenwright m 55, a Richard Marks vet 60.

Tîm Sarn Helen A a thîm Sarn Helen menywod yn dod yn yr ail safle yn ras tîm Pusuit yn Crymmych; Sarn Helen A yn gorffen mewn 3 awr 27 munud (12416 pwyntiau), Glyn Price, Jack Davey, Dylan Lewis, Carwyn Thomas a Llewelyn Lloyd, y merched yn gorffen mewn 4 awr 23 munud, Eleri Rivers, Dawn Kenwright, Helen Willoughby, Dee Jolly a Caryl Davies. Sarn Helen B 3 awr 27 munud (13024), Sarn Helen C 3 awr 59 munud, Sarn Helen D 4 awr 29 munud.

Bu Caitlin Page a Ffion Quan yn cynrychioli Cymru yn ras traws gwlad McCain yn Antrim, Gogledd Iwerddon. Gorffennodd Caitlin yn 23 a Ffion 25, ac yn traws gwlad McCain yng Nghaerdydd Ffion yn gorffen yn 10, Caitlin 23, a Beca Roberts yn 6 yn ras i ysgolion gynradd.

Mae Caryl Davies, Caitlin Page a Ffion Quan wedi cael eu dewis i redeg dros orllewin Cymru yn ras traws gwlad McCain yn Birmingham dydd Sadwrn 8fed o Fawrth, a bydd y ras yn fyw ar SKY Sports.

Gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau hwyl yr ŵyl! Yn bendant fe wnaeth aelodau'r CFFI fwynhau'r Nadolig wrth iddynt ymweld â Phantomeim Felinfach, canu carolau o amgylch aelwydydd cefn gwlad, bwyta mewn ciniawau, chwarae ambell i gêm o ddartiau twrci ac wrth gwrs gwisgo'n smart ar gyfer dawnsfeydd y tair sir! Aeth bws i ddawns Brenhines Sir Benfro yn Ninbych y Pysgod, a dawns Llysghades Sir Gâr yn Abertawe, a mynychodd llond lle clwb nos y Pier Pressure yn Aberystwyth i ddathlu gyda Brenhines, Ffermwr Ifanc a Morwynion Ceredigion.

Siarad Cyhoeddus Saesneg

Llongyfarchiadau i GFFI Llanwenog am ddod i'r brig yn y Siarad Cyhoeddus Saesneg ac ennill cwpan her Emrys Jones, ac yn gydradd 2il roedd Llangeitho a Mydroilyn. Dyma'r canlyniadau yn llawn:

14 oed ac iau - Darllen - Cadeirydd: 1af Glesni Thomas Pontsian, 2il Lleucu Ifans Dihewyd, 3ydd Rhys Davies Llanwenog A. Darlennydd: 1af Ifan Jones Pontsian, 2il Iwan Evans Llanwenog A & Glesni Thomas Pontsian. Tîm: 1af Pontsian, 2il Llanwenog A, 3ydd Llanwenog B.

16 oed ac iau - Cadeirydd: 1af Bleddyn Jones Llangeitho, 2il Meirir Davies Llanwenog A, 3ydd Catrin Rees Mydroilyn. Siaradwr: 1af Iwan Evans Llanwenog B, 2il Max Daniels Llangeitho, 3ydd Sioned Fflur Evans Llanwenog A. Diolchydd: 1af Twm Ebbsworth Llanwenog B, 2il Rhys Davies Llanwenog A, 3ydd Richard Downes Llangeitho & Catrin Evans Mydroilyn. Tîm: 1af Llangeitho, 2il Llanwenog B, 3ydd Llanwenog A.

21 oed ac iau - Seiat Holi -Cadeirydd: 1af Lisa Jones Pontsian, 2il Gwennan Davies Mydroilyn & Sioned Fflur Evans Llanwenog B. Siaradwr: 1af Meirian Morgan Llangeitho, 2il Cari Fflur Thomas Pontsian, 3ydd Cennydd Jones Pontsian. Tîm: 1af Pontsian, 2il Llanwenog B, 3ydd Mydroilyn.

26 oed ac iau - Dadl - Cadeirydd: 1af Meirian Morgan Llangeitho, 2il Carwyn Jones Mydroilyn, Gethin Hatcher Llanwenog A & Elen Thomas Pontsian A. Siaradwr: 1af Catrin Haf Jones Mydroilyn, 2il Cerys Lloyd Llanwenog A, 3ydd Enfys Hatcher Llanwenog A. Tîm: 1af Llanwenog A, 2il Mydroilyn, 3ydd Llangeitho.

Ffair Aeaf

Llongyfarchiadau i holl aelodau'r sir fu'n cynrychioli CFFI Ceredigion yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd ddechrau Rhagfyr. Llongyfarchiadau i'r rhai a ddaeth i'r brig sef Enfys Hatcher, Gwawr Hatcher a Heilin Thomas gyda'r coginio, i Elen Thomas Pontsian (dan 21 oed) ar ddod yn 2il yn barnu wyn cigyddion, Dyfrig Williams Llangwryfon (dan 21 oed) 2il a Rhys Davies Llanwenog yn 3ydd (dan 16 oed) yn barnu gwartheg cigyddion. Aeth yr is-bencampwr yn y gystadleuaeth magu llo i Elin Jones, Talybont.

Teithiau Tramor

Daeth llwyddiant ysgubol i aelodau'r sir ar lefel Cymru a Chenedlaethol wrth iddynt ymgeisio am daith dramor; dyma'r rhai fydd yn trampan yn ystod y flwyddyn hon:

Rali Ewropeaidd yng Nghymru: Enfys Hatcher, Llanwenog, Arweinydd y Tîm. **Y Ffindir:** Rhiannon Davies, Caerwedros, **Montana:** Gareth Harris, Llanddeiniol, **Seminar yr Hydref yn Denmarc:** Arwel Jenkins, Llanwenog, **Canada:** Luned Mair, Llanwenog, **Illinois, UDA:** Elen Thomas, Pontsian, **Colorado, UDA:** Gwawr Thomas, Pontsian, **Gahna, De Affrica (NFYFC):** Siwan Davies, Llanwenog, **Canada (NFYFC):** Sian Downes, Llangeitho.

Llongyfarchiadau anferthol ichi gyd! Os oes unrhyw un am wybod mwy am y teithiau yma mae'n siŵr bydd yr aelodau yn fodlon dod i rannu eu profiadau â chi!

Cwis y Sir

Cynhaliwyd Cwis y Sir yn Ysgol Bro Pedr ym mis Tachwedd, diolch i Lywydd y Sir, Gareth Evans am y cwestiynau ac am lywio'r noson.

Cwis Cyffredinol: 1af Caerwedros, 2il Felinfach B, 3ydd Pontsian X
Cwis Amaethyddol: 1af Llanwenog, 2il Pontsian X, 3ydd Troedysraur
Diogelwch Ffyrdd: Cydradd 1: Bro'r Dderi, Llanddewi Brefi, Llangwryfon, Mydroilyn A a Mydroilyn B

Canlyniad Terfynol: Cydradd 1af Caerwedros a Pontsian, 3ydd Llanwenog

Siarad Cyhoeddus Cymraeg

Cynhaliwyd y gystadleuaeth hon ddydd Sul 19eg o Ionawr. Llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog ar ennill Tarian Brynhogfaen am y Clwb Buddugol dros y bedair adran ac i Bontsian am ddod yn ail Fuddugol ac ennill Cwpan Coffa Eric Davies, Prengwyn. Dyma'r canlyniadau ichi:

14 oed ac iau - Darllen: Cadeirydd: 1af Nest Jenkins Lledrod A, 2il Mared

Fflur Davies Felinfach A, 3ydd Alpha Evans, Llanwenog A. Darlennydd: 1af Sion Jones Felinfach B, 2il Mared Fflur Davies Felinfach A, 3ydd Nest Jenkins Lledrod A. Tîm: 1af Llanwenog A, 2il Lledrod A, 3ydd Felinfach A.

16 oed ac iau: Cadeirydd: 1af Catrin Davies Pontsian B, 2il Bleddyn McAnulty-Jones Llangeitho A, 3ydd Lowri Jones Lledrod A. Siaradwr: 1af Iwan Evans Llanwenog B, 2il Nest Jenkins Lledrod B, 3ydd Elen Davies Pontsian B. Diolchydd: 1af Siriol Teifi Pontsian A, 2il Megan Jones Llanddeiniol, 3ydd Guto McAnulty-Jones Llangeitho A. Tîm: 1af Pontsian B, 2il Llanwenog A, Cydradd 3ydd Llanwenog B a Llangeitho A.

21 oed ac iau - Dadl: Cadeirydd: 1af Gwawr Hatcher Llanwenog B, 2il Sioned Fflur Evans Llanwenog C, 3ydd Elen Thomas Pontsian. Siaradwr: 1af Meleri Morgan Llangeitho, 2il Elin Calan Jones Llangwryfon, Cydradd 3ydd Dyfrig Williams Llangwryfon a Lisa Jones Pontsian. Tîm: 1af Llangwryfon, 2il Llangeitho, 3ydd Llanwenog B.

26 oed ac iau - Seiat Holi: Cadeirydd: 1af Enfys Hatcher Llanwenog A, 2il Gwenan Davies Mydroilyn B, 3ydd Nia Medi Jones Llanddewi Brefi. Siaradwr: 1af Catrin Haf Jones Mydroilyn B, 2il Bethan Roberts Mydroilyn B, 3ydd Steffan Davies Llanwenog A. Tîm: 1af Mydroilyn B, 2il Llanwenog A, 3ydd Pontsian B.

Pob dymuniad da i'r buddugwyr a fydd yn cynrychioli Ceredigion ar lefel Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg yn Llanellwedd ar y 29ain o Fawrth.

Disgownts!

Cofiwch am y gostyngiadau arbennig sydd ar gael i aelodau'r sir ac aelodau cyswllt yn y llefydd canlynol:

10% i ffwrdd o ddillad Lan Lofft, Llanbedr Pont Steffan

5% i ffwrdd yn Awen Teifi, Aberteifi

Can o bop am ddim os ydych yn gwario dros £3.00 yn Llund Plat, Aberaeron

Gall unrhyw un ddod yn aelod cyswllt dim ond ichi dalu £10.00 i'r sir ac felly mwynhau'r gostyngiadau yma hefyd, ynghyd â phris gostyngedig i gystadlaethau'r sir a chopi o Ar Dân drwy'r post!

Clwb 200

Rhagfyr 2013

1af - Hywel Thomas, Delfan, Oxford Street, Aberaeron. 2il - Manon Richards, Lowtre, Llanwnnen, Llanbedr Pont Steffan. 3ydd - C.Ff.I. Talybont

Ionawr 2014

1af - D & A E Lewis, Rhydybont, Tregaron. 2il - Helen Hopkins, Brynichell, Blaenpennal, Tregaron. 3ydd - Dewi a Non Williams, Rhandir Uchaf, Llangwryfon.

Digwyddiadau

5ed o Chwefror – Tocynnau Hanner Awr o Adloniant ar werth o Theatr Felinfach ar y ffôn, ar y wefan neu drwy giwio. Uchafswm o 10 tocyn yr un am bob noson.

8fed o Chwefror – Cyfarfod Splash, Vale of Aeron 8yh.

24ain – 28ain o Chwefror – Cystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant

Nos Lun: Caerwedros, Troedysraur, Pontsian

Nos Fawrth: Llanwenog, Llanddeiniol, Llanddewi Brefi

Nos Fercher: Trisant, Llangwryfon, Mydroilyn

Nos Iau: Penparc, Felinfach, Llangeitho

Nos Wener: Tregaron, Bro'r Dderi, Talybont

2il o Fawrth – Cyfweiliadau Aelod Hŷn ac Iau

3ydd o Fawrth – Cyngerdd yr Hanner Awr o Adloniant a Canlyniadau Aelod Hŷn ac Iau y Sir

7fed o Fawrth – Dawns Dewis Y Frenhines, Ffermwr Ifanc a'r Morwynion – Llanina, Llanarth gyda Lady GaGa!

15fed a'r 16eg o Fawrth – Gwledd o Adloniant CFFI Cymru – Venue Cymru, Llandudno.

Sefydliad Prydeinig y Galon
Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan

Cawl a Chân

Clwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan

Artistiaid:

Côr Bechgyn 'Ar Wasgar'
a Lowri Elen, Llanbedr Pont Steffan

7 Mawrth 2014 am 7.30 yh
Tocyn £15.00
Elw tuag at y BHF
am Ddiffibrilwyr

Rhifyn Mawrth

Yn y Siopau
Mawrth 6ed

Erthyglau,
Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Chwefror 24ain

Drefach a Llanwenog

C.F.F.I Llanwenog

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd ac ydy, mae'r cystadlu am 2014 wedi cychwyn i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog unwaith yn rhagor!

Ond cyn cychwyn ar y canlyniadau, hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ein cefnogi yn nartiau twrci blynyddol a gynhaliwyd yng Nghefn Hafod, Gorsgoch. Hywel Jones, Moeddin oedd enillydd y twrci eleni gyda Guto Jones yn ennill cystadleuaeth yr aelod gorau.

Braf oedd cael cyfle i fynd o amgylch cymuned plwyf Llanwenog i ganu carolau, diolch i bawb am y croeso twymgalon ac am yr holl fwyd blasus. Codwyd swm arbennig o £1,287.28 a fydd yn cael ei rannu rhwng cronfa'r clwb a RABI.

Bu criw o Lanwenog yn y Ffair Aeaf ddechrau Rhagfyr 2013. Llongyfarchiadau mawr i Enfys Hatcher, Heilin Thomas a Gwawr Hatcher ar ennill yn y gystadleuaeth goginio. Hefyd llongyfarchiadau i Rhys Davies am ddod yn 3ydd am farnu biff dan 16 oed.

Cynhaliwyd Siarad Cyhoeddus Cymraeg y sir yng Nghanolfan Addysg Felinfach ar y 19eg o Ionawr, 2014. Dyma'r canlyniadau:

Dan 14 - Alpha Jones - Cadeirydd - 3ydd. Llanwenog A - 1af - Alpha Jones, Rhys Davies ac Iwan Evans

Dan 16 - Iwan Evans - Siaradwr - 1af. Llanwenog A - 2il - Meinir Davies, Sioned Fflur Davies a Rhys Davies. Llanwenog B - cydradd 3ydd - Tomos Evans, Twm Ebbsworth ac Iwan Evans.

Dan 21 Gwawr Hatcher - Cadeirydd - 1af, Sioned Fflur - Cadeirydd - 2il. Llanwenog B - 3ydd - Gwawr Hatcher, Sioned Davies a Sophie Jones

Dan 26 Enfys Hatcher - Cadeirydd

- 1af, Steffan Davies - Siaradwr - 3ydd. Llanwenog A - 2il - Enfys Hatcher, Cerys Lloyd, Steffan Davies a Luned Mair.

Daeth y clwb yn fuddugol ar ddiwedd y dydd ac ennill Tarian Brynhogfaen. Llongyfarchiadau mawr i bawb. Rhown longyfarch i'r clwb hefyd ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg 21 o weithiau'n ystod y 31 mlynedd diwethaf.

Yn y ginio, cafodd Sioned Fflur Evans ei henwebu fel yr aelodau iau mwyaf gweithgar a Menna Williams fel yr aelod hŷn mwyaf gweithgar. Llongyfarchiadau mawr i chi eich dwy.

Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Parchedig Wyn Thomas ac yna adroddiad hwylus gan ein llywydd Pugh Jones a'r gadeiryddes Cerys Lloyd. Diolch iddynt hwythau.

Yn ystod y noson hefyd trosglwyddwyd sic o £646.14 i Linda Jones, cynrychiolwraig o gymdeithas RABI.

Erbyn hyn yr ydym wrthi yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth yr Hanner Awr Adloniant.

Os am ragor o wybodaeth am y clwb a sut i ymuno â ni ewch i wefan y clwb: www.cffillanwenog.org.uk

Byddwn yn cynnal ein Cyngerdd Hanner Awr Adloniant yn Theatr Felinfach ar Fawrth 14eg am 7.30y.h



Cynhaliwyd ein cinio blynyddol eleni yng Ngwesty'r Emlyn, Castell Newydd Emlyn, lle'r ymunodd cant o aelodau, arweinyddion a ffrindiau'r clwb i ddathlu llwyddiannau'r flwyddyn. Siaradwr gwadd: Parchedig Wyn Thomas. Llywydd: Pugh Jones.



Cyflwyno sic o £646 a gasglwyd wrth ganu carolau i Linda Jones, o elusen R.A.B.I.

Diolch

Dymuna Gareth a Mary Davies, Maesglas ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am y pentwr cardiau a'r holl gyfarchion a dderbyniwyd ganddynt pan ganwyd ei wyres fach gyntaf, Elliw Grug ddechrau mis Rhagfyr. Gwerthfawrogi popeth yn fawr iawn.

Merch fach

Llongyfarchiadau i deulu Llechwedd-hen ar enedigaeth merch fach, Seren yn ystod mis Ionawr. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Pen-blwydd Arbennig

Ar ddydd Calan dathlodd Marian Morgan, Rhyd-y-felin ben-blwydd arbennig. Gobeithio dy fod wedi mwynhau dy ddiwrnod.



C.F.F.I. Llanwenog yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg ac yn ennill Tarian Brynhogfaen. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Blwyddyn Newydd Dda i bawb!
Cafwyd Cyngerdd Nadolig arbennig cyn ddiwedd y tymor; diolch yn fawr i bawb wnaeth ein cefnogi. Diolch hefyd i Mr Greenfield am gynhyrchu DVDs o'r noson.

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen, yn ogystal â phlant Ysgol Feithrin Gwenog, yn Sioe Cyw yng Nghaerfyrddin cyn y Nadolig. Mwynhaodd pawb ddawnsio a chanu gyda'u hoff gymeriadau ar Cyw.

Braf yw croesawu disgybl newydd i'r Ysgol, sef Fflur Morgan. Gobeithio y gwnei fwynhau dy amser yn yr Ysgol.

Bu tîm o ddisgyblion plant hŷn yr Ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar. Aeth Josh, Niall, Chloe Cox, Rosanna, Hafwen, Molly a Luke i'r Ganolfan Hamdden yn Llanbed. Da iawn chi am wneud eich gorau a diolch i Mrs Nerys Vobe am eich hyfforddi.

Ar hyn o bryd yn ein Clwb Hwyl ar ôl Ysgol rydym yn cynllunio ac yn creu eitemau Celf a Chrefft ar gyfer

Cystadleuaeth yr Urdd.

Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Bro Pedr yn ystod y mis ddiwethaf. Maent bellach wedi bod ddwywaith yn cael blas ar fywyd a threfn y dydd; profiad buddiol iawn iddynt er mwyn paratoi at eu dyfodol.

Bu cystadlu brwd yn yr Ysgol ddydd Gwener diwethaf wrth i ddisgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 gystadlu yn rownd gyntaf Cogurdd yr Urdd. Creu pryd o fwyd iachus oedd y dasg a bu Mrs Jan Green a Mrs Liz Tippin yn beirniadu. Diolch iddynt hwy am ein cefnogi. Roedd yn benderfyniad anodd iawn. Y buddugol oedd Niall O'Keefe ac ef fydd yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf i gynrychioli'r Ysgol yn yr ail rownd. Pob hwyl iddo fe.

Dymunwn wellhad buan i'n gofalwr sef Mr Bracy sydd wedi bod yn teimlo'n anhwylyd yn ddiweddar.

Braf yw clywed fod gennym Bennaeth newydd o fewn y dair Ysgol. Hoffem longyfarch Carol Davies yn fawr iawn. Rydym fel staff yn edrych ymlaen i gydweithio â hi yn y dyfodol.

Eglwys Santes Gwenog

Dymunwn Flwyddyn Newydd lwyddiannus a iachus i bawb. Bu cyfnod y Nadolig yn un prysur, gan ddechrau gyda gwasanaeth y Naw Llith a Charol. Braf oedd gweld rhai o ieuenctid yr eglwys yn cymryd rhan. Diolch i Mrs Pauline Roberts Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ.

Noswyl Nadolig bu gwasanaeth y Cymun Bendigaid, a'r Sul canlynol mwynhawyd gwasanaeth Cristingle. Yn ystod y gwasanaeth derbyniwyd orennau wedi eu paratoi a'u haddurno i ddehongli ystyr Cristingle gan ein Ficer, y Parch Suzy Bale. Diolch iddi am ei pharatoadau.

Diolch i wragedd Cymdeithas yr Allor am wisgo'r eglwys mor gelfydd a thymhorol ac i Andy Twelvetrees am y rhodd o goeden fytholwyrdd ysblennydd.

Ymunodd Geraint, Caroline, Pauline a Mary gydag aelodau eglwysi Llanybydder a Llanllwni i ganu'r Plygain yn eglwys Tregaron. Diolch i'r Deon Gwlad, Parch Phillip Davies ac aelodau eglwys Tregaron am eu croeso a'r lluniaeth bendigedig a ddarparwyd ar gyfer pawb. Cafwyd gwasanaeth pleserus iawn.

Mewn cyfarfod o'r P.C.C. tynnwyd ein sylw at gyflwr wal a rhan o lwybr y fynwent. Penderfynwyd cael trafodaeth bellach a chyngor adeiladwr ynglŷn â'u hatgyweirio.

Edrychwn ymlaen at 16eg Mawrth i groesawu Côr Meibion Cwmann i roi noson o adloniant i ni. Croeso cynnes i bawb.

Cofiwn am aelodau a ffrindiau sydd yn anhwylyd, ac yn enwedig Jim Evans Frowen sydd wedi bod am gyfnod yn yr ysbyty. Brysiwch wella. Croeso adre i Bronwen Jones, Greenhill wedi cyfnod yn Hafan Deg. Ein cydymdeimlad dwys â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Yr ydym yn cofio amdanoch.

Clwb 100 yr eglwys

1. Jonathan Goodall; 2. Miriam Butcher, Heol y Gaer; 3. Daniel Jones, (Greenhill); 4. Eirlys Jones, Gellideg; 5. Cyng. Euros Davies.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 27 ynghyd i festri Seion, Cwrtnewydd i'r cyfarfod ddechrau mis Ionawr, a braf oedd cael croesawu ffrindiau newydd i'n plith. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth wyth o'r aelodau, a dymunwyd gwellhad buan i Jim Evans, Annie Bowen, a Ieuan Jones. Estynnwyd cydymdeimlad at Dilwen George ac Irene Jones yn eu profedigaeth o golli cefnder.

Ein siaradwr gwadd oedd Mr Simon Evans, Troedrihw, Cwrtnewydd, a chroesawyd ef yn gynnes gan Brenda Jones. Drwy gyfres o luniau aeth â ni drwy ei fywyd proffesiynol ym myd peirianeg a datblygu gergistiau (gearboxes) wrth weithio i gwmnïau megis British Leyland, DAF, Eaton, David Brown a JCB. Roedd yn brofiad unigryw i wrando a gweld yr hyn oedd wedi'i ddatblygu yn y maes hwn. Yn dilyn ei ymddeoliad dwy flynedd yn ôl, mae wedi dychwelyd i hen garte'r teulu yng Nghwrtnewydd. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Yvonne Davies, ac wedi mwynhau lluniaeth o ddwylo gwagedd Capel Seion a Chapel y Bryn, diolchwyd iddynt hwythau gan Beryl Lewin.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Chwefror 12fed, 1.30yp yn festri Capel y Cwm, pan fydd parafeddyg yn dod i siarad am ei waith.

Cydymdeimlo

Ar ddechrau mis Rhagfyr collodd Gwenda a John Davies, Bwlchmawr ei brawd, Richard (Dic) Evans o Bencarreg. Hefyd i Dafydd ac Ann a'r teulu, Ger y Nant ar golli ewythr yn yr un brofedigaeth. Cydymdeimlir yn ddwys â chwi fel teulu i gyd yn eich colled o golli person unigryw iawn.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Mary a Gareth Davies, Maesglas ar ddod yn fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf i Elliw Grug, merch i Dylan a'i briod Elen yn Llanybydder. Yn yr un modd daeth Mrs Mair Davies, Dolwerdd yn hen fam-gu am y tro cyntaf hefyd i Elliw Grug.



Bu Mr a Mrs Davies, Fferm Bwlchmawr yn yr Ysgol yn sôn am eu gwaith a'u profiadau ar fferm laeth. Rydym ar hyn o bryd yn astudio llaeth fel rhan o'n gwaith dosbarth ac rydym wedi creu siop laeth yn yr ardal chwarae rôl. Roeddent felly eisiau gwybod mwy am y broses o'r fuwch i'r potel laeth a geir mewn siop. Roedd y plant wedi paratoi cwestiynau i ofyn i Mr Davies ac roeddent wedi cael blas ar wrando ar yr atebion. Roeddent wedi rhyfeddu bod llaeth Mr Davies yn mynd i ffactori oedd yn creu siocled Cadbury. Diolch yn fawr iawn felly i Mr a Mrs Davies am roi o'u hamser i ddod atom.

Radio Beca

DYDD GŴYL DEWI – DYDD ADEILADU RADIO BECA – nid eich radio chi. Ein radio NI

O'r diwedd – ma' radio leol sydd yn lleol ac yn siarad Cymra'g o amser brecwast hyd at amser swper ar y ffordd. I bobol Ceredigion a rhannau o sir Benfro bydd hynny fel croesawu hen ffrind yn ôl. I bobol sir Gâr a'r cyffiniau bydd ca'l radio Cymra'g sydd yn ca'l ei gynhyrchu'n lleol yn unswydd ar gyfer pobol leol yn brofiad cyffrous newydd.

Ond siwt beth fydd Radio Beca? Siwt ma' helpu adeiladu'r gwasanaeth newydd? Gobeithio bydd cwestiynau ac atebion isod yn y'ch goleuo.

1. **Beth yw Radio Beca?** Gorsaf radio newydd ar gyfer gorllewin Cymru. 2. **O le fydd Radio Beca'n darlledu?** O fast Blaenplwyf, Preseli a Charmel (Cross Hands). Ac ar y we, hefyd, wrth gwrs. 3. **Yn Gymraeg?** Ie – o amser brecwast hyd at amser te yn ddi-stop. Gyda'r nos bydd rhaglenni Saesneg (a Pwyleg hefyd, falle) i helpu pobl ddi-Gymraeg ddysgu am le ma' nhw'n byw. 4. **Ble fydd stiwdios Radio Beca?** Bobman. Ym mhob rhan o'r tair sir. Ble bynnag ma' bobol am gasglu gyda'i gilydd i greu rhaglenni neu i gyfrannu eitemau. 5. **Ond ma' rhaid cael stiwdio ar gyfer darlledu, ond-o's-e?** Nago's. Dim bellach. Mi fydd Radio Beca yn hyfforddi pobol yn eu cymdogaethau i ddefnyddio lap-top, i-phone neu i-pad ar gyfer creu rhaglenni yn lleol i'w darlledu ar draws tonfeddi Radio Beca. 6. **Pwy yw Radio Beca?** Ni yw Radio Beca. Pawb a phob un sydd am fod yn rhan o'r fenter a'r cyffro. Fel ein neuaddau pentref rhywbeth y byddwn ni'n adeiladu ein hunain ar gyfer ni'n hunain fydd Radio Beca. Menter gydweithredol – yn llythrennol: ni (i gyd) yn gweithio gyda'n gilydd. 7. **Fel siopau John Lewis?** Digon tebyg. Ma' pawb sy'n gweithio yn y siopau yn berchen ar y cwmni. Ma' nhw'n gweithio dros ei gilydd, yn yr un ffordd a mae aelodau clybiau ffermwyr ifainc yn gweithio dros ei gilydd. Mi fydd pawb sydd yn helpu adeiladu Radio Beca yn berchen ar Radio Beca. Byddwn ni gyd yn gweithio dros ein gilydd. Gyda'n gilydd byddwn yn cryfhau cymdogaethau'r Gymraeg.

Ysgol Bro Pedr

**Ysgol
Bro Pedr**
A fo ben bid bont



Noson Wobrwyo Ysgol Bro Pedr. Yn y llun gwelir y gŵr gwadd, Dylan Iorwerth, David Williams (Pennaeth), Rhian Evans (Cadeirydd y Llywodraethwyr), Dorothy Williams (Maer y dref) a'r prif swyddogion.



Bu 14 o ddisgyblion yn coginio yng nghystadleuaeth Cogurdd eleni gan wneud yn arbennig o dda. Mrs Ann Pugh oedd y beirniad a diolch iddi am ei gwaith. Llongyfarchiadau i bawb am wneud cwsaws hyfryd a blasus sef Keira, Kodi, Jodie, Dewi, Lisa, Austin, Laura, Georgina, Wiktorina, Nia Beca, Jessica, Sam, Aisvarya a Damian. Derbyniodd Austin Thomas y wobwr gyntaf, Aisvarya Sridar yn ail a Dewi Dudley yn drydydd. Pob lwc i Austin yn y rownd nesaf.



Gwnaeth tîm pêl-rwyd yr ysgol sef Rosie, Mererid, Chelsea, Megan, Narissa, Elan, Ruth, Lauren, Aoife ac Aisvarya yn arbennig o dda yng nghystadleuaeth yr Urdd gan ennill un gêm a cholli'r llall. Cafwyd bore llawn hwyl a sbri wrth chwarae a chymdeithasu ag ysgolion eraill y cylch. Diolch i Miss Wyn a Mrs Costello am eu hyfforddi.

Ysgol Bro Pedr Campws Cynradd

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn ddigon ffodus i fynd i'r Ardd

Fotaneg Genedlaethol er mwyn profi gwersi gwyddonol buddiol, ynghyd â thaith o amgylch yr atyniadau

diddorol.

Cafodd pob disgybl o flynyddoedd 1 hyd 6 weithdy ar ddiogelwch tân yng ngofal Gwyndaf Lloyd a diolch iddo am roi o'i amser prin i ddod atom.

Mae'r disgyblion ar hyn o bryd yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol a gynhelir ddydd Gwener, Chwefror 21. Croeso cynnes i rieni a ffrindiau.

Ysgol Bro Pedr Hŷn

Cafodd disgyblion blwyddyn 7 ddiwrnod buddiol yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Cafwyd cyfle i weld llawysgrifau prin iawn fel Llyfr Du Caerfyrddin; cafwyd gwers ar y Mabinogi gan Owen Llywelyn, yn ogystal â thaith o amgylch yr adeilad pwysig.

Daeth Peggy Beer, crefftwaig leol, i'r ysgol ar Ionawr 14 i helpu disgyblion TGAU, Lefel A ac UG, sy'n astudio Celf a Dylunio tri dimensiwn gyda'u gwaith. Bu'r disgyblion yn creu cerfluniau anhygoel gan ddefnyddio brigau helyg sy'n tyfu'n lleol. Ar gyfer ei uned TGAU, creodd Rebecca Davies 11D gerfluniau siâp dail allan o frigau helyg, creodd Rhodri Price gerflun pry cop ar gyfer ei waith UG a chreodd Dewi Uridge barcud coch ar gyfer ei waith Lefel A. Hoffem ddiolch o galon i Peggy am ddod i'r ysgol ac am gynnig cyngor arbennig i'r disgyblion. Bydd arddangosfa o waith celf y disgyblion yn yr ysgol yn ystod yr haf eleni, a bydd croeso mawr i bawb.

Yn dilyn llwyddiannau Melanie Morris (Bl 13 llynedd) ar ennill y marc GMU uchaf yng Nghymru o blith y rhai fu'n astudio Teithio a Thwristiaeth lefel A, bu mewn seremoni wobrwyo yn swyddfeydd CBAC fis Rhagfyr, lle cyflwynodd Huw Lewis AC wobwr iddi.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Toriad Taclus

Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174



Llongyfarchiadau mawr i Gareth Jones, James Edwards a Rhys Jones o flwyddyn 11 ar gael eu dewis i chwarae i dîm datblygu Scarlets West. Llwyddodd y bechgyn ennill eu gêm gyntaf gyda sgôr o 14-0. Yn ddiweddar chwaraewyd eu hail gêm yn erbyn Gogledd Cymru ac enillwyd honno hefyd. Da iawn chi fechgyn.



Mae'r pwyllgor hwn wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn trefnu amrywiol weithgareddau er mwyn codi arian i elusen Tŷ Hafan. Ar ddydd Gwener, Tachwedd 22ain, cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus yn Neuadd yr Ysgol. Llwyddwyd i godi £315 i'r elusen a hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb â'u cynorthwydd i sicrhau llwyddiant y Bore Coffi, yn arbennig i ddisgyblion 7 Non a'u teuluoedd am gyfrannu cacennau blasus ac am eu helpu yn ystod y bore. Yna, fel rhan o Ffair Nadolig yr ysgol, penderfynodd y pwyllgor gynnal cystadleuaeth Sgwâr Cant a raffl gydag hamperi amrywiol a moethus yn wobrau. Llwyddwyd i godi dros £300 gyda'r arian yn cael ei rannu rhwng Tŷ Hafan a CRha Bro Pedr. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i staff yr ysgol am eu caredigrwydd yn cyfrannu eitemau amrywiol ar gyfer yr hamperi ac i Miss Mattie Evans am ei chymorth gwerthfawr yn paratoi'r eitemau amrywiol yn hamperi moethus. Yn olaf, cynhaliwyd 'Diwrnod Siwmperi Nadolig Bro Pedr' ar gyfer staff a myfyrwyr Chweched Dosbarth ddydd Llun, Rhagfyr 16eg. Y tro hwn, rhannwyd yr arian rhwng Tŷ Hafan ac elusen o ddewis y Prif Swyddogion eleni, sef Clefyd y Siwgr. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth!

Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei llwyddiant haeddiannol.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu hethol gan eu cyd-ddisgyblion i fod yn arweinwyr tai yn Eisteddfod flynyddol yr ysgol sydd i'w chynnal brynghawn dydd Mawrth Chwefror 11eg a dydd Mercher, Chwefror 12fed: Creuddyn - Capteiniaid: Gethin Morgan a Sioned Fflur Evans, Is Gapteiniaid: Dorian Davies a Lowri Elen Jones. Teifi - Capteiniaid: Liam Glasson a Delyth Evans, Is Gapteiniaid: Bradley Lewis a Kelly Jones. Dulas - Capteiniaid: Owain Davies a Sulwen

Richards, Is Gapteiniaid: John Heath a Nia Gwyther. Mae croeso mawr i rieni a ffrindiau ymuno â ni yn ystod y deuddydd yma, a chofiwch am gyngerdd Pigion yr Ŵyl ar nos Iau Chwefror 13eg – dyma wledd o gyngerdd sy'n dangos talent ein disgyblion.

Yn ddiweddar, cyflwynwyd tystysgrifau i Natalie Dearden-Cooke, Kymberley Mills a Vick Peel i gydnabod eu llwyddiant yn pasio a chyrraedd y safon angenrheidiol wrth iddynt fynychu Ysgol Haf Prifysgol Aberystwyth am chwech wythnos o'u gwyliau



Aelodau Cymdeithas Cyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Llambled yn cyflwyno sic £10,500 (sef arian a godwyd drwy wahanol weithgareddau gan y Gymdeithas dros y blynnyddoedd) i David Williams, Pennaeth yr ysgol. Gerwyn Jones, y Trysorydd a gyflwynodd y sic. Yn y llun o'r chwith mae Margaret Davies Evans, David Williams, Aneurin Jones, Gerwyn Jones a Betty Phillips.

haf eleni. Llongyfarchiadau i'r tair am eu hymrwymiad ac ar lwyddo i gyrraedd safon addysg uwch yn llwyddiannus.

Llongyfarchiadau i nifer o fyfyrwyr Blwyddyn 13 ar lwyddo mewn modylau amrywiol mewn partneriaeth â Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Yn ystod tymor yr haf, mynychodd y myfyrwyr ddarlithoedd a thiwtorialau ar fodylau yn amrywio o Fandarin, Sgiliau Academaidd i Gynaliadwyedd.

Fel rhan o Gynllun Ysgolion S4C ar y cyd â'r Cynulliad Cenedlaethol, dewiswyd Ysgol Bro Pedr fel un o wyth ysgol trwy Gymru i fod yn rhan o'r cynllun arloesol hwn. Ar ddydd Iau, Hydref 24ain, ymwelodd swyddogion S4C â'r ysgol i gynnal trafodaethau ffurfiol gyda disgyblion Chweched Dosbarth yr ysgol. Yna cafodd Sian Elin Williams, Christopher Barker, Owain Davies, Sioned Fflur Evans, Gethin Morgan a Sulwen Richards eu dewis i gynrychioli'r ysgol wrth iddynt ymweld ag amrywiaeth o ganolfannau yng Nghaerdydd, gan gynnwys Siambr Hywel o'r Cynulliad. Cafwyd cyfle i gwrdd ag aelodau'r Cynulliad megis Ms Elin Jones AC a Mr Simon Thomas AC, ac yn y prynhawn, ymwelwyd â Chyfarfod Llawn o'r Cynulliad gan weld Aelodau'r Cynulliad yn trin a thrafod cwestiynau o faes iechyd. Dyma'n sicr brofiad gwerthfawr a bythgofiadwy i'r holl fyfyrwyr.

Llongyfarchiadau gwresog i dîm siarad cyhoeddus cyfrwng Cymraeg yr Ysgol a gipiodd y 3ydd safle yn Rownd Derfynol Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari ar gyfer de Cymru. Yn dilyn rownd rhanbarthol y de-orllewin, dewiswyd Ysgol Bro Pedr fel un o bump tîm i fynd ymlaen i'r rownd

derfynol a gynhaliwyd yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd, ddydd Llun, Tachwedd 25ain. Yn dilyn dadlau brwd gan y tîm ar y testun, 'Cred y



Llongyfarchiadau mawr i Edward Bransden, Blwyddyn 13, a ddaeth yn ail agos yng nghystadleuaeth Myfyriwr y Flwyddyn 2013 yng nghystadleuaeth yr EESW. Derbyniodd Edward yr anrhydedd mewn cinio yng ngwesty moethus y Vale ar gyrion Caerdydd yn ddiweddar. Enillydd y gystadleuaeth eleni oedd Jonathan Pont o Ysgol Cyfarthfa a weithiodd gydag Asiantaeth Priffyrdd Merthyr, a daeth Edward Bransden o Ysgol Bro Pedr, a weithiodd gyda Dragon Machinery, a Jonathan Burton o'r Eglwys Newydd, a weithiodd gyda Dŵr Cymru, yn agos at y brig. Diolch yn fawr iawn i Mr Roland Griffiths a'r Adran Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Bro Pedr am baratoi timoedd ar gyfer y cystadlaethau EESW dros y blynnyddoedd a galluogi Edward Bransden i lwyddo mor arbennig yn y gystadleuaeth yma eleni a hyd yn oed ennill gliniadur!

Ysgol Bro Pedr



Llongyfarchiadau i dri o ddisgyblion Ysgol Bro Pedr, Gwydion Kavanagh o flwyddyn 9; Christopher Barker o flwyddyn 12 a Francis Webb o flwyddyn 9 ar eu llwyddiannau yn ystod cystadleuaeth cleddyfaeth yn Ngerddi Sophia Caerdydd dros benwythnos Ionawr yr 19eg. Daeth tîm Gwydion a Francis yn gyntaf yn y gystadleuaeth categori iau, ac enillodd Gwydion y fedal arian a Francis y fedal efydd yn ystod y cystadlaethau unigol. Enillodd tîm Christopher y 3ydd safle yng nghystadleuaeth categori hŷn.

tŷ hwn mai iaith i hen bobl yw'r Gymraeg a bod dim dyfodol i'w pharhad', dyfarnwyd bod tîm Ysgol Bro Pedr sef Gwawr Hatcher (Cadeirydd), Gethin Morgan (Cynigydd) a Sian Elin Williams (Gwrthwynebydd) yn haeddu'r drydedd wobwr o blith 7 ysgol arall a chafodd Sian Elin ganmoliaeth uchel fel gwrthwynebydd gan y beirniaid. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i Carys Jones 12D ar gael ei dewis o blith ceisiadau trwy Gymru gyfan i deithio i Batagonia Hydref nesaf gydag Urdd Gobaith Cymru. Pob hwyl i ti gyda'r ymdrechion codi arian dros y misoedd nesaf.

Sialens Fathemateg Hŷn y D.U. Bu tua 20 o ddisgyblion blwyddyn 12/13 ac un o flwyddyn 11 yn cymryd rhan yn Sialens Fathemateg Hŷn y D.U. ar Dachwedd 7fed. Enillodd Benedict Webb, bl. 13 y wobwr Aur, Chris Barker bl. 12 y wobwr Arian a Finn Humphrey, Richard Davies a Edward Bransden bl. 13 y wobwr Efydd.

Y mae nifer o ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 wedi ymgymryd mewn gweithgaredd lle buont yn dysgu sut i ysgrifennu rhaglenni cyfrifiadurol. Gweithgaredd rhyngwladol yw hwn a bu dros 12 miliwn o bobl ifanc yn rhan o'r digwyddiad a drefnwyd gan Code.org.



Ar ddydd Gwener, Hydref 25ain bu criw o ddisgyblion a phedwar aelod staff ar daith unwaith mewn bywyd yr Adran Ddaeryddiaeth i Wlad yr Iâ. Gwelwyd amrywiaeth o atyniadau gan gynnwys tirnod Perlan yn Reykjavik; adeilad y dyfodol a grëwyd o danciau crwn sy'n dal cronfa ddŵr cynnes naturiol wrth gefn y ddinas, Canolfan Geothermol Hveragerði, llosgfynydd Eyjafjallajökull a rhaeadrau anhygoel Seljalandsfoss a Skogafoss. Cafodd pawb daith anhygoel a diolch i'r staff am eu gwaith caled yn trefnu.

Cynghrair Llanwenog

Ar nos Sadwrn cyntaf Rhagfyr roedd Tafarn Cefn Hafod, Gorsgoch yn llawn wrth i nifer o drigolion Plwyf Ward Llanwenog ddod yno i weld ceiliogod yn rasio. Ni chlywyd yr un aderyn yn clochdar ond roedd pawb yno yn uchel eu cloch yn mwynhau eu hunain yn gwyllo'r rاسy a bwyta cawl blasus ond roedd yn rheswm arall hefyd i'r noson, sef lansio calendr arbennig ar gyfer 2014.

Tua dwy flynedd yn ôl yn dilyn cyfarfod llawn yn Nrefach Llanwenog a drefnwyd gan Gynghrair Cymunedau Cymdeithas yr Iaith aethpwyd ati i sefydlu gweithgor i edrych ar anghenion y Ward, a sut i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymdogaeth.

Ymysg nifer o awgrymiadau roedd yr angen i hyrwyddo busnesau lleol ac i ofalu fod cymaint â phosibl yn ymwybodol o'r gwasanaeth sydd ar gael o fewn y plwyf gan gwmpasu ar yr un pryd y syniad o hyrwyddo'r Gymraeg.

Awgrymwyd creu calendr gyda hysbyseb am ddim i bob busnes yn y Ward. Gyda chefnogaeth y Pwerdai sydd yn rhan o Cered fe fu trafodaethau i geisio cael grant drwy y Cyngor Sir. Yn anffodus ni ddaeth hynny i fwcl ond ni rhoddwyd y ffidl yn y to. Yn hytrach aethpwyd ati i chwilio am ffyrdd eraill o gyrraedd y nod. Wrth lwc cafwyd cymorth ariannol gan y ddau Gyngor Cymuned, sef Cyngor Cymuned Llanwnnen a Chyngor Cymuned Llanwenog. Er nad oedd y cymorth hwnnw'n ddigonol i dalu am y cost argraffu eto aethpwyd ati i ychwanegu at y gronfa fel bod y calendr ar gael yn rhad ac am ddim i drigolion y plwyf. Bu rhai o aelodau'r Gweithgor yn cysylltu'n wirfoddol gyda phob un busnes, ac o ganlyniad mae tua 60 o fusnesau wedi'u cynnwys ar y calendr. Bydd y gweithgor yn ceisio sicrhau bod dosbarthiad mor eang â phosibl i'r calendr o fewn y Ward.

Cynlluniwyd y Calendr gan ddau o drigolion y Ward sef Enfys Hatcher a Steffan Huw Davies. Er eu bod nhw nawr yn byw y tu fas i'r Ward eto mae ganddyn nhw wreiddiau teuluol dwfn iawn ac maent yn dal yn weithgar yn y Ward.

Cadeirydd y Gynghrair – Nans Davies

Ysgrifennydd y Gynghrair – Enfys Hatcher



O'r Cynghorau Bro



CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 13 Ionawr 2014 am 8.00yh.

Cadeirydd: Tom E Bowen; Clerc: Eirlys Owen; Gohebydd y wasg: Dewi Davies.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd gwybodaeth ddiddorol am sesiwn blasu cyfieithu i aelodau'r cyngor gan Peredur Emlyn o gwmni Trywydd. Mae i'w gynnal yn swyddfa Trywydd, Caerfyrddin ar 19 Chwefror 2014 o 6-9yh.

Y CAE CHWARAE - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones a Eric Davies. Penderfynwyd gohirio rhoi'r postyn newydd i'r fynedfa yn ei le tan y gwanwyn.

Penderfynwyd bod y Clerc ac Eric Davies yn ymweld a pharciau chwarae cyfagos i weld adnoddau cyn y cyfarfod nesaf.

GWEFAN LLANLLWNI - Adroddwyd bod y gwaith o ddatblygu'r wefan yn symud yn ei flaen.

RHEOLAU SEFYDLOG - Bwriedid adolygu rheolau sefydlog y Cyngor Bro.

LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU - Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr bod y Clerc yn trefnu dyddiad i gael cyfarfod ger yr ysgol, ac yn gwahodd Mathew Howells o'r Cyngor Sir i gyfarfod mis Mawrth.

FFERM WYNT BRYN LLYWELYN - Disgwylir dyfarniad yr arolygydd ddiwedd y mis.

CINIO BLYNYDDOL - Cynhelir y ginio 7 Chwefror 2014 yn y Talardd.

LLWYBR CERDDED - Yn dilyn y cyfarfod ar 21 Tachwedd 2013 gyda'r Cyngor Sir daeth yn amlwg nad oeddent yn ymwybodol bod llwybr cerdded i'w gael yn y lleoliad ger Bryndulais; yr oeddent yn bwriadu nodi hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 10 Mawrth 2014 am 8yh.

Capel Bethel Parcyrhos

Ein gŵr gwadd yng Nghymdeithas Bethel fis Rhagfyr oedd Mr Rob Phillips, Llanbed. Mae Rob yn gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ond mae ganddo ddiddordebau eang, yn cynnwys bod yn Gynghorydd lleol, yn gyfarwyddwr a rheolwr trenau i Rheilffordd Gwili ac yn ysgrifennydd Côr Meibion Cwmann. Brodor o Drelewis, ardal y cymoedd yw Rob, wedi dysgu Cymraeg ac wedi graddio yn Mhrifysgol Dewi Sant. Bu'n sôn am ei waith ymchwil ar gyfer ei radd uwch, MPhil, sef astudiaeth ar effaith yn sir Gaerfyrddin o'r holl fechgyn aeth i ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a sut oedd y tribiwnlysoedd yn penderfynu pwy oedd i fynd i'r rhyfel. Soniodd hefyd am ei waith diweddaraf yn gweithio fel tîm ar gyfer archif ddigidol newydd o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol ac addysgiadol gan yr Athro David Thorne cyn fod pawb yn mwynhau te wedi'i baratoi gan Glesni a Rosemary.

Pan mae Cristnogaeth dan fygythiad ar draws y byd, pleser oedd bod yn bresennol ym Methel i oedfa Nadolig y Teulu dan ofal aelodau ieuanc a phlant y capel. Prif nod y Nadolig yw cofio geni Iesu, a thrwy gofio ymweliad y doethion gyda'u anrhegion o aur, thus a myr dyma blant Bethel yn cofio am blant gwlad Syria drwy ddanfôn y casgliad o £105 iddynt drwy Cymorth Cristnogol. Diolch am gyfraniad unigol y plant a phawb arall tuag at oedfa fywiog a bendithiol ac edrychwn ymlaen yn hyderus i 2014 fel gwnaeth ein cyndeidiau yn 1840. Ar ôl yr oedfa cafwyd ymweliad gan Siôn Corn cyn bod pawb yn ymuno i gael te parti wedi'i baratoi gan y merched. Diolch i Elin a Ann am y trefniadau.

Bore Nadolig daeth llawer o deuluoedd yr Eglwys i oedfa gymun dan lywyddiaeth ein gweinidog gyda Glesni wrth yr organ. Braf oedd gweld llawer o blant yn bresennol. Cymerwyd rhan gan aelodau ifanc a hŷn, gan gynnwys adroddiad pwrpasol gan Elin. Roedd yn ddechrau ardderchog i'r dydd arbennig hwn.

Y siarad mawr y dyddiau yma yw bod eisiau edrych tu allan i'r bocs. Wel, diolch i weledigaeth Cymdeithas Bethel wrth edrych tu fewn i'r bocs, cawsom y pleser a boddhad mawr yn Ionawr wrth wrando a'r bedair o'n haelodau amryddawn yn rhoi hanes eu bywydau. Cafodd ein llywydd Cyril, orchwyl bleserus i'w cyflwyno a diolch iddynt am rannu'u profiadau yn myd addysg a ffordd o gyfathrebu gyda phlant. Y pedair ohonynt yn cydnabod yn ddiolchgar eu magwraeth Gristnogol a rhan yr

ysgol Sul a chapel yn eu bywyd. Diolch i Ann Herbert, Carys Davies, Carys Lewis ac Elin Jones am oleuo ac ysbrydoli ein bywydau yn y ganrif hon. Gwerthfawrogwyd yn fawr y te blasus gan Eira a Gwen. Noson i'w chofio.

Dyweddïo

Dymuniadau gorau i Carwyn Gregson a Lowri Wilson o Lanybydder ar eu dyweddïad. Pob lwc i chi i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna Craig Randall, Maes yr Hendre ddiolch am y galwadau ffôn, cardiau a phawb a ymwelodd ag ef yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref.

Baban Newydd

Ar ddydd Calan ganwyd mab i Fiona a Paul Jones, Llysteifi. Brawd bach i Harri a Jac. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Symud

Mae Mrs Gwyneth Havard, 6 Cwrt Deri wedi symud i farterf preswyl Cwmaur, a Mrs Marian Evans, Bronallt i gartref Maesllywelyn, Castell Newydd Emlyn. Pob hapusrwydd i chi eich dwy.

Profedigaeth

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Mrs Jean Thomas, 4 Cwrt Deri a fu farw mis Rhagfyr ac unrhyw deulu arall sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Ar ddiwedd mis Ionawr yng Nghartref Maesyfelin, Drefach bu farw Evan David Davies, Bryndulais, Cae Coedmor. Cydymdeimlir yn ddwys â'i briod Delyth, y plant Eirioes a Dylan, yr wyrion a'i chwiorydd oll yn eu galar.

Ysbyty

Da deall fod Wil Williams, 3 Cwrt Deri gartref o'r ysbyty ac yn teimlo'n well, a gwellhad buan i bawb sydd wedi bod yn anhwylyd yn ystod y deufis diwethaf.

Cerdd

Llongyfarchiadau i Beca Jones, Awel-y-grug ar basio Gradd 3 ar y clarinet. Da iawn a dal ati!

Eglwys Sant Iago

Roedd Eglwys Sant Iago yn llawn ar nos Sul, 8fed Rhagfyr pryd y cynhaliwyd y cyngerdd Nadolig blynyddol. Croesawyd pawb gan y ficer a diolchodd iddynt am ddod i gefnogi'r noson a chodi arian at Alzheimers a'r eglwys.

Cyflwynodd y ficer llywydd y nos sef Mr Colin Lewis o Gaerdydd, ond yn enedigol o Gwmann. Braf oedd ei groesawu yn ôl i'r eglwys fach lle bu yn aelod ffyddlon, a'r ysgol Sul yn Sant Iago, ac yn chwarae'r organ yn y gwasanaethau. Cafwyd neges

bwrpasol ganddo am ei atgofion yn eglwys Sant Iago. Hyfryd oedd gweld mam Colin sef Mrs Mag Lewis yn bresennol yn ogystal â Leanne a Nathan.

Roedd naws Nadoligaidd bendithiol yn yr eglwys trwy gydol y noson a'r eglwys wedi'i haddurno yn dymhorol iawn.

Cawsom ein diddanu gan Gôr Clychau'r Fedwen dan arweiniad medrus Canon Aled Williams, a'i rhaglen yn dymhorol a graenus wrth iddynt ganu carolau hen a newydd. Bu cyfle hefyd i wrando ar lais bendigedig Canol Aled Williams yn canu dwy unawd.

Daeth cyfle i'r gynulleidfa ymuno yn y noson a chanu carolau rhwng yr eitemau unigol.

Cawsom ein gwefreiddio gyda'r eitemau ar y telynu dan arweiniad dawnus a medrus Mrs Georgina Cornock-Evans a dwy o'i disgyblion sef Mari Lewis ac Ella Evans. Roedd gweld a chlywed y dair telyn brydferth yn yr eglwys yn creu naws arbennig o fendithiol a swynol, a braf yw rhoi cyfle i artistiaid ieuanc.

Cawsom adroddiadau Nadoligaidd gan Sian Elin, Mair Richards a Fenella Strange. Yr organyddes oedd Ceinwen Evans.

Diolchodd y ficer i'r artistiaid ac i bawb am eu presenoldeb, yn enwedig a Mr Colin Lewis a'i deulu ac am ei haelioni at elw y noson.

Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol a gwnaed elw sylweddol at yr achos.

Bu cymdeithasu hefyd ar ôl y gyngerdd, gyda chyfle i fwynhau cwpanaid o de. Diolch i'r gwragedd a fu yn paratoi'r bwyd ac yn addurno'r eglwys ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant y noson.

Ar nos Sul, Rhagfyr 22ain cynhaliwyd gwasanaeth o lithiau a charolau yn Eglwys Sant Iago dan arweiniad yr Archddiacon Dr William Strange, gydag aelodau yn cymryd rhan yn y darlleniadau.

Gwnaed y gweddïau gan Pat Jones. Yn ystod y gwasanaeth cawsom wrando ar dâp gan gôr yr Eglwys Gadeiriol yn Nhŷ Ddewi – crëwyd naws hyfryd, tawel a bendithiol wrth wrando ar leisau swynol Côr y Gadeirlan yn canu.

Wrth yr organ oedd Ceinwen Evans yn ein harwain gyda'i dawn gerddorol – ac yn creu awyrgylch bendigedig.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

Mis Rhagfyr

1. Wayne Evans, Annwylfan, Llanllwni, 82. 2. David Herbert, Dolfor, Cwmann, 84. 3. Jenny Bracher, Glyndu, Cwmann, 99. 4. Bernard Hawdy, Cwrt Deri, Cwmann, 69. 5. Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni, 21. 6. Elgan Jones, Cilgell isaf, Cwmann, 77. 7.

Rhian Harries, Llain Delyn, Cellan, 117. 8. Yvonne Davies, Cwmbrwyn, Pencader, 123. 9. Aled Williams, Sarn Helen, Cwmann, 26.

Mis Ionawr

1. Eva Brown, Ty Helyg, Cae Ram, Cwmann, 37. 2. Rhian Evans, Llys y Coed, Cwmann, 49. 3. Ann Lewis, Hillside, Cwmann, 86. 4. Jean Davies, 2 Heol-y-Maes, Pencarreg, 58. 5. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 36. 6. Womans Work Shop, Cwmann, 112. 7. Tony Hall, Glanaber, Cwmann, 75. 8. Angharad Price, Brynderi, Cwmann 33. 9. Sandra Lewis, Llety Gwyn, Llangybi 148.

Clwb 225

Mis Tachwedd

1. Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 169. 2. Jason Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 22. 3. Eleri Thomas, 12 Treherbert, Cwmann, 200. 4. Tommy Price, Gelliwrol, Cwmann, 25. 5. Maureen Evans, Brynmaen, Cwmann 49. 6. Cyril Davies, Brynteg, Forest Rd, Llambled, 69. 7. James a Rhian Thomas, d/o Steffan Vets, Llambled, 7. 8. Tegwen Morris, d/o Brynhathren, Cwmann, 53. 9. Fiona Jones, Llysteifi, Cwmann, 121. 10. Mr & Mrs Gareth Russell, Bryncelyn, Cwmann.

Mis Rhagfyr

1. Alun Williams, Crown Stores, 95. 2. Gwynfil Griffiths, Brynhathren, Cwmann, 185. 3. Gareth Jones, Troisant, Cwmann, 177. 4. Jeff Evans, Llysycoed, Cwmann, 63. 5. Aled Williams, Sarn Helen, 40. 6. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 163. 7. Eirios Jones, Felindre, Cwmann, 212. 8. Ifan a Lois Williams, Fronallt, Llangadog, 60. 9. Mr & Mrs Andrew Jones, Glanhathren, Cwmann, 193. 10. Joanna Morgan, Llys Penparc, Cwmann, 148.

Mis Ionawr

1. Jason Davies, d/o 13 Heol Hathren, Cwmann, 22. 2. Rhonwen Thomas, Pantygwin, Cwmann, 139. 3. Rody Rees, Ogwen, Bryn Rd, Llambled, 231. 4. Chris & Diane Spittal, Pantybyr, 172. 5. Owain a Bethan Jones, Trewerin, Cwmann, 85. 6. Veronica James, Caeralaw, Cwmann, 78. 7. Simon Jones, d/o 18 Heol Hathren, Cwmann. 8. Dave a Dilys Mildon, Gannetts Bistro, Aberystwyth, 209. 9. Gareth Jones, Cilerwisg, Creuddyn Bridge, 30. 10. Mr & Mrs Evans, Hafdre, Cwmann, 96.

Sefydliad y Merched, Coedmor

Cynhaliwyd cyfarfod nos Lun 2il o Rhagfyr yn y gegin gyda Gareth yn Goedwig. Croesawodd ni i'r gegin a oedd wedi ei addurno'n hardd ar

YSWIRIANT FUW
Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda
Carys Davies 07890 883346
neu
Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW**,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan
Awdurdod y Gwasanaethau Aelodol, yng nghyfraith Cymru a Lloegr, 2014.
o dan Rhif Cofrestru 305035

Gwersi Gitar:

Hafod Wen, Pwllswyddog,
Tregaron, SY25 6JG.

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod
☎ 01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd a
pheiriannau cynysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llambod Pont Steffan
01570 423156

Cwmann

gyfer y Nadolig. Ar ôl blasu diod
o flodau'r ysgawen aeth ymlaen
i goginio pate, caws mins peis
arbennig, pice pei porc gyda salad
reis ac i orffen torte y Goedwig.
Aethom i fyny i'r ystafell fwyta a
chael pryd ardderchog. Diolchodd
Brenda i Gareth ar ffurf penillion
addas a chelfydd iawn. Yn dilyn
hynny, bu cyfarfod busnes byr
gyda'n llywydd Gwen Jones yn
longyfarch Elma Phillips ar ddod yn
fam-gu unwaith eto, i Tomos Iolo.

Ar ddechrau blwyddyn arall,
dymunodd y llywydd Gwen Jones
flwyddyn newydd dda i'r aelodau.
Wedi prysurdeb a chynnwrf y
Nadolig, beth sy'n well nac edrych
ymlaen at raglen amrywiol a
bywiog am y flwyddyn i ddod.
Croesawodd Gwen ein gŵr gwadd
ar gyfer y noson, sef Huw Davies o
Lanymddyfri, sy'n Ysgol Feistr yn
ysgol gynradd Llanwrda. Roedd e
wedi dod â'i gasgliad o hen bethau,
rhai ohonynt yn cael ei defnyddio
yn oes Victoria. Rhoddodd dasg
i'r aelodau i ddyfalu beth oeddent,
a chafwyd tipyn o hwyl. Y tîm
buddugol oedd yr un yn cynnwys
Morfudd, Noleen a Joyce. Diolchodd
Morfudd i Huw am ddod â'i gasgliad
a chynnal noson mor ddiddorol.
Enillydd y raffl oedd Huw Davies.



Clwb Clonc

Chwefror 2014

£25 rhif 458 :
Mrs Heledd Tomos,
Lluest, Llanfihangel-ar-Arth.

£20 rhif 478 :
Mrs Rowena Williams,
Maeslyn, Llangybi.

£15 rhif 353 :
Mrs Sulwen Lloyd,
Ucheldir, Cwrtnewydd.

£10 rhif 361 :
Dorian Morgan,
77 Heol-y-Bont, Llambod.

£10 rhif 347 :
Rhiannon Lewis,
Pencrug, Cwmann.

£10 rhif 372 :
Huw Morgan,
Rhyd-y-felin, Drefach.

O'r Cynulliad gan Elin Jones



Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn newydd,
bydd cyflwr ein gwasanaeth iechyd yn sicr yn bwnc fydd yn hawlio
penawdau yn 2014. Mae pryderon yn tyfu am benderfyniadau Bwrdd
Iechyd Hywel Dda. Heb os, diffyg arian sydd wrth wraidd llawer o'r
problemau, ond mae'r modd y mae'r gwasanaeth yn ein ardal yn cael
ei reoli hefyd yn destun gofid.

Yn Rhagfyr, wrth gwrs, daeth y newyddion gwarthus fod gwelyau
yn Ysbyty Aberteifi yn cau. Ddaeth hyn yn dilyn misoedd o gwtogi ar
y gwasanaeth bob yn dipyn a thorri nôl ar staff, a oedd yn ddigalon
i bawb. Mae angen clir am ysbyty cymunedol yn Aberteifi, sy'n
gwasanaethu godre Ceredigion, ardal y Preseli a dyffryn Teifi.
Gobeithio gallwn glymu'r Bwrdd Iechyd i amserlen pendant ar gyfer
yr ysbyty newydd. Hefyd mae pryderon parhaus am wasanaethau ym
Mronglais. Eto, rhaid i'r Bwrdd Iechyd adfer ffydd y cyhoedd; maent
wedi torri gormod o addewidion am wasanaethau yn ein hardal.

Rhaid, wrth gwrs, ymladd dros y gwasanaethau yma. Ond hefyd
rhaid edrych i'r tymor hir, a daeth llygedyn o newyddion da yr
wythnos cyn y Nadolig. Fis Tachwedd, arweiniais grŵp o feddygon
uchel eu parch o ar draws y canolbarth i gwrdd â'r Gweinidog Iechyd.
Nawr, daeth cadarnhad fod y Gweinidog wedi gwrandao, a'i fod
am gomisiynu ymchwil annibynnol fydd yn edrych yn benodol ar
sialensau i'r Gwasanaeth Iechyd yn yr ardal wledig eang sy'n gorwedd
rhwyng coridorau'r M4 a'r A55. Dyma gydnabyddiaeth fod anghenion
yr ardal hon, gan gynnwys Bronglais, ysbytai cymunedol, meddygon
teulu a gwasanaethau cymdeithasol, yn unigryw. Mae angen meddwl
yn flaengar am y sialensau, gan ddefnyddio tele-feddygaeth a
thechnoleg fodern i sicrhau fod gan bobl wasanaethau yn agos i'w
cartrefi.

Pwnc arall fydd yn parhau i gael sylw yn 2014 fydd pris ynni. Mae
pleidiau San Steffan wedi cyhoeddi polisiau fydd yn lliniaru rhywfaint
ar y cynnydd diweddar yng nghost trydan a gwresogi'n cartrefi. Ond
o weld y manylion, tydyn nhw ddim fel petaent yn ystyried fod y
rhan fwy o gartrefi mewn ardal fel Ceredigion ddim yn gallu derbyn
nwy trwy bibell. Mae peryg na fyddwn ni'n gallu elwa o'r cynlluniau
i reoli prisiau, gan mai'r fargen rhataf gan y rhan fwyaf o gwmnïau
yw'r contractau 'deuol' nwy a thrydan. Rwy'n benderfynol o sicrhau
fod anghenion ein bröydd ni yn cael eu clywed.

Fel y soniais mis diwethaf, doedd hi ddim yn anodd rhagweld y
byddai ein Gwasanaeth Iechyd yn hoelio llawer o sylw yn ystod
2014. Roeddwn yn flin iawn pan gyhoeddodd y Gweinidog y byddai
sefyllfa'r uned famolaeth yn Ysbyty Bronglais yn cael ei adolygu
unwaith eto.

Does dim sicrwydd ar beth fydd y cynllun eto. Dywedodd y
Gweinidog na fyddai unrhyw newid tan ar ôl yr adroddiad ar ddyfodol
gwasanaethau yn y canolbarth, ac ar ôl gwelliannau yn y drefn o gludo
cleifion mewn argyfwng. Ond mae'n glir mai canoli gwasanaethau
yng Nghaerfyrddin fyddai delfryd y Bwrdd Iechyd. Mae'n rhwystredig
gorfod ymladd yr un brwydrau yn barhaus, ond mae gwasanaeth
mamolaeth Bronglais mor bwysig i bobl canolbarth Cymru nes mai
ymladd sydd raid. Rhaid hefyd edrych tua'r dyfodol ac roeddwn yn
falch o lansio cynllun newydd y Blaid fydd yn anelu at recriwtio 1000
o ddoctoriaid newydd i'n Gwasanaeth Iechyd.

Ansicr yw dyfodol cynlluniau Ysbyty Aberteifi hefyd. Mewn
cyfarfod diweddar gyda phrif swyddogion Bwrdd Hywel Dda, ches
i ddim sicrwydd y byddai ysbyty newydd, sy'n cynnwys yr holl
wasanaethau mae pobl yr ardal yn ei ddisgwyl, yn cael ei adeiladu'n
gyflym. Rwy'n gobeithio cwrdd yn uniongyrchol â'r Gweinidog ar y
mater hwn yn fuan, ac mae'r ddeiseb anferth a drefnwyd gan y Cyngor
Tref a Chyfeillion yr Ysbyty yn dyst i deimladau cryfion trigolion yr
ardal.

Mae'r ymateb a fu i'r stormydd a darodd ein arfordir ar ddechrau'r
flwyddyn hefyd yn adlewyrchiad cryf o ymdeimlad o gymuned.
Yn ogystal â gwaith caled y gwasanaethau brys, staff y cyngor ac
asiantaethau eraill, daeth pobl at ei gilydd yn wych i roi lloches i bobl,
codi arian i helpu pobl a ddioddefodd o'r llyfogydd yn Aberteifi, a
chlirio tywod a difrod yn Aberystwyth, Borth a Llangrannog.

Daeth dwy eitem o newyddion da y mis yma hefyd. Wedi
ansicrwydd hir, gwrandawodd y Gweinidog Treftadaeth ar yr hyn yr
oeddwn i ac eraill wedi bod yn ei ddweud ers misoedd, a diogelwyd
dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sy'n cyflogi 50 o
staff ym Mhlas-Crug. Hefyd, adroddodd pwyllgor ar ei syniadau am
greu Parth Datblygu Lleol yn nyffryn Teifi. Mae potensial i'r cynllun
roi hwb gwirioneddol i fusnesau bach lleol, ac edrychaf ymlaen at y
Llywodraeth yn rhoi hyn ar waith yn fuan.



Ysgol Gymraeg Aberystwyth,
Rhodfa Plasrug,
Aberystwyth,
SY23 1HL

Annwyl Ddarllenwyr,

Fe fydd Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed ar fis Medi'r 25ain 2014 ac rydym yn bwriadu cyhoeddi llyfr i nodi'r garreg filltir bwysig hon.

I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu darllenwyr o'ch plith a fu yn yr ysgol i anfon eu hatgofion, eu storïau a'u lluniau atom.

Fe allwch anfon eich cyfraniadau trwy'r post i'r cyfeiriad uchod, neu drwy e-bost at y pennaeth Clive Williams i'r cyfeiriad swyddfa@ysgolgyymraeg.ceredigion.sch.uk neu at olygydd y llyfr meleriwynjames@googlemail.com

Fe hoffwn dderbyn y cyfraniadau erbyn mis Mawrth y 31ain, 2014.

Yn gywir,
Clive Williams,
Meleri Wyn James

Annwyl Gyfeillion

**DIWRNOD SHWMAE SUMAE,
Hydref 15ed 2014**

Blwyddyn Newydd Dda. Yn gyntaf DIOLCH YN FAWR i bawb weithiodd mor galed i ddathlu'r Gymraeg yn 2013, roedd llwyddiant y Diwrnod Shwmae Su'mae cyntaf erioed wedi ysbrydoli unigolion yn hen ac ifanc mewn cymunedau ar draws Gymru gyfan.

Lansiwyd y diwrnod am y tro cyntaf llynedd, cofrestrwyd tua 120 o weithgareddau. Gwnaethpwyd fideo yn Sir Benfro, fflachmobiodd myfyrwyr a dysgwyr Aberystwyth; cynhaliwyd bore coffi mewn sawl cymuned a chynhaliodd sawl ysgol di-Gymraeg diwrnod i ddathlu a hybu'r iaith. Roedd gweithgaredd facebook a twitter wedi llwyddo i ledaenu'r neges mor bell â'r Wladfa, cyrhaeddodd yr hashnod #Shwmaesumae tua 700,000 cyfrif ar y diwrnod, sy'n dipyn o gamp! Mae hyn i gyd wedi gosod cysail da ar gyfer y dyfodol.

Felly beth am wneud yr un peth eleni eto a chofio annog pobl a chymdeithasau eraill yn eich bro/trefi/pentrefi i ymuno yn y dathlu. Gallwn ni lwyddo i ledaenu'r neges bod y Gymraeg i bawb ac annog cyfranogiad gan bawb, beth bynnag yw eu gafael ar yr iaith.

Ymgyrch o'r gwraidd yw hon, ymgyrch bositif i hyrwyddo yr iaith, ac yn bennaf oll ymgyrch gynhwysol i ddod â Chymry rhugl eu Cymraeg, dysgwyr a Chymry sy'n ystyried eu Cymraeg yn "dalcen slip" at ei gilydd. Mae'r modd y cydiodd y diwrnod yn nychymyg pobl wedi profi maint yr awch a'r ewyllys da sydd gan gymunedau Cymru tuag at yr iaith, a'r hyn sy'n rhyfeddol yw nad oedd unrhyw nawdd yn gyrru'r ymgyrch, dim ond eich brwdfrydedd a'ch creadigrwydd CHI!

Cofiwch gysylltu gydag unrhyw newyddion am eich cynlluniau er mwyn inni rhoi sylw priodol iddynt a chadw cofnod o beth sy'n digwydd ble. Cadwch lygad ar ein tudalen facebook, twitter (@ShwmaeSumae) a gwefan www.shwmae.org

Yn gywir iawn,

Gaynor Jones

Cyd-lynydd Diwrnod Shwmae Sumae

Annwyl Olygydd

Parêd Gŵyl Dewi Aberystwyth

Mae'n siŵr i nifer o'ch darllenwyr fod yn rhan o Barêd Gŵyl Dewi Aberystwyth y llynedd. Yn sgil llwyddiant y parêd cyntaf hwnnw penderfynwyd y bydd hwn yn ddigwyddiad blynyddol.

Mae Parêd eleni yn addo bod yn un cyffrous. Arweinir y Parêd gan y pibydd ifanc Gwilym Bowen Rhys, bydd y Plebs - band gwerin o ardal Merthyr Tudful yn chwarae, bydd Côr Meibion Aberystwyth yn canu, a Band Pres Aberystwyth yn ychwanegu eu cyfoeth seiniol hwy i'r bwrwlwm. Ac yn ben ar y cyfan bydd yna glocswyr.

Gwilym a Megan Tudur yw'r tywyswyr gwadd eleni - a hynny mewn cydnabyddiaeth o'u cyfraniad i'r iaith a'r diwylliant Cymreig.

A gyda chefnogaeth y cyhoedd

bydd strydoedd Aberystwyth - am awr o leiaf - yn fôr o Gymreictod. Dewch felly, dewch â baneri eich mudiad neu gymdeithas, dewch â'r Ddraig Goch neu Faner Dewi Sant, ond yn bwysicach na dim dewch â'ch hunan a'ch teulu a'ch ffrindiau.

Byddwn yn ymgasglu wrth gloc y dre rhwng 12:30 a 12:45 ar ddydd Sadwrn Mawrth 1af, yna am 1 o'r gloch, cerdded i lawr y Stryd Fawr i Neuadd y Brenin ar Y Prom.

Ac nid yw'r miri yn gorffen yno. Bydd cyfle wedyn, ar ôl cinio efallai ym mwytaf un o'n noddwyr - Y Lle Arall, MG's neu Baravin - i'r teulu cyfan fynd i'r Llew Du yn Stryd y Bont erbyn 3pm, i fwynhau gig yn rhad ac am ddim gan Y Plebs.

Dewch felly i Aberystwyth, ar ddydd ein Nawdd Sant, i ni gyd-ddathlu ein balchder yn ein Cymreictod.

Yn gywir iawn,

Dana Edwards,

Ysgrifennydd Parêd Gŵyl Dewi Aberystwyth

Rhowch gynnig ar rywbeth newydd eleni

Mae gan Age Cymru Ceredigion rwydwaith cryf o wirfoddolwyr ac rydyn yn chwilio am bobl trugarog a thwymgalon i ymuno â'n tîm. Ar hyn o bryd, mae gennym y swyddi canlynol ar gael:

- * Cyngor a Gwybodaeth
- * Gofal Ewinedd Cymdeithasol
- * Cymorth Gweinyddol
- * Gwirfoddolwyr ar gyfer grwpiau cymdeithasol

* Cymorth Cymunedol
Cynhwysir hyfforddiant a chefnogaeth.

Mae gwirfoddoli gydag Age Cymru Ceredigion yn ffordd wych o gymryd rhan yn eich cymuned, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â phobl newydd.

Am fwy o wybodaeth, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni:

Sioned Lewis 01970 615 151 / 07772036200

Carol Williams 01545 570 055 / 07772 036319

Diolch yn fawr ym eich help.

Cofion Gorau, Sioned Lewis

CONTRACT MAES PARCIO'R EISTEDDFOD AR GAEL

Ydych chi'n aelod o grŵp neu glwb sy'n awyddus i godi arian drwy gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol?

Rydym yn chwilio am fudiadau gwirfoddol, cymunedol neu glybiau chwaraeon o bob math, a fyddai'n gallu darparu gwasanaeth stiwardio yn y meysydd parcio ar gyfer ceir a bysiau yn Eisteddfod Sir Gâr fis Awst eleni.


Stiwardiaid a rheolwyr y meysydd parcio yw cyswllt cyntaf yr Eisteddfod gydag ein hymwelwyr, ac mae'n bwysig ein bod yn cynnig gwasanaeth o safon wrth i bobl gyrraedd y Maes. Mae'n rhaid darparu gwasanaeth cwrtais, effeithiol a chyfeillgar, ac mae angen cynnig hyn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rydym yn gwahodd unrhyw sefydliad i ddatgan eu diddordeb yn y gwaith. Mae croeso i fudiadau a chlybiau gydweithio er mwyn cynnig gwasanaeth yn ystod yr wythnos, a dylid cynnwys unrhyw bartneriaethau fel rhan o'r cais. Rhaid i bob cais gynnwys manylion un rheolwr i'r prosiect. Mae modd i'r Eisteddfod gynnig hyd at £9,000 i'r cais llwyddiannus. Bydd y dogfennau i gyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, ynghyd â rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd angen ei gyflwyno fel rhan o'ch cais.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw 1 Ebrill, a dylid anfon eich ceisiadau at alwyn@eisteddfod.org.uk Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu cyn y dyddiad cau, drwy ffonio Alwyn Roberts ar 0845 4090 400.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr ar y Meysydd Gwyl, Parc Arfordirol y Mileniwm, Llanelli o 1-9 Awst eleni. Am ragor o wybodaeth ewch ar-lein - www.eisteddfod.org.uk

**Am ddarganfod
rhagor am wenyn?**



Sesiwn Blasu - 12 Ebrill, 2014

**Cwrs i Ddechreuwyr/Beginners Course — 5 Sesiwn
Yn dechrau ar 27 Ebrill, 2014**

Am ragor o wybodaeth neu i gofrestri i'w mynychu,

Cysylltwch â Gordon Lumby drwy ffonio 01570 480571

Drwy e-bost:- secretary@lampeterbeekeepersassociation.co.uk

www.lampeterbeekeepersassociation.co.uk



Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini newydd **Clwb Rygbi Llambed** yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach.



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Enw: Huw Evans
Oed: 31
Pentref: Llanllwni
Gwaith: Mecanic
Partner: Annwen (gwraig)
Teulu: Iestyn a Erin (plant)

Unrhyw hoff atgof plentyndod?
Fi a Wyn (brawd) ar y fferm gyda Jim Fronwen

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn?
Sam Tân

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn?
Bod yn gwrtais i bawb

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Dyn tân

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Wedi cael sut gymaint sai'n cofio pa un oedd y gwaethaf!

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Dal i aros ...

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gyda fy nheulu

Beth yw dy lisenw?
Plank!

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Gethin Jenkins (yn ôl Eilir Tandderi)

Pwy yw dy arwyr?
Peter Solberg

Beth yw dy arbenigedd?
Cynhyrchu wyau o safon uchel

Y peth gorau am yr ardal hon?
Gweld golygfa cefn gwlad bob dydd

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Y tywydd

Pa mor wyrdd wyt ti?
Rwy'n treial fy ngorau i fod yn wyrdd

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Yr hawl i hela cadnoid (gan eu bod nhw'n mynd â'n ieir i!)

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Person hunanol



Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Car newydd, yn bendant!

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Pan gafodd Iestyn ac Erin eu geni – profiad bythgofiadwy

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Ddim yn cofio – sai'n mynd yn grac yn hawdd iawn, dim ond pan mae rhywun rili wedi 'nghynhyrfu i!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Bod yn gyfoethog

Unrhyw ofergoelion?
Peidio cerdded o dan ysgol

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Pasio prawf gyrru lori

Ac yn bersonol?
Priodi Annwen

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Does dim pwynt dyfaru ac edrych nôl

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Treial fy ngorau bob tro

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd?
Pan gaeth Iestyn ei eni
Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hwyliog, cryf, siaradus

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Sai'n gwybod – does neb yn

ddigon dewr i ddweud wrtha'i!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Mazda 5

Beth yw dy hoff wisg?
Jîns, crys t a hoody

A'th hoff adeilad?
Stadiwm y mileniwm

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Annwen, wrth gwrs!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Indian

Beth yw dy ddiod arferol?
Magners

Beth yw cynnwys dy oergell di?
Cig

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Sun

Beth yw dy hoff arogl?
Arogl cig yn y ffwrn

Sut wyt ti'n ymlacio?
Gwyllo teledu

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Ebay a Facebook

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
Lot!

Hoff gân ar dy ipod?
Meatloaf

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?

Pobol y Cwm, Ralio, Clwb Kygbi

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?
Dim llawer

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Despicable Me 2

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Colli pwysau

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Y pen, fydden i ar goll hebddo fe!

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Pip (y ci) a gwaith papur yr yswiriant

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Arlunio

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Lucozade

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Meatloaf

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?
Na, sai'n credu fod e

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Ffermio neu gwaith saer

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?
Mam a dad

Y gwyliau gorau?
Kavos, Corfu

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Canada, Seland Newydd a Sweden

Arferion gwael?
Chwyrnu (yn ôl Annwen)

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Gweld y dyfodol

Petaet ti'n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?
Torri mewn i Banc

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Mynd i'r gawod

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Pwy a wŷr beth sy rownd y gornel

Llanbedr Pont Steffan



10 Ionawr: Cynhaliwyd Cinio'r Gymdeithas yn y Coleg. Croesawyd pawb gan Rhodri Evans a thraddodwyd y gras gan Aneurin Davies. Wedi'r cinio blasus cafwyd hwyl arbennig wrth wrando ar straeon y siaradwr gwadd, Derrick Davies Tynddraenen - yn ei ffordd ddihafal ei hun. Tynnwyd y Raffl a drefnwyd gan John Jones, Dolaugwyrddion. Yna cyhoeddwyd canlyniadau'r cystadlaethau. Gwair: 1af Dai Thomas Tanfforest; 2ail Iwan Uridge, Coedparc; 3ydd Eira Price, Gelliwrol. Byrnau Mawr: 1af Tommy Price, Gelliwrol; 2ail John a Dai Evans, Ynys; 3ydd Eirios Jones, Garthlwyd. Silwair Clamp: 1af Teulu Williams, Bayliau; 2ail Alan Bellamy, Hendy; 3ydd Denley Jenkins, Pantrodyn. Ffotograffiaeth: 1af Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge. Llongyfarchiadau i bawb. Cynigiwyd y diolchiadau gan Euros Davies. Cafwyd noson hwylus dros ben.

Mae'r grŵp wedi cael nosweithiau difyr ac addysgiadol iawn yn ystod tymor y gaeaf ac yn dal i gwrdd hyd at ddiwedd y mis. Dyma fraslun byr o'r digwyddiadau:

29 Hydref: Cafwyd noson yng ngofal cwmni Dragon Energy yn trafod Ynni Adnewyddol i'r Dyfodol. Cwmni a sefydlwyd yn gymharol ddiweddar yn ardal Llanelli ac sy'n cynnig prosiectau ynni gwynt, paneli solar ac ati. Cwmni brwdfrydig iawn ac yn sicr yn fater i'w ystyried ar gyfer y dyfodol. Diolch hefyd i'r cwmni am baratoi lluniaeth ar gyfer yr aelodau.

12 Tachwedd: Cwmni Agri Advisors o Henllan, Pumsaint oedd y gwsteion. Cwmni o Gyfreithwyr yn arbenigo mewn materion amaethyddol a sefydlwyd gan Dr Nerys Llewelyn Jones. Cafwyd noson fuddiol yn trafod materion o bwys ym myd amaeth. I brofi faint oedd pawb wedi'i ddysgu neu gofio (!) cafwyd cwis i ddiweddu'r noson.

26 Tachwedd: Noson yng nghwmni Arwel's Agri Services o Harford a gafwyd. Cwmni teuluol, lleol arall sy'n frwdfrydig iawn ar gyfer y dyfodol. Maent yn gwerthu tractorau McCormick a pheiriannau Storth, Quickie a Vicon a pheiriannau ail-law. Yn ogystal â gwerthu'r peiriannau maent hefyd yn cynnig gwasanaeth trwsio o safon.

10 Rhagfyr: Alison Jones o gwmni Dunbia oedd y siaradwraig wadd ar y testun Datblygiadau yn y Farchnad Adref ac yn America. Bu Alison ar daith o dan nawdd Hybu Cig Cymru i astudio sut oedd cig yn cael ei gynhyrchu a'i raddio yn yr Amerig ac yn Ffrainc a bu'n agoriad llygad i nifer am y safonau gwahanol sydd rhwng y gwledydd. Mae'n holl bwysig fod cynhyrchwyr cig oen yn cynnig beth sydd ei angen ar y farchnad er mwyn cael y mantais gorau ohono.

17 Rhagfyr: Roedd y cyfarfod yng ngofal Rhian Rees o Gwmni Agri-Lloyd ynghyd â'r siaradwr gwadd Charles Honey a bu'n egluro am Ychwanegydd H/M i Silwair. Bu'n noson fuddiol iawn. Daeth y ceisiadau i law hefyd am y gystadleuaeth gwair a silwair a diolch i Mr Honey am feirniadu'r gystadleuaeth.

7 Ionawr: Cafwyd noson agored arbennig i ddechrau'r flwyddyn newydd gyda Chwmni W. D. Lewis a'i Fab, Llanbed. Cwmni sy'n gefnogol iawn i'r Gymdeithas a chafwyd siaradwyr da iawn o gwmnïoedd Countrywide a Tracesure, ynghyd â nifer o gwmnïoedd eraill yn bresennol. Diolch hefyd i Gwynfor a Dafydd am drefnu raffl ac am y lluniaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod.

14 Ionawr: Anwen Hughes o Starlyne Feeds oedd yn gyfrifol am y cyfarfod hwn, gyda dau siaradwr - milfeddyg o Goleg Gelli Aur a chynrychiolydd o Gwmni Bwydydd Wessex a fu'n trafod bwydo maethlon i anifeiliaid. Diolch hefyd iddynt am y lluniaeth.

21 Ionawr: Y siaradwr gwadd oedd Kev Bevan SAC yn sôn am Ddyfodol y Fuches Sugno. Pleser oedd gwrando arno yn datgan ei weledigaeth am y dyfodol ac yn addysgiadol hefyd. Diolch am ei gyfraniad.

Mae llawer iawn o bobl ifanc yr ardal wedi bod yn westeion i'r grŵp yn ystod y tymor a braf iawn yw eu gweld yn mentro a llwyddo ym myd busnes ac yn cyflogi nifer o weithwyr lleol. Pob dymuniad da i chi gyd i'r dyfodol.



Clwb Cerdded

Clwb Rygbi Llanbed, dydd Sadwrn ar ôl Nadolig. Dyma drefnu taith gerdded gyda Dai Charles ac Eryl o'r clwb newydd ac fe arweinwyd gan Gerddwyr Llanbed. Daeth torf o hanner cant, o bob oedran. I fyny'r llwybr serth i Mount Pleasant, drwy'r coed ac ar draws y caeau. Wedyn llwybr gwyrd at y Gaer ar fryn Allt goch. Dyma oedd gwledd o Geredigion oddi hamgylch, gallem weld i fyny at Dregaron a Phumlumon a thre Llanbed a'r cyffiniau. Yr oedd pawb wedi mwynhau'r safle, tua deg erw. Ceir hanes am ein hen deidiau yn ymgelu yma pan fyddai perygl. Yn ôl wedyn i lawr i gael cawl a chlonc yn y clwb. Fe gawsom lond disgyl - ac yr oedd yn ardderchog! Diolch iddynt.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Diolchir yn gynnes i bawb a gefnogodd y Gymanfa Garolau a drefnwyd gan yr Adran a'r Aelwyd. Mae ein dyled yn fawr i Enfys Hatcher am arwain mewn ffordd mor frwdfrydig a hwyliog, gan sicrhau fod pawb yn mwynhau, o'r lleiaf i'r hynaf. Roedd ei hiwmor iach yn donig i ni gyd; dyma noson i'w chofio! Codwyd swm sylweddol at Glefyd y Siwgr a gwaith yr Urdd yn lleol.

Aelwyd yr Urdd

Mae cyfarfodydd yr Aelwyd wedi ail ddechrau yn dilyn y gwyliau ac erbyn i Clonc ymddangos bydd yr aelodau wedi cwrdd i baratoi rhaglen ar gyfer y misoedd i ddod. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 18 Chwefror o 7 hyd 8.15 o'r gloch yn Ysgol Bro Pedr (campws iau) pryd y disgwylir Rhydian, Swyddog Datblygu Cynorthwyol yr Urdd i gymryd at y gweithgareddau. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fanylion pellach cysyllter â Geinor Medi neu Janet.

Llanbedr Pont Steffan

Cylch Cinio

I drydydd cyfarfod y tymor ar Ragfyr 6ed, croesawodd Cylch Cinio Llanbed Mrs Megan Hayes o Aberaeron i'n cwmni. Wrth ei chyflwyno, soniodd y Llywydd, y Bnr Ceri Davies, am ei chefnidir sydd yn tarddu o Lundain a Llanbed. Dyma gefndir gwbl addas i'w thestun ar y noson, Llwybr Llaethog Llundain. Cawsom araith ddiddorol, gynhwysfawr a pherthnasol. Trwy gyfrwng lliith, llun a dyfal baratoad, olrhainiodd hanes sail a thwf y busnesau llaeth yn y brifddinas a datblygiad y gymdeithas glos yn eu cysgod. Dyma gymdeithas oedd yn adlewyrchu'r naws gartref – cymdeithas capel, cymanfa ac eisteddfod. Daeth hi'n amlwg fod mwy nac un ohonom wedi darganfod cysylltiad teuluol â'r testun a bod llawer atgof wedi'i atgyfodi. Hefyd, sylweddolodd a synnodd sawl un mor ebrwydd ydyn ni'r Cymry'n medru sefydlu cymdeithas Gymraeg a Chymreig ble bynnag yn y byd yr awn. Dyna'n hollol a ddigwyddodd yn ystod yr ymfudiad dan sylw.

Diolchodd y Bnr Aneurin Jones yn gynnes iddi gan ddymunio llwyddiant llachar i'w llyfr Llwybr Llaethog Llundain sydd ar y gweill. Edrychwn ymlaen at gael gwledd gyflawn yn y gyfrol hon. Wrth gloi'r cyfarfod, llongyfarchodd y Llywydd Eiddig a Gwen Gellidewi ar ddathlu'u Priodas Ruddem. Penderfynwyd hefyd y byddai'r Cylch Cinio yn danfon siec o £100 ar gyfer apêl y drychineb enfawr yn ynysoedd y Philipinau, a hynny drwy law y gangen leol o Gymorth Cristnogol.

Yn ystod cyfarfod diweddaraf y Cylch, sioc a syndod i'r aelodau wrth fynd i mewn i'r ystafell arferol oedd dod wyneb yn wyneb â beic ar ffrâm. Yn wir, edrychai'n beryglus fel bwystfil barus yn barod i ymosod arnom. Ond buan y cafwyd eglurhad pan gyflwynodd y Llywydd siaradwr gwadd y noswaith sef y Bnr David (Dai) Charles Evans. Dyma gymeriad poblogaidd a gweithgar yn y Cylch a'r ardal gyfan.

Eglurodd mai'r hyn oedd o'n blaen oedd datblygiad Darwinaidd bron o'r "Bone-Shakers" a'r Penny Farthings fu'n boblogaidd gan ein cyndeidiau. Aeth ati i egluro sut y datblygodd ei gyfathrach ef a'r ceffyl dur hwn. Pan ddechreuodd awydd a blas cystadleuol a chorfforol y cae rygbi bylu tipyn, sylweddolodd y byddai'n rhaid gwrthsefyll ymosodiad blynyddoedd a bloneg ar y corff. Yr unig beth amdani oedd darganfod ymarfer arall. Fel arbrawf, aeth am sbin ar gefn beic benthyg i Dregaron a nôl. Dyna fe wedi ei rwydo ar unwaith. Ehangwyd hyd y teithio a chynyddodd y blas nes bod bron yn dwymyn. Ychwanegodd at y pleser pan ddechreuodd ddefnyddio beicio fel modd i godi arian at

achosion da a theilwng. Uchafbwynt hyn oll oedd cael cyfle i ymuno â thaith uchelgeisiol iawn i California yng nghwmni rhai o enwogion a chwaraewyr a diddanwyr eraill Cymru.

Diffr iawn oedd cael gweld lluniau llachar o olygfeydd unigryw (echrydus weithiau) Parc Yosemite, tiroedd cyfarwydd i John Wayne a'i gyffelyb a phont byd-enwog y Golden Gate. Yng ngŵydd honno y gorffennwyd y daith ac yno y gwahanodd y criw. Roedd pob un wedi codi swm sylweddol tuag at y Ganolfan Ymchwil Ysbyty Felindre Caerdydd gyda'r cyfanswm yn croesi hanner miliwn - ymdrech anhygoel. Wrth ffarwelio, trist oedd cofio'r rhai oedd wedi, trwy angau, ysbrydoli'r daith unigryw hon.

Cyn gadael, cafodd Dai gyfle i ymweld â Dai arall - Dai Mile End, ei gefndir sy'n byw o fewn cyrraedd i ben y daith ac eto'n cadw cysylltiad agos â chyfeillion a thref ei febyd. I orffen, diolchodd y Bnr Eric Williams yn wresog iddo am araith ddiddorol ei chynnwys a'i chyflwyniad.

Yn ystod y nos, croesawodd y Llywydd y Bnr Geoff Evans i'r cyfarfod - cyfaill agos i'r siaradwr ac yntau hefyd yn feiciwr brwd ac wedi codi swm sylweddol o arian at achosion da dros y blynyddoedd. Hefyd, balch oeddem oll i glywed fod y Parchedig John Emrys Jones nawr yn llanw swydd yr Is-Lywydd.

Clonc arferol i orffen a dyna noswaith ddymunol arall ar ben. Cwmni da, cinio blasus ac araith ddiddorol. Does dim angen gwell. Hir yw'r ymaros am Chwefror 7fed a chwmni Esther Eckley - yr arlunydd enwog o Aberaeron.

Cylch Cinio Llamed

Cynhelir noson Gŵyl Ddewi eleni yng Ngwesty Grannell Llanwnnen ar nos Iau Mawrth 6. Bydd yna groeso cynnes iawn i gyn-aelodau i ymuno â ni, ac hefyd gwragedd rhai o'r aelodau ffyddlon hynny yn anffodus a gollwyd o'n plith dros y blynyddoedd. Y gwestai eleni fydd y teulu amryddawn o Gaerfyrddin sef yr Athro Gwynedd Parry, Meinir ei briod a'r bechgyn. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r ysgrifennydd Tim Jones, Llainwen, Heol Glynhegog, rhif ffôn 01570 422644. Edrychwn ymlaen yn fawr at eich cwmni.

Rheilffordd

Cynhelir cyfarfod i drafod y prosiect ar gyfer cyswllt rheilffordd gogledd-de am 7.00yh ar Chwefror 6 yn Neuadd Fictoria, Heol y Bryn, Llanbed. Bydd hwn yn gyfarfod ar gyfer y rhai sydd am fod yn rhan o'r trefnu. Hefyd, bydd cyfarfod am 6.00yh ar Chwefror 20 yn Neuadd Fictoria a bydd hwn yn gyfarfod cyhoeddus.



Brondeifi

Yn ôl yr arfer braf oedd cael ymuno â disgyblion yr Ysgol Sul yn eu gwasanaeth Nadolig. Gan fod stori'r Nadolig yn oesol, mae'n anodd cyflwyno'r neges yn ffres o flwyddyn i flwyddyn. Ond eleni eto llwyddodd Heini Thomas eu hathrawes gyda chymorth Kimberley a rhai o'r rhieni i gyflwyno gwasanaeth cofiadwy. Roedd y plant i gyd yn barod am eu gwely yn eu 'onesies' ac yn gofyn am stori cyn mynd i gysgu ac ymweliad Siôn Corn. Stori'r geni oedd y dewis a chwtsodd pawb fewn i wrando'r hen, hen hanes a gyflwynwyd mor raenus gan Martha, Lili, Undeg, Elen, Hanna ac Elin. Yn ystod y stori ymunodd y plant i gyd-ganu carolau addas a chafwyd eitem ar y fflwt gan Undeg, Hanna yn canu 'Un Bugail Bach ar ôl' a Siôn ac Elen yn canu 'Jingle Bells' ar eu recorders. Gweddiwyd gan Elin a Ffion ac ar gais Siôn cyd-ganwyd eto cyn iddynt fynd i gysgu! Yn sain hyfryd 'Tinsel ar y Goeden', 'Ar fore dydd Nadolig' a 'Nos Da Bawb' gafaelodd y plantos yn eu hoff deganau meddal gan gwympto i gysgu i ddisgwyl Siôn Corn. Yn dilyn gwledd o barti a baratowyd gan y rhieni a'r athrawon, daeth Santa ei hun gan ddosbarthu anrhegion i holl blant yr Ysgol Sul ac ambell oedolyn hefyd!

Diolchodd y Parch Goronwy Evans i bawb a wnaeth sicrhau fod cyflwyniad y plant mor raenus, ac i Heini ac i Meinir Evans am gyfeilio.

O ganlyniad i drychineb y Philipines daeth cais oddi wrth Mrs Mair Richards, Cadeirydd Pwyllgor Lleol Cymorth Cristionogol am gyfraniad gan gapeli ag eglwysi'r dref. Mewn ymateb penderfynodd ein Gweinidog a'r swyddogion wneud casgliad arbennig ac o ganlyniad gwiredwyd y swm o £240 sydd bellach wedi ei drosglwyddo gan ein trysoryddion Wyn a Meinir Jones, Hendai i Mr Percy Evans, trysorydd Cymorth Cristionogol.

Hefyd, yn ôl yr arfer, mae casgliad gwasanaeth fore'r Nadolig yn mynd at elusen wahanol yn flynyddol. Y dewis eleni oedd Ambiwlans Awyr Cymru. Roedd cyfanswm y casgliad yn £138.20 ac mae ein trysoryddion eto eisoes wedi trosglwyddo'r siec i nyrs Ros Jones sydd yn gynrychiolydd lleol yr apêl. Diolch i bawb a gyfrannodd at y ddwy elusen haeddiannol.

Yng ngwasanaeth y cymun brynhawn Sul y 19eg o Ionawr thema neges y Gweinidog, y Parch Goronwy Evans oedd 'Cofio' a chyffyrddodd â nifer o enghreifftiau o'r pwnc, ac yn eu mysg soniodd am y gwasanaeth coffa cofiadwy i'r diweddar Barchedig Elwyn Jenkins, cyn-weinidog capeli Siloh a Soar, a gynhaliwyd yng nghapel Soar brynhawn Sadwrn, 18fed o Ionawr. Roedd yn amlwg fod rhyw fath o syrpreis yn ein disgwyl, ac ar ôl gweinyddu'r cymun cafodd y gyfrinach ei datgelu. Cydnabod gwasanaeth Mr Aneurin Jones, Hathren oedd ar y gweill ac yntau, ynghyd â dal swyddi eraill, wedi bod yn ddiagon ers 1969. Yn ystod y cyfnod mae wedi gwneud gorchwylion lu, fel cadw llygad ar y capel yn gyson, weindio'r cloc ac edrych ar ôl buddiannau'r capel ym mhob agwedd. Cyflwynwyd llun Brondeifi gydag englyn perthnasol o waith y Prifardd Idris Reynolds iddo gan Mr Arthur Roderick. [Llun ar dudalen 2]. Dechreuodd drwy ddweud fod Aneurin yn perthyn o deulu a oedd wedi bod yn ffyddlon iawn i'r achos ym Mrondeifi ar hyd yr amser. Yn ddiffuant diolchodd Mr Roderick iddo gan sôn am y cyfnod hir o gydweithio gan ddwyn i gof y gorchwylion a'r penderfyniadau anodd y bu rhaid iddynt, ynghyd â'u cyd-swddogion, wneud ar adegau. O dan deimlad ymatebodd Aneurin gan ddiolch am yr anrhydedd gan ddweud mai'r Achos ym Mrondeifi oedd ei flaenoriaeth bob amser. Mae geiriau englyn y Prifardd Idris Reynolds mor addas:

Aneurin

I'r swydd fe fynodd roddi – yr oriau

Hirion heb eu cyfri',

Ac yn awr mawrygwn ni

Ei ofal dros Frondeifi.

Ar fore Sul y 26ain edrychir ymlaen at groesawu'r Parch Alun Wyn Dafis atom eto ac am 2.00 o'r gloch ar yr 2il o Chwefror bydd yr un croeso i Meinir Jones, Maesteilo, Capel Isaac – cyflwynydd 'Ffermio' ar S4C – i'n hannerch.

Llanbedr Pont Steffan

Urdd y Benywod, Brondeifi

Ym mis Ionawr cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Urdd; dwy raglen wahanol yn dangos talentau unigryw. I agor y flwyddyn, ar y 9fed Ionawr cawsom sesiwn gan Heini Gruffudd ar wneud cardiau. Dyma gyfle i ni gwrdd â'r person tu ôl i'r cardiau del a chyfoes sydd ar werth yn Siop y Smotyn Du. Hefyd roedd yn gyfle i ni brofi sawl math o weithgaredd gyda phapur, defnydd, cardfwrdd, sticeri, ffoil, ac i ailgylchu cardiau Nadolig i greu cardiau newydd ar gyfer achlysuron eraill. Roedd festri Brondeifi yn lliwgar ac yn llawn sŵn a chyffro hapus dan arweiniad Heini. Roedd hi wedi paratoi pethau fel petai'n hen gyfarwydd â threfn y sioe deledu Blue Peter, ac felly llwyddodd nifer o'r gynulleidfa greu carden. Dywedodd mai fel hobi yn ystod ei blwyddyn olaf yn y coleg y cychwynnodd wneud cardiau. O weld yr offer a gasglwyd ganddi, a'r amrywiaeth o ddefnyddiau yn yr ystafell, mae'n amlwg fod hyn wedi datblygu i fod yn grefft sylweddol. Ond nid crefft yn unig a welsom ond dychymyg hefyd. Dywedodd Heini mai'r pleser pennaf yw creu cardiau personol, fel gwahoddiadau priodas. Yn sicr mae'r broses o wneud cardiau yn hollol wahanol i'w gwaith fel llyfrgellydd yr ysgol, neu ei gwaith gwirfoddol fel trysorydd Brondeifi a Siop y Smotyn Du. Wrth dalu'r diolchiadau dywedodd Nia Williams pa mor ffodus ydym i gael y cyfle i alw ar sgiliau a pharodrwydd Heini Gruffudd.

Noson o wleda yn Y Pantri oedd yr achlysur nesaf yng nghwmni ein gŵr gwadd, Andrew Jones, a'i wraig Pat. Cymdeithasu a mwynhau'r detholiad o fwydydd blasus roedd Delyth wedi'u paratoi oedd yn gyntaf, yna cawsom wledd o hanes a straeon gan Andrew. Roedd wedi gwneud detholiad bychan o luniau o Lanbed a oedd yn dyst i newidiadau'r ganrif ddiwethaf yn y dref fach hon. Yn sicr roedd y lluniau yn dangos mai yn ystod y trigain mlynedd diwethaf y mae bywyd wedi newid fwyaf, pan ddaeth y modur i gymryd lle'r ceffyl a chart a'r trê. Roedd gan Andrew luniau o'i dad yn aredig a cheffyl yn tynnu'r aradr, a lluniau o'r 1960au yn dangos y garej leol gyda Hillmans a Fords ar werth i bawb. Roedd yn hyfryd gweld lluniau o'r tu fewn i'r hen siopau fel Megicks a Nun Davies a'r hen fart. I lawer o'r Urdd roedd y bobl yn y lluniau yn adnabyddus iawn, ac yn dwyn atgofion o'r adeg. Ond mae Andrew yn dal i edrych am fwy o wybodaeth am enwau rhai o'r bobl yn y ffotograffau. Gobeithiwn am gyfle arall i bori yn casgliad hwn. Talwyd y diolchiadau gan Beti Evans i Delyth, Andrew ac i Pat (hi oedd y bencampwraig ar y cyfrifiadur a'r

ochr dechnolegol i'r cyflwyniad) am noson hwylus a dymunol iawn.

Mae croeso cynnes i bawb ddod i gyfarfod nesaf yr Urdd sy'n cael ei gynnal ar Chwefror 13 am 7y.h. yn festri Brondeifi. Bydd Andrew Morgan yn siarad ar y pwnc Hen Greiriau.

Diolch

Dymuna Eira a Hugh, 1 Bryn Steffan ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion hael a dderbyniwyd ar eu pen-blwydd arbennig ym mis Rhagfyr.

Cymdeithas Hanes

Braf oedd gweld nifer dda wedi dod ynghyd ar ddechrau'r flwyddyn newydd, ac fe'u croesawyd gan Selwyn Walters, y Cadeirydd. Y siaradwr gwadd oedd Mr Chris Delaney, brodor o Fanceinion, ond sydd wedi byw yng Nghymru ers ei ddyddiau coleg yng Nghaerdydd ar ddiwedd y chwedegau. Bu'n gweithio yn amgueddfa Caerfyrddin cyn iddi symud i Abergwili yn 1975, ac fe'i apwyntiwyd yn Guradur yno, ac yna ar Amgueddfa Dyfed, er bod y swydd wedi newid erbyn hyn i fod yn Rheolwr Treftadaeth. Wedi ymddeol yn 2007, mae'n byw yn Nhalacharn, gan wneud gwaith ymgynghorol ynglŷn â threftadaeth.

Soniodd am gadw ar gof a chadw ein gorffennol, er mwyn adnabod ein hunain heddiw, a phle byddwn yfory. Dangosodd luniau o weithwyr cyffredin yn y diwydiant tin, cyn sôn am y cyfoeth a gronnwyd gan y perchnogion; David Davies, Llandinam a'r pyllau glo, a datblygiad dociau'r Barri; Stephen Williams a fu'n gweithio i David Davies yn cynllunio'r rheilffordd dros Cors Caron, a'i gysylltiad wedi hynny â Chwm Elan, ac yn 1887, bu'n cloddio a chwilio yn Abaty Ystrad Fflur. Sut mae adnabod stori? Beth all un ddarllen mewn llun? Y dillad gwaith, a'r lle yn adrodd stori, ond mae'n bwysig cael yr hanes wrth siarad â phobol.

Wrth ddiolch i Chris Delaney, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn addas iawn i gael rhywun a fu'n guradur fel siaradwr ar adeg cyffrous i Gymdeithas Hanes Llanbed. Mae'r gwaith wedi dechrau ar grynhoi deunydd i'w harddangos yn yr Amgueddfa a fydd yn agor yn hen borthordy'r coleg yn y misoedd nesaf. Aelodau'r Gymdeithas fydd yn gwneud y dyletswyddau gwirfoddol o gasglu ac edrych ar ôl y casgliadau, ac yr ydym yn apelio'n garedig at y cyhoedd os oes gennych henebion yn gysylltiedig â Llanbed a'r ardal, a fydddech yn ystyried eu rhoi neu eu benthyca dros dro i'r Amgueddfa? Os hoffech wneud, cysylltwch â Selwyn Walters.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 18fed, 7.30yh yn Hen

Neuadd y Coleg, pan fydd Nikki Vousden yn sôn am Carreg 3 Silian,

a'i rhoi yn ei chyd-destun. Croeso cynnes i bawb.



Tîm dan 6 Llanbed gyda'u cit newydd yn roddedig gan Mark Douglas. Maent wrth eu bodd yn eu gwisgo ac yn edrych ymlaen am dywydd gwell i gael y cyfle i'w gwisgo i chwarae. Diolch yn fawr iddo ar ran y plant am ei rodd hael.

Criw Cardi-Gân

Canodd Hogia Llandegai 'Mae'r hogia'n dal i ganu, mae'r hogia'n dal i fynd' ac mae'r un yn wir am griw ffyddlon Cardi-Gân. Bob nos Fercher dan arweinyddiaeth Mrs Carys Griffiths-Jones mae'r criw yn cwrdd yn y Gwndwn ar gampws Theatr Felinfach. Mae tipyn o sbort i'w gael wrth ddysgu darnau newydd a chanu'r hen ffefyrnau gan baratoi at ambell gyngerdd fan hyn fan draw.

Nos Sul 8 Rhagfyr cynhaliwyd cymanfa garolau yng nghapel Mydroilyn a drefnwyd gan Cardi-Gân. Estynnwyd croeso i'r arweinydd gwadd sef Mrs Ffion Medi Hughes a'r organydd gwadd sef Mr Bryan Jones gan gadeirydd presennol Cardi-Gân Eleri Jones. Crëwyd naws hyfryd ar gychwyn y noson wrth i'r criw gerdded drwy'r capel yn canu'r gân gyntaf. Cafwyd canu cynulleidfaol bendigedig, eitemau gan Cardi-Gân a darlleniadau a gweddïau gan yr aelodau. Elusen ddewisedig Cardi-Gân ar gyfer 2013-14 yw Sefydliad Prydeinig y Galon ac roedd Mr Glan Davies yn bresennol yn y gymanfa i sôn ychydig am waith yr elusen a phwysigrwydd ein cyfraniadau. Derbyniwyd rhoddion o £483 a gobeithio byddwn yn ychwanegu eto tuag at y cyfanswm yma cyn trosglwyddo'r arian i'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson ac am eu cyfraniadau hael.



Yn ddiweddar trosglwyddwyd £1000 i'r elusen y bu Cardi-Gân yn cefnogi yn ystod 2012-13. Mae un o'n haelodau, Lois Pugh wedi bod wrthi'n ddiwyd ei hunan yn codi arian ar gyfer elusen Ymchwil Cancr wedi iddi golli anwyliad i'r afiechyd. Dewisodd hi gyflwyno £500 o'r arian at yr achos hwnnw a £500 i gronfa nawdd Gary Davies o Nebo, [Llanybydder yn wreiddiol] a redodd 24 marathon yn 2013 i godi arian i Ymchwil Cancr. Diolchwn i bawb a gefnogodd Cardi-Gân yn ystod 2012-13 a'n galluogodd ni i gyfrannu gymaint tuag at yr elusen hynod o bwysig yma.

Os oes rhywrai â diddordeb i ymuno â Cardi-Gân mi fyddai croeso cynnes yn eich aros. Rydym yn awyddus i ddenu aelodau newydd er mwyn cryfhau'r pedwar llais. Rydym yn cwrdd bob nos Fercher am 7.45yh yn y Gwndwn ar gampws Theatr Felinfach. Dewch draw i'n cyfarfod.

Llanbedr Pont Steffan

Shiloh a Soar

Roedd y Festri yn Shiloh yn gyfforddus lawn ar gyfer ymweliad Sian Elin Williams, Prif Ferch Ysgol Bro Pedr, â'r Gymdeithas Ddiwylliadol. Hyfryd oedd gweld ffrindiau o eglwysi yr ardal yn ymuno â ni. Roedd ein gwestai ynghyd â chriw o bobol ifanc ledled Cymru wedi eu dewis gan yr Urdd i ymweld â Phatagonia er mwyn hybu a datblygu'r Gymraeg yn y Wladfa. Estynnodd John Phillips, Llywydd y Gymdeithas, groeso cynnes iddi a braf oedd cael darlun o'r Wladfa gan lais ifanc. Drwy gyfrwng sleidiau, cafwyd ganddi grynoded byw o'r bywyd a'r diwylliant mewn llefydd fel y Gaiman ac Estelle. Pwysleisiwyd fod tua 85% o'r bobl yn siarad Cymraeg a bod yna ymdrech fawr drwy gymorth yr Eisteddfod flynyddol yn y Gaiman a chyfraniad pwysig y capeli yn help mawr i ddiogelu y diwylliant Cymreig.

Roedd pawb ohonom yn y gynulleidfa niferus wedi closio at ddawn naturiol a chartrefol Sian Elin i gyfathrebu ac yr oedd ei hiwmor gwreiddiol yn nodweddiadol o'i haraith. Bu trafodaeth fywiog a phawb mor ddiolchgar fel y cyfeiriodd Mair Lewis o gael rhannu y profiadau gyda Sian Elin ar ei thaith i'r Wladfa. Estynnwyd ein dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.

Mrs Bronwen Morgan, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion oedd y gwestai yn y Gymdeithas Ddiwylliadol nos wener Ionawr 24. Croesawyd hi yn gynnes gan y Llywydd John Phillips ac mi soniodd am y cyfnod hapus pan oedd y ddau yn gydweithwyr yn Nyfed. Cyfeiriodd Bronwen ar y cychwyn at ei dyled bersonol i'r Llywydd am ei gyngor a'i gyfarwyddyd ac am helpu i lywio ei gyrfa.

Ofergoelion oedd y testun, a chafwyd ganddi araith wedi ei llunio'n gelfydd yn seiliedig yn bennaf ar rai o ddigwyddiadau'r gorffennol yng Ngheredigion. Yn naturiol, roedd llawer o'r hanesion yn ymwneud â marwolaeth, gan gynnwys clywed cŵn yn udo, aderyn yn curo ar y ffenest, darllen dail te mewn cwpan, goleuni yn y môr a chlywed ceiliog yn canu yn anamserol. Soniodd hefyd am rai o gymeriadau, fel Daniel Rowland, y dyn hysbys, a helyntion ambell sgweiar o fewn y sir.

Roedd yr araith hefyd yn frith o ddywediadau a diarhebion. Roedd yna hen ddywediad yn argymhell peiri ifanc i beidio priodi ar ambell ddiwrnod o'r wythnos gan fod hyn yn medru arwain at anlwe! Huw Jenkins gafodd y fraint o ddiolch yn gynnes i Bronwen am araith hynod afaelgar a diddorol, ac yntau wedi cael profiad annymunol drwy arbrofi gyda'r 'weegie board' tra yn y coleg

ym Mangor! Yn dilyn trafodaeth fywiog, rhannwyd nifer o brofiadau personol gan y gynulleidfa. Gwnaeth Bronwen er hynny gloi drwy awgrymu yn ddoeth fod i fyny i bob unigolyn gredu neu beidio mewn ofergoelion. A ydi'r holl hanesion yn ffaith ac yn gywir, neu yn rhan o'n dychymyg pell? Holed pawb ef ei hun!

Diolchiadau

Dymuna Mrs. Catherine Thomas, Hafdre, Stryd y Bont ddiolch yn fawr iawn i'w ffrindiau a'i chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Hefyd hoffai ddiolch yn arbennig i Weinidog ac aelodau Noddfa am drefnu parti ardderchog ar ei chyfer, ac i Myfanwy am y gacen hardd. Diolch o galon i bawb.

Hoffai Dai a Nell, 19 Ffynnonbedr ddiolch yn gynnes iawn i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a phob dymuniad da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch o galon i chi gyd.

Dymuna Wynne a Mary, Y Coach House, Heol Maestir ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Hefyd, diolch arbennig i Emyr, Aled, Cathy, Ann-Marie, Alwyn, Megan a Daniel am y parti hyfryd. Diolch yn fawr.

Ysgol Sul Noddfa

Mae'r flwyddyn aeth heibio wedi bod yn un llwyddiannus iawn unwaith eto yn hanes Ysgol Sul Noddfa. Bu'r plant a'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn nifer o oedfaon gan dderbyn canmoliaeth am eu gwaith. Cynhaliwyd gwasanaeth teuluol arbennig yn Ysgol Carreg Hirfain ac yna bu pawb yn mwynhau picnic a chwaraeon yn yr awyr agored a'r haul yn gwenu'n braf. Roedd cyfraniad y plant yn y Gymanfa Ganu yn un clodwiw a bu criw ohonynt yn diddori aelodau Ifanc o Galon yn Neuadd Eglwys San Pedr. Hefyd maent wedi cyfrannu tuniau tuag at apêl Banc Bwyd Llambed.

Yn ôl yr arfer cynhaliwyd oedfa arbennig i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd cyfuniad o'r traddodiadol a'r cyfoes, a phawb o'r lleiaf i'r hynaf ar eu gorau. Galwodd Santa heibio a bu'n dosbarthu llond sach o anrhegion. Yna mwynhawyd te parti ardderchog wedi'i drefnu gan Llinos gyda chymorth y rhieni eraill.

Ar ran yr Ysgol Sul cyflwynodd Gwenllian a Rhys Tom anrhegion i Janet fel gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Ymatebodd hithau mewn geiriau pwrpasol gan ddiolch yn ddiffuant i'r plant am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch, ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gymryd

eu tro i gynorthwyo yn yr Ysgol Sul bob nos Wener.

Nos Wener 17 Ionawr bu criw o'r plant yn diddanu preswylwyr Hafandeg mewn pennill a chân. Cyflwynwyd amrywiaeth o eitemau, a braf oedd gweld y mamau hefyd yn cymryd rhan. Diolchodd Mrs. Megicks i'r plant a'u rhieni am roi o'u hamser a'u doniau unwaith eto gan ddod â chymaint o bleser i'r henoed. Cafwyd cyfle wedyn i sgwrsio ac i fwynhau paned a danteithion ysgafn.

Roedd Sadwrn 18 Ionawr yn brynhawn o ymlacio a chwerthin iach pan aeth criw ohonom yn cynnwys plant, rhieni ac ambell i fam-gu i'r Panto blynyddol yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Mae'r sioe yn derbyn adolygiadau gwych yn flynyddol, ac nid oedd eleni yn eithrad. Roedd y cynhyrchiad yn un gwych – lliwgar, bywiog, llawn hwyl a'r cyfan mor broffesiynol. Bu'n brynhawn difyr iawn.

Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau yn dilyn y gwyliau a chyn hir bydd yn amser i baratoi ar gyfer Oedfa'r Ifanc ym mis Ebrill a'r Gymanfa Ganu a gynhelir eleni yn Salem Caio. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o gydweithio hapus a llewyrchus.

Gyrfa Chwist

Ar 18fed o Ragfyr cynhaliwyd Gyrfa Chwist y Nadolig yng nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn:

Sgôr Uchaf - Nancy Davies, Heol Y Wig, Llambed. Dynion - 1af - Maggie Vaughan, Felinfach. 2il - Margaret Jones, Pentrebach. 3ydd - Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed.

Merched 1af - Mary Davies, Cwmsychpant. 2il - Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambed. 3ydd - Ceri Lloyd, Ffostrasol.

Carden Miniature - Dynion - Jack Jenkins, Llanybydder. Merched - Gwen Davies, Llanwnnen.

Bwrw allan - Enillwyr - Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach a Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambed. 2il - Nancy Davies, Heol Y Wig a Maggie Vaughan, Felinfach.

Diolchodd y trefnydd Gwen Davies i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac am y gwobrau ariannol a gwobrau raffl.

Diolchodd i Iorwerth Evans am fod yn M.C. a chyflwynwyd anrheg gweinwyd te, brechdanau a mins pies gan aelodau o Gymdeithas Ffrindiau Hafan Deg.

Diolchodd y Cadeirydd Cyng Ramaya i bawb am gefnogi'r Gyrfaedd Chwist yn ystod y flwyddyn ac esboniodd fel oedd yr arian y cael ei ddefnyddio at ddiben preswylwyr y cartref.

Cynhaliwyd un cyntaf 2014 ar

15fed o Ionawr yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn:

Dynion - 1af - Brian James, Trelech. 2il - Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach. 3ydd - Gwendoline Davies, Llanwnnen.

Merched - 1af - Sian Jones, Llambed. 2il - Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed. 3ydd - Morfudd Slaymaker, Llambed.

Carden Miniature - Dynion - Ray Jenkins, Llanybydder. Merched - Gwenda Jones, Talsarn.

Bwrw Allan - Enillwyr - Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambed a Dilwen Rodrick, Stryd Y Bont, Llambed. 2il - Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach a Barbara Shaw, Llambed.

Bydd y Gyrfaedd Chwist mis Chwefror ar y 12fed a 26ain. Croeso cynnes i bawb.

Plaid Cymru

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cangen Plaid Cymru Llanbedr Pont Steffan ar 28 Ionawr ar aelwyd Rob a Delyth Phillips. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd ac a rannodd syniadau ar gyfer gweithgareddau'r flwyddyn. Y digwyddiad cyntaf ar y calendr eleni yw'r noson stwffio yn y Shapla, Stryd y Coleg, nos Iau 20 Mawrth. Cysylltwch â Rob a Delyth am fwy o fanylion: 422992.

Cymorth Cristnogol

Bu'r noson Carol, Cerdd a Chân a gynhaliwyd yn Eglwys San Pedr yn llwyddiant mawr eleni eto. Mwynhawyd perfformiadau clodwiw gan artistiaid lleol a'r cyfan yn creu naws hyfryd y Nadolig ac yn codi arian at achos teilwng, apêl Syria. Daeth swm anrhydeddus o £1,100 i law. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y pwyllgor lleol yn paratoi cinio ar gyfer y Trydydd Byd yn neuadd Eglwys San Pedr ddydd Gwener 7 Chwefror o 12 hyd 1.30 o'r gloch. Dewch ynghyd i fwynhau pryd o fwyd yn cynnwys cawl, pwddin a phaned am bris rhesymol. Croeso cynnes i bawb.

Bydd aelodau'r pwyllgor yn cyfarfod yn Eglwys San Tomos ddydd Iau 6 Chwefror i baratoi'r llysiau. Os oes awr gennych yn rhydd, gwerthfawrogi eich help yn fawr.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf.

Bachgen bach

Llongyfarchiadau i Lowri ac Edward Davies, Llyshelyg, Rhodfa Glynhebog ar enedigaeth bachgen bach sef Guto Hedd yn ystod mis

Llanbedr Pont Steffan

Ionawr, brawd bach i Ifan.

Merched y Wawr

Ar ôl croesawu'r aelodau i gyfarfod olaf 2013, estynnodd Morwen y llywydd hefyd groeso i aelod newydd, Eiry Jones. Estynnwyd yr un croeso cynnes i wraig wadd y noson, Nicola Davies o siop flodau Cascade. Cawsom amser hamddenol a hwyliog wrth iddi ddangos ei dawn arbennig o osod blodau. Dangosodd i ni sut i wneud trefniant Nadoligaidd, gan ein diddanu â'i hiwmor unigryw wrth adrodd ambell stori am ei hanes yn y siop. Diolchodd Elma Phillips i Nicola am ddod atom i ddangos ei chreffft ar adeg mor brysur yn y siop, a dymunodd yn dda iddi dros yr ŵyl gan obeithio y gallai gael seibiant ar ôl y Nadolig. Diolchodd hefyd i Avril, Dilwen a Mair am wneud y te. Enillwyr y raffl oedd, Morwen, Verina a Eiry ac enillydd y raffl fisol oedd Joan James. Darllenodd Morwen gyfarchion a anfonwyd at y gangen yn dymuno Nadolig Llawen i'r aelodau gan y Llywydd Cenedlaethol, a hefyd Tegwen Morris y Trefnydd Cenedlaethol.

Daeth pawb ynghyd ar nos Lun 13eg o Ionawr yng Nghlwb Bowlio Llanbed am noson wedi ei threfnu gan ein llywydd Morwen Thomas. Estynnodd groeso gan ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb. Cafwyd noson hwylus yn bowlio gyda phawb yn gwneud eu gorau i feistroli'r gamp – rhai yn well na'i gilydd, ond pob un cael tipyn o hwyl! Diolchodd Dolly i Morwen am y trefniadau ac hefyd i Dilwen Roderick am ein hyfforddi yn y gamp. Estynnodd ddiolch hefyd i Morfudd, Irene a Joan am weini'r lluniaeth ysgafn. Enillwyd y raffl fisol gan Elma Phillips.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn festri

Shiloh am 7.30 ar 10fed o Chwefror: Coginio gan Helen Jones ac Eleri Hughes.

Cymdeithas Gerdd Llambled Nos Fawrth 25 Chwefror 2014

7.30pm Neuadd y Celfyddydau,
Campws y Coleg

Cyngerdd gan 'The Sterling Trio'.

Daeth y triawd hwn ynghyd yn 2006, ac erbyn hyn caiff ei ystyried yn ensemble siambr swynol a chyffrous sy'n barod i dorri tir newydd. Bydd y triawd yn cyflwyno cerddoriaeth o gyfnod y Dadeni hyd heddiw: cerddoriaeth gyfoethog y bedwaredd ganrif ar bymtheg; cerddoriaeth Ffrengig yr ugeinfed ganrif; a threfniannau o waith Dowland, Corelli, Mendelssohn a Bartók.

Dydd Sul 23 Mawrth 2014

2.30pm Neuadd y Celfyddydau,
Campws y Coleg - Cyngerdd gan
Gerddorfa Siambr Llambled

Sefydlwyd y gerddorfa yn 2005 er mwyn rhoi cyfle i gerddorion lleol, yn enwedig cerddorion ifanc, ymarfer a pherfformio cerddoriaeth glasurol. Mae'r cyngerdd hwn wedi'i anelu at bobl ifanc sydd â diddordeb arbennig mewn popeth sy'n ymwneud â cherddorfeidd. Byddant yn cael cyflwyniad i wahanol offerynnau wrth i rai ohonynt gael eu harddangos ac yna cynhelir cyngerdd byr a fydd yn gyfle i glywed a gweld y gerddorfa'n perfformio. Felly dewch â'r plant i'r cyngerdd arbennig hwn. Ni chodir tâl ar blant sy'n dod yng nghwmni oedolyn sy'n talu pris mynediad llawn! Tocynnau wrth y drws: £10 i oedolion, £8 i bobl sy'n cael gostyngiad.

I gael rhagor o wybodaeth am y Gymdeithas anfonwch e-bost i'r cyfeiriad canlynol:

cockburn.david@gmail.com neu
ffoniwch 01570 422436.



Adrian Thomas o'r Peterwell Masonic Lodge yn trosglwyddo sic £1,000 a godwyd gan noson y gwragedd a drefnwyd gan Denise Thomas, i Joseph Cuff, rheolwr codi arian Diabetes UK Cymru. Hefyd yn y llun mae Percy Evans.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*

Yn y Gegin gyda Gareth



Dewch i ddathlu Gŵyl Ddewi!

Hyfryd yw bod yng nghegin Clonc, a hynny gyda rheswm da i ddathlu. Ie, dathlu Gŵyl Ddewi. Y mis yma rwy'n canolbwyntio ar un o brif gynnyrch Cymru, sef cig oen Cymreig. Gan fy mod yn fab fferm, teimlaf fod hyn yn gam naturiol: 'O'r buarth i'r bwrdd!' Mae'n tirwedd yn allwedd i greu cig tyner a blasus.

Dyma gasgliad o rysetiau i roi cig oen Cymru yn ganolbwynt y dathliadau ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Cymeraf gyfle hefyd i hysbysebu 'Gwledd Gŵyl Ddewi' yma ar y fferm. Croeso i chi ymuno â fi.

Pob hwyl,
Gareth

Golwyth Cig Oen mewn crwst

(Gyda stwnsh pys)

Cynhwysion

8 golwythen o gig oen Cymru
2 lond llwy fwrdd o olew'r olewydd
50 gm o friwsion bara
1 lond llwy fwrdd o bersli wedi torri'n fân (neu berlysiau cymysg)

2 lond llwy fwrdd o gaws wedi'i gratio
1 ewyn garlleg
1 lond llwy fwrdd o fwstard grawn
Stwnsh pys
700 gm o datws wedi'u coginio
300gm o bys wedi'u coginio
Ychydig fenyn a llaeth

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200°C; Nwy 6.
2. Rhowch halen a phupur i roi blas ar y cig. Seliwch y golwyth mewn padell ffrio gydag ychydig olew am tua 5 munud nes eu bod yn euraidd.
3. Cymysgwch y briwsion, y perlysiau a'r olew. Gosodwch ar hambwrdd pobi a'u coginio am tua 2 funud.
4. Cymysgwch y caws a'r garlleg, yna brwsiwch un ochr o'r cig â mwstard a gwasgwch i'r briwsion. Coginiwch am 5 i 7 munud.
5. Cymysgwch a malwch y tato, y pys, y menyn a'r llaeth mewn prosesydd bwyd a gweinwch gyda'r cig.

'Roli Poli' cig oen

Cynhwysion

Un pwys o frwgig cig oen
Un genhinen
2 ewyn garlleg
3 lond llwy fwrdd o jeli cyrens coch
Llond llwy bwdin o berlysiau sych
300 gm o flawd codi
100 gm o fenyn
Halen a phupur

Dull

1. Gosodwch y cig, y cennin a'r garlleg mewn padell ffrio. Ffriwch nes bod y cyfan wedi brownio. Ychwanegwch y jeli, y perlysiau, pupur a halen. Draeniwch a chadwch y sudd at y grefi.
2. I wneud y crwst, malwch y blawd a'r menyn mewn powlen gyda digon o ddŵr i wneud toes.
3. Roliwch yn siâp hirsgwar. Rhawch y gymysgedd drosto. Roliwch fel swiss roll. Lapiwch mewn papur gwrth-saim a phobwch am 30 munud ar 190°C Nwy 5 nes yn euraidd. Gweinwch gyda thato, llysiau a grefi.

Gwledd Gŵyl Ddewi

Yng nghegin Gareth

Diwrnod Cennin, Cawl a Chlonc

Patrwm y dydd ar FAWRTH Y CYNTAF

Cyrraedd erbyn 10.30 am goffi a danteithion

11.00 tan 1.00 – Arddangosfa coginio o gynnyrch Cymreig.

1.00 tan 2.00 – Cinio Cymreig

2.00 tan 3.00 – Arddangosfa trefnu blodau (Dathlu Diwrnod Dewi)

Te Cymreig i orffen y diwrnod


Lleoliad: Y Goedwig, Heol Llanwnnen

Dyddiad: Mawrth y Cyntaf

Pris: £15

I archebu ffoniwch 01570 422313

Llanfair Clydogau



Dathlu'r Nadolig

Ddwywaith cyn y Nadolig, sef nos Lun Rhagfyr 16eg a nos Iau Rhagfyr 19eg, aeth nifer dda o gantorion o amgylch y pentref i ganu carolau, sydd yn arferiad blynyddol erbyn hyn. Yn dilyn y canu ar y nos Iau roedd cawl blasus a mins peis yn ein disgwyl yn y neuadd wedi ei baratoi gan Gwyneth Jones Nouadd. Yn ystod y noson cafwyd ocsiwn er mwyn gwerthu'r cwilt oedd wedi'i greu gan ferched y grŵp 'Whine and Twine' i gystadleuaeth gyda Gerddi Tŷ Hir, Cribyn. Ei deitl oedd 'Bee Happy'. Roedd yn mesur tua pedair troedfedd wrth bum troedfedd ac yn cynnwys gwenyn mewn 3D a blodau ac roedd yn brydferth dros ben. Roedd wedi cael ei arddangos ar wal y neuadd, a'r bwriad oedd ei werthu i godi arian i elusen. Dau gynnis ddaeth i law; un oddi wrth bwyllgor y pentref a'r llall oddi wrth gwraig o Langeitho, a gwerthwyd y cwilt iddi hi am ei chynnis o £505. Roedd yr arian yn mynd i Ambiwylans Awyr Cymru gyda Carol Jones yn bresennol i dderbyn y siec. Rydym hefyd yn ddolchgar iawn i bawb o'r pentref am eu rhoddion hael ar y ddwy noson o ganu carolau ac yn y gwasanaeth carolau a gynhaliwyd yn yr eglwys eleni. Casglwyd swm o dros £500 ac aeth y cyfanswm yma at apêl trychineb y Phillipines. Diolch i Bill Fillery am gymryd y gwasanaeth, i'r holl ddarllenwyr, i Paula Barker yr organydd a Llinos ac Elonwy Thomas, Awelon, am eu canu bendigedig. Pleser oedd gwrandao arnynt.

Croeso

Estynnwn groeso twymgalon i Jeffrey a Linda Williams sydd newydd symud 'nôl i'n plith yn dilyn rhai blynyddoedd yn rhedeg tŷ bwyta Yr Hen Nunnery yn Ninbych y Pysgod. Mae'n braf eich cael yn ôl.

Gwellhad Buan

Trist oedd clywed fod Glennis Gratwick, Sŵn y Ddôl, wedi cael damwain pan yn Manceinion i ddathlu ei phen-blwydd cyn y Nadolig. Fe syrthiodd Glennis oddi ar y pafin gan dorri ei hysgwydd yn wael. Cafodd driniaeth mewn ysbyty yn Manceinion. Gwellhad buan iddi.

Cydymdeimlad

Estynnwn gydymdeimlad dwys â Jamie Herschel, Nant y Felin a'i deulu, ar farwolaeth ei frawd yn ddiweddar. Pob bendith iddynt.

Parti Nos Galan

Dathlwyd Nos Galan eleni yn y

neuadd fel arfer ond siomedig oedd y nifer a drodd allan. Er hynny cawsom noson ddifys a chyfeillgar gyda phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch i Dai, Llanfair Fach, am drefnu miwsig y noson.

Da iawn Ffion

Llongyfarchiadau cynnes i Ffion Quan, Sŵn yr Afon, ar gael ei dewis i redeg i dîm Cymru yn Antrim, Gogledd Iwerddon, ar Ionawr 4ydd ac am redeg mor arbennig yno. Mae'n glod mawr iddi hi, y teulu a'r ardal. Rydym i gyd yn dilyn dy yrfa gyda diddordeb mawr. Dal ati Ffion.

Clwb Cant

Dyma ganlyniadau clwb cant y gaef eleni:

£20 Mrs H Scarfe. £10 Lesley Stevens. £10 Rhydian Quan. £10 Rene Burgess. £5 Katie a David James. £5 Ceris Quan. £5 Liz Mercer £5 Julian Bransden. £5 Deborah Jones. £5 Sara John



Cinio Nadolig

Ar ddydd Llun, Rhagfyr 2ail, cynhaliwyd cinio Nadolig i bobol hŷn Llanfair a Chellan fel rhan o'r ymgyrch newydd i gael bobol allan o'u cartrefi er mwyn cymdeithasu a mwynhau cwmni. Roedd yn agos at ugain wedi ymgynnull a chawsom ginio arbennig o flasus wedi ei baratoi gan Linda o Lanfair ac Amanda o Gellan. Ni fyddai gwesty moethus wedi gallu gwneud yn well. Diolch o galon iddynt am eu gwaith caled. Bydd y grŵp yn ail gychwyn ar ddydd Llun bob pythefnos yn fuan.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd y cinio blynyddol eleni yn y Talbot yn Nhregaron. Cafodd pawb ginio arbennig o flasus a noswaith o gymdeithasu mewn ystafell gysurus a chynnes. Diolch i Iola am drefnu'r noson.

Pen-blwydd Hapus

Llongyfarchiadau cynnes i Gwyneth Jones, Nouadd, sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn fuan. Gobeithio y cewch chi amser braf yn dathlu.

O Dan Y Wenallt

Rydym yn ffodus iawn yn Llanfair i gael llawer o bobol talentog yn byw yn ein pentref. Un ohonynt yw John Metcalf, Tŷ Yfory. Ef yw y prif gyfansoddwr operâu yng Nghymru. Dros y blynyddoedd diwethaf mae John wedi bod yn brysur yn cyfansoddi cerddoriaeth i waith Dylan Thomas, 'O Dan y Wenallt'. Mae ei gerddoriaeth yn cyfuno iaith farddonol Dylan Thomas â cerddoriaeth offerynnol hen a newydd, miwsig byw ac wedi ei recordio, gyda chriw o dri ar ddeg o gantorion a chwaraewyr offerynnau yn creu gwledd i'r glust. Bydd yn cael ei berfformio yn Saesneg yn Abertawe ar Ebrill y 3ydd, 4edd a'r 5ed yng Nghanolfan y Celfyddydau Taliesin, ac ar yr 8fed yn Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau. Llongyfarchiadau cynnes iawn i John. Dewch yn llu i'w gfnogi.

Llongyfarch

Llongyfarchiadau cynnes i Robert Entwistle, Y Siop, Llanfair ar ennill ei PhD mewn peirianyddiaeth yng Nghaerlŷr. Lwc dda iddo yn ei yrfa yn y dyfodol.

Pencampwr

Llongyfarchiadau i Daniel John, ŵyr Arwyn ac Eleri Pentre, ar ei lwyddiant i fod yn bencampwr dros Gymru o dan 13 yn y ras 200m dan do. Da iawn, Daniel.

Cydymdeimlad

Hoffem estyn cydymdeimlad â Deborah Jones, Llanfair Fach a'i theulu ar golli ei Modryb Nans, chwaer ei mam. Roedd Modryb Nans wedi treulio'r rhan fwyaf o'i bywyd yn dysgu ac yn byw gyda'i theulu yn Leamington Spa. Bydd ei hangladd nôl yn ei chynefin yn Nhregaron ac yn breifat.

Llongyfarchiadau

Pleser mawr yw clywed am lwyddiannau pobol ifanc y pentref yn eu gyrfaedd neu'u diddordebau. Llongyfarchiadau cynnes iawn i Edward Branston, Fachddu, ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth Myfyriwr y Flwyddyn yng Nghynllun Addysg Peirianyddiaeth Cymru. Hefyd dymunwn yn dda iddo yn ei arholiadau lefel A gan ei fod wedi cael cynnis lle i astudio yng Nghaergrawnt. Da iawn ti.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmman, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

7		8		2	
9			1	8	
		2			7
6	4		9	5	
	5				9
	2		1	4	
3				7	
		2	8		1
	8		4		5

Atebion Swdocw mis Rhagfyr:

Enillydd mis Rhagfyr - Llongyfarchiadau i Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder a diolch i'r ddau arall am gystadlu: Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder a Teifion Williams, Bronallt, Llangadog.

6	4	5	7	8	2	1	3	9
7	9	1	3	6	5	2	4	8
2	8	3	4	9	1	6	7	5
1	2	6	5	7	4	9	8	3
8	5	9	2	3	6	7	1	4
3	7	4	9	1	8	5	2	6
9	6	7	8	2	3	4	5	1
5	1	8	6	4	7	3	9	2
4	3	2	1	5	9	8	6	7

Oes angen cyngor arnoch?

Mac gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyll, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Llogi Peiriannau G + C Plant Hire

Gwilym Evans
25 Heol-y-Dderi
Llanybydder
07971041676

Cysylltwch â ni am unrhyw
fath o waith ceibo a mân
waith sifil



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
- * Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Cwmsychpant

Cartref Newydd

Cyn y Nadolig symudodd Bryn,
Sian a Wil Ifan i'w cartref newydd
yn Tawel.

Hefyd croeso mawr i ddeiliaid
newydd Blaenllain – gobeithio y
byddwch i gyd yn hapus yn ein plith
yn y Cwm!

Gwellhad Buan

Mae'n hyfryd i weld Brian Potter,
Rhoslwyn o gwmpas unwaith yn
rhagor yn dilyn ei arhosiad yn yr
ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cofiw'n am Mrs Ella Davies, Waun
a Vernon yn eu profedigaeth sydyn
o golli merch a chwaer annwyl iawn
yn Beryl Williams o Talyllchau.
Hefyd cofiw'n am deuluoedd
Caerwenog a Maesllwyd yn yr
un brofedigaeth wrth iddynt golli
modryb hoffus ar ddiwedd 2013.

Genedigaeth

Daeth newyddion da i aelwyd
Maesnewydd yn ystod canol Ionawr
pan glywodd Mary ac Eirwyn Davies
fod ŵyr bach newydd wedi cyrraedd
yn ddiogel – Guto Hedd, mab i
Edward a'i briod Lowri yn Llanbed
a brawd bach newydd i Ifan Teifi.

Hefyd llongyfarchwn Wyn Davies,
Tyngrug Uchaf ar ddod yn dad-cu i
Nansi Alis yn Nhregaron, sef mab
i James a Jo-Alice ac hefyd i Mrs
Nancy Davies ar gael gor-wyres fach
newydd hefyd yn Nansi fach.

Siarad Cyhoeddus y C.Ff.I.

Llongyfarchiadau gwresog i
bob un o'r ardal a fu yn cymryd
rhan ac yn llwyddiannus yng
nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus
Cymraeg y Ffermwyr Ifanc yn ystod
y mis.

Diolch

Dymuna Ella Davies, Y Waun
a'r teulu ddiolch i bawb am bob
arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu
profedigaeth o golli Beryl.



Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

**Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau**

MIS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Cofio Megan

"Dim ond jocan ydw i." A'r llygaid duon yn llawn chwerthin
ar ôl dweud neu wneud rhywbeth i dynnu coes.

Roedd y sylw bach yn hollol nodweddiadol o Megan Castell
Du ... yr hwyl a'r chwerthin, ar un llaw, a'r awydd ar y llall i
wneud yn siŵr nad oedd hi'n tramgwyddo neb.

Dros y blynyddoedd, fe fuodd yna sawl cyfle i ddweud, "Dim
ond jocan ydw i", a stafelloedd a sgysrsiau'n diuno pan oedd
Megan yn ymuno â nhw.

Ond, gwaetha'r modd, nid jocan oedd hi pan ddywedodd am
ei salwch ofnadwy a hithau wedi cael poenau ers blynyddoedd
heb wybod yn iawn beth oedd yn bod.

Roedd y misoedd ar ôl hynny'n dweud mwy am Megan nag
y gallai dim arall. Dim chwerwder, dim defnyddio salwch yn
esgus, dim tosturio trosti hi ei hunan.

Fe fydd pobol yn aml yn dweud bod hwn a hwn neu hon a
hon yn ddewr wrth wynebu salwch. Ond, nid dewrder oedd gan
Megan; roedd yn llawer mwy na hynny.

Roedd ei blas hi at fywyd yn fwy amlwg nag erioed wrth
wynebu marwolaeth a, do, mi wnaeth sawl jôc, hyd yn oed am
ei salwch. Nid actio bod yn wrol oedd hynny ond penderfyniad
dwfn nad oedd dim byd am ei sigo.

Fyddai ildio ddim wedi croesi meddwl Megan, na rhoi'r
gorau i weithio a bod yn brys. Hyd at y dyddiau ola' i gyd,
roedd hi'n dal yn fwrlwm; ychydig gwelwach a llai o gorff, ond
y llygaid yn dal i loywi.

Mae pobol yn dal i sôn fel yr oedd hi adeg cinio Nadolig
yr henoed yn Y Grannell, a hithau wedi ymuno â nhw ... yn
llawn sgwsio a hwyl fel arfer, yn mynd o un bwrdd i'r llall,
yn llawchedd gyda phawb ... a, siŵr o fod, yn poeni am ieuchyd
pawb arall.

Ar ryw ystyr, roedd gweld Megan yn codi cywilydd.
Cywilydd o feddwl am ein hagweddu crebachlyd ni at
gynifer o broblemau bychain bywyd. Ar ystyr arall, roedd yn
gwefreiddio.

Un diffiniad o wefr ydi rhywbeth sy'n eich syfrdanu chi a
gwneud i chi weld bywyd o'r newydd a'i werthfawrogi yn fwy
nag erioed o'r blaen. Yn ei ffordd ddi-lol ei hun, dyna a wnaeth
Megan. Ac mi alla' i ei chlywed hi'r funud yma'n wfftio at y
fath ddisgrifiad. "Ti'n jôcan" fyddai hi wedyn.

Yn yr oriau ola', roedd Mali'r ast fach yn gorwedd wrth ei
hymyl, yn gwarchod at y diwedd, yn trio gwneud yn siŵr na
fyddai dim drwg yn dod iddi. Mi fyddai ei holl ffrindiau wedi
gwneud yr un peth petaen nhw'n meddwl am funud y gallai
hynny gadw'r aflwydd draw.

Mae yna deyrngedau ym mhob angladd ac mae gan bawb eu
brawddegau bach tawel i fynegi cydymdeimlad. Ond, weithiau,
mae teyrngedau'n ddyfnach na'i gilydd, yn deyrngedau i'r
cymeriad go iawn ac nid i'r person arwynebol.

Pan fydd ffrindiau a chydabod o bob oed a chyfnod
yn dweud yr un peth, rydech chi'n gwybod eu bod nhw'n
ddidwyll. A'r un peth yr oedd pawb yn ei gofio am Megan ... yr
hwyl, y sbri, y ffyddlondeb a'r bersonoliaeth agored, braf.

Ffrindiau wedi-setlo oedden ni ... a ninnau wedi symud i
Lwynbedw a Phenynant bron yr un pryd yn union. Ffrindiau
cyfnod plant a meddwl am ymddeol, heb ddim ond clywed
ambell stori gan ffrindiau ieuencid am ddireidi Megan slawer
dydd.

Ond roedd y Fegan ifanc honno'n dal i fod ym Megan y
flwyddyn ola'. Ac roedd hi'n dal i fod yn fyw ym meddyliau ei
ffrindiau wrth inni orfod ffarwelio.

Ynon ni nid aiff yn hen, - ynon ni
Fe ddaw'n ôl yn llawen
I hawlio darn o heulwen
Ag anwes gynnes ei gwên.

Llanllwni

C.Ff.I. Llanllwni Siarad Cyhoeddus

Cafwyd diwrnod gwefreiddiol eleni eto gan aelodau Clwb Llanllwni yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus a darllen Sir Gaerfyrddin. Yng nghystadleuaeth y darllen, daeth tîm Sioned Howells (cadeirydd), Sioned Bowen a Jac Jones yn fuddugol, a tîm Mared Phillips (cadeirydd), Siriol Howells a Nerys Jones yn drydydd. Cafodd Sioned Howells a Sioned Bowen eu dewis i fod yn nhîm Sir Gaerfyrddin a fydd yn mynd ymlaen i gystadleuaeth Cymru ddiwedd mis Mawrth, gyda Mared Phillips wrth gefn. Cyflwynwyd y cwpan am yr unigolyn gorau i Sioned Howells.

Yn adran iau y siarad cyhoeddus, daeth tîm Betsan Jones (cadeirydd), Owain Davies (siaradwr) a Mared Phillips (diolchydd) yn fuddugol, gyda tîm Sioned Bowen (cadeirydd), Sioned Howells (siaradwr) a Cathrin Jones (diolchydd) yn bumed. Cafodd Betsan a Mared eu dewis i fod yn rhan o dîm Sir Gaerfyrddin, gyda Sioned Howells wrth gefn fel prif siaradwr.

Yn yr adran ganol, daeth tîm Ifor Jones, Anwen Jones, a Ffion Rees yn ail. Bydd Anwen Jones yn cynrychioli Sir Gaerfyrddin yng nghystadleuaeth Cymru, gydag Ifor a Ffion wrth gefn. Diwrnod llewyrchus iawn i'r clwb. Dymuna'r aelodau ddolch yn ddiffuant i Mrs Marina Davies am hyfforddi'r ddau dîm darllen, ac i'r Parchedig Ganon Eileen Davies am hyfforddi'r ddau dîm adran iau a'r tîm adran ganol yn y siarad cyhoeddus. Diolch, a phob lwc i Sioned Howells, Sioned Bowen, Mared Phillips, Betsan Jones ac Anwen Jones ar lefel Cymru ddiwedd mis Mawrth.

18 oed

Yn ystod mis Ionawr dathlodd Dafydd Rhys Evans, Ffynnonau ei ben-blwydd yn 18 oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â'r Canon Aled a Mrs Eirian Williams, Cwmawel ar farwolaeth ei fam, sef Wini, a hithau ar drothwy ei 100 oed. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Llanbadarn Fawr cyn mynd i'r Amlogsgfa yn Aberystwyth.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Phillip Thomas, Llysalaw ar ddod yn dad-cu unwaith eto ar ôl genedigaeth Robyn Gwen, merch fach i Gayle a Mark.

Diolch

Dymuna'r teulu'r diweddar Dorian Walters, Werenfach ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad mewn gair a

gweithred ac am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth sydyn.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Cafwyd gwasanaethau bendithiol adeg y Nadolig, gyda saith llith a charol ar y dydd Sul, a gwasanaeth cymun ddydd Nadolig.

Mae wedi bod yn ddechrau blwyddyn prysur gyda'r Eglwys yn cymryd rhan yng Ngŵyl Calan Hen yn Eglwys Llandysul yn ôl ein harfer. Aeth tyrfa gref, yn oedolion a phlant, i'r ŵyl, a braf yw gweld pob oed yn cyd-dynnu a chydweithio. Cawsom ein holi gan y Canon William Richards. Ar y Sul canlynol, roedd Gwasanaeth y Plygain i'r ddeoniaeth yn Nhregaron. Aeth grŵp o aelodau'r Eglwys ymlaen i ganu gyda phum grŵp arall. Roedd yn cael ei chynnal yn y prynhawn am y tro cyntaf, a bu'n dra llwyddiannus. Mor bwysig yw inni sicrhau parhad y ddwy ŵyl yma.

Mae aelodau Eglwys Sant Luc yn estyn ein cydymdeimlad diffuant a Peter a Gwen Wernien Fach ar golli eu mab. Rydych yn ein gweddïau.

Colled arall a ddaeth i'n plith yw marwolaeth Mrs Winifred Williams, gynt Tŷ'r Wennol, Llanllwni. Roedd hi wedi ymgartrefu ers cyfnod yng nghartref Min y Môr, Aberaeron. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r Canon Aled ac Eirian Williams a'r teulu. Coffa da amdani.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Iestyn Davies ac Efa Evans i Ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac yn hapus iawn.

Diolch i'r Cyngor Bro am eu rhodd ariannol hael tuag at gostau'r ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr.

Diolch i bawb a gyfrannodd pan fuom o amgylch y pentref yn canu carolau cyn y Nadolig. Casglwyd £265.87 tuag at gronfa'r ysgol.

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus yn yr ysgol ganol mis Rhagfyr a gafodd ei drefnu ar y cyd â'r Ysgol Feithrin. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y digwyddiad.

Aeth yr Adran Iau i ymweld ag Amgueddfa Abergwili ar ddechrau'r tymor i weld arteffactau'r oes Fictoria.

Byddwn yn cynnal noson Cawl a Chân yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Mawrth 7fed am 7yh pan bydd y plant yn ein diddanu. Croeso i bawb ymuno – cofiwch ddod â phowlen a llwy!

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol.

Mis Rhagfyr 2013:

1af - £50 - 294 - Hayley James, Brynhegog, Llanllwni. 2ail - £40 - 121 - Tony Lloyd, 3 Bryndulais, Llanllwni. 3ydd - £30 - 118 - Tracey

Pendle, Bro Nantlais, Gwyddgrug. 4ydd - £20 - 95 - Bwydydd Rees Feeds, The Mill, Cwrtnewydd. 5ed - £10 - 183 - P.J. Wilson, Blaendyffryn, Llanllwni. 6ed - £5 - 222 - Steffan Jones, Lllynnant, Llanllwni.

Mis Ionawr 2014:

1af - £10 - 219 - Moira McRae, Awel y Grug, Llanllwni. 2ail - £5 - 29 - Rhodri Williams, 31 Heol y Gaer. 3ydd - £5 - 90 - Owain Evans, Bryndulais.



Alwena Mair Owen yn llwyddiannus yn canu a llefaru yn eisteddfod Abergorlech; cyntaf am adrodd yn eisteddfod Cernarh ac hefyd yn ennill Tlws yr Ifanc am fod y cystadleuydd mwyaf addawol yn yr adran lefaru o dan 18oed, ac yn ail am ganu.

Silian

Eglwys Sant Sulien

Hoffai Ann a Susan (Gelligwenyn gynt) ddolch o galon i bawb a ddaeth i de i Elenydd Llambled er mwyn codi arian at Eglwys Sant Sulien yn ddiweddar.

Gwerthfawrogn yn fawr eich cefnogaeth a'ch haelioni. Diolch hefyd i'r gweinyddesau sef Margery, Menna, Nia, Meryl, Betsan a Heledd a fu mor brysur yn sicrhau fod pawb yn cael cwpanaid a chacen yn ystod y prynhawn! Mae'n braf datgelu fod y cyfanswm a godwyd erbyn hyn wedi cyrraedd £804. Diolch i bawb!

Pen-blwyddi arbennig

Dathlodd Dewi Uridge, Coedparc ei ben-blwydd yn 18 oed ac hefyd yn ystod y mis dathlodd ei fam-gu Mrs Bethan Morgan, ei phen-blwydd hithau yn 80 oed.

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig er mwyn rhoi
neges o ddolch ym
Mhapur Bro Clonc
os gwelwch yn dda.

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!

W.D.
Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Macchydol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS
& BOURNE
CYFREITHWYR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llangybi a Betws

Merched y Wawr

Cawsom ginio Nadolig rhagorol yn y Sosban Fach, mewn awyrgylch gartrefol a chyfeillgar, a phawb wedi mwynhau eu hunain. Atgoffodd y llywydd Gwyneth Jones fod y cyfarfodydd i ddechrau am 7.00y. h. eleni. I ddiweddu'r noson cyfnewidiwyd anrhegion.

Ym mis Ionawr cawsom arddangosfa o waith creadigol gan ddwy wraig ddawnus o Landdewi. Ailgylchu oeddynt ond roeddent yn medru creu pethau defnyddiol ac addurniadol allan o nwyddau y byddai llawer ohonom wedi eu taflu i'r sbwriel. Diolchwyd iddynt yn gynnes gan Gwyneth Evans am greu arddangosfa hardd a defnyddiol. Rhoddwyd y raffl gan Glenys Lloyd ac fe'u henillwyd gan Gwyneth Jones, Maria a Gwyneth Evans. I ddiweddu'r cyfarfod cawsom baned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Deborah a Gwyneth Jones. Yn y cyfarfod nesaf rydym yn disgwyl y Bon. Selwyn Walters i sôn am y Nyrs Ella Richards. Rhoddwyd cyfraniad tuag at Apêl Bopath.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mrs Janet Evans, 1 Bro Dulais yn ei phroffedigaeth ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar. Cydymdeimlir hefyd â holl aelodau eraill y teulu.

Hamdden

I ddathlu'r flwyddyn newydd aethom am bryd o fwyd i'r Hedyn Mwstard ac yno cawsom wledd fendigedig mewn awyrgylch hyfryd a chwmni diddan, a phawb wedi eu ddiwallu. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch yn wresog i'r bwyty ac i'r gweinyddwyr am fwyd godidog a'r gwasanaeth hyfryd gan Barry Williams. Yn lle'r raffl arferol cyfnewidiwyd anrhegion. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 7fed am 2.00y.p. yn Ysgol Y Dderi pryd y disgwylir Mrs Dinah Gibbons i roi hanes ei chasgliad o 'paper weights'. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Y Dderi

Gwisgodd y staff a'r plant fel eu hoff arch-arwyr, a bu Sam Tân,

Peppa Pinc a Mr Urdd yn Ysgol Y Dderi!

Ar ddiwedd yr hanner tymor aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i weld pantomeim Peter Pan yn Abertawe a chafwyd amser bendigedig.

Bu holl ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 yn cymryd rhan mewn twrnament rygbi tag yn Llanbed yn ddiweddar. Bu'r disgyblion yn ymarfer eu sgiliau dan ofal Bryn o Campau'r Ddraig, felly diolch yn fawr iawn iddo am drefnu.

Wrth astudio Meicro-organebau aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 allan i'r goedlan i bobi bara gyda burum, yn ffwrn fara allanol – gweithgaredd addysgiadol a blasus iawn. Aethant i Amgueddfa Werin Aberystwyth i ddathlu Diwrnod Pythagoras. Roedd yr adran fathemateg o'r brifysgol wedi paratoi lluo o weithgareddau mathemategol diddorol iddynt eu hastudio.

Diolch i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu noson Cyri a Chwis yn ddiweddar. Roedd y cyri yn flasus tu hwnt, a diolch i Ann ac Odwyn am baratoi'r cwis.

Bu'r ysgol yn dathlu Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd yr Urdd. Roedd pawb wedi gwisgo'r lliwiau priodol, ac uchafbwynt y dydd oedd ymweliad Mr Urdd.

Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i dwrnament hoci, a thwrnament pêl rwyd y cylch yn ddiweddar. Ennill, colli a gemau cyfartal oedd hanes y timau, a phawb wedi cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau.

Bu'r Ysgol yn cymryd rhan yn Niwrnod Cyfri adar yr RSPB eleni unwaith eto. Mae'n gyfle gwych i bawb i ddysgu enwau Cymraeg ein adar brodorol, a chafodd pawb dipyn o hwyl hefyd. Y fwyalchen ddaeth i'r brig eto eleni yn Ysgol Y Dderi.

Ar ddydd Gwener, 24ain o Ionawr, daeth Mark Williams AS i ymweld â'r ysgol. Cafodd ei dywys o gwmpas y dosbarthiadau i weld yr amrywiaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar waith, a bu'r Cyngor Ysgol yn holi cwestiynau amrywiol iddo.



Eirian a Caryl Griffiths, Glandulas, Llangybi gyda'u heffer a anwyd ym Mai 2012 yn ennill pencampwriaeth y Da Duon Cymreig yn y Sioe Aeaf yn Llanellwedd, a hynny ar y tro cyntaf iddynt gystadlu yn y Sioe Aeaf. Prynwyd hi gan y bwtsheriaid John Williams, Conwy.



Fel rhan o'u thema Plant y Chwyldro bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn dysgu am fywyd yn ystod Oes Fictoria. Aethant am ddiwrnod i Lanerchaeron i brofi naws ac awyrgylch Nadolig Oes Fictoria, cawsant eu tywys o gwmpas y plas, a chawsant weithdai i greu addurniadau Nadolig. Bu cwmni Theatrix yn perfformio A Christmas Carol gan Charles Dickens. Cafodd y stori ei chyfleu yn gelfydd drwy sioe bypedau cysgod. Cynhaliwyd gweithdy wedyn i'r plant gael y cyfle i greu pypedau eu hunain. Uchafbwynt y thema oedd cynnal te parti i enwogion o gyfnod Oes Fictoria. Roedd y staff a'r plant wedi gwneud ymdrech fawr i wisgo i fyny, ac roedd Charles Darwin, Florence Nightingale, Grace Darling, Charles Dickens, Emeline Pankhurst, Dic Penderyn, Betsi Cadwaladr a hyd yn oed y Frenhines Fictoria wedi dod i'r ysgol!




Y tymor hwn, Oriel yw thema blwyddyn 5 a 6, a chawsant y fraint o deithio i Lundain, ymweld â'r Tate Britain a'r Tate Modern, gan deithio mewn steil ar gwch rhwng y ddau Oriel byd enwog, gan weld Big Ben, adeilad MI5, Tower Bridge a'r Shard, sef adeilad talaf Prydain. Diwrnod bythgofiadwy yn llawn profiadau cyffrous.

Fel rhan o'u gwaith thema ar Arch-arwyr, daeth staff Brigâd Dân Llanbed i'r ysgol i siarad am eu gwaith gyda phlant y Cyfnod Sylfaen.



Dyfarniad y Darllenydd

A ddaeth Siôn Corn â llyfr fel anrheg Nadolig i chi? Mae'n brofiad braf hamddenol cael ymgolli mewn llyfr a hynny yn oes yr holl declynnau digidol. Does dim angen sicrhau bod digon o fatri gyda chi na chael eich rhwystro gan e-bost na nodyn bodyn. Dim ond troi'r tudalennau yn eich pwysau. Paradwys!



Dau hunangofiant a ddarllenais i dros yr Ŵyl - Un Dafydd Hywel: Hunangofiant Alff Garnant, ac un Geraint Lloyd: Y Dyn Tu ôl i'r Llais. Dau ddyn adnabyddus ymhlith y Cymry Cymraeg. Actor profiadol sydd wedi bod ar ein sgrin ni dros y degawdau ar un llaw a darlledwr cyfarwydd lleol o sir Geredigion ar y llaw arall.

Cefais flas aruthrol wrth ddarllen hanes Dafydd Hywel. Mae'n rhamantu cymaint am ei ardal enedigol sef Dyffryn Aman. A finnau wedi bod yn gweithio yno ers ugain mlynedd bellach, roedd yn ddiddorol dilyn ei atgofion am y cymeriadau a'r digwyddiadau adeg ei blentyndod yn yr ardal arbennig honno. I ddweud y gwir mae'n sôn mwy am Ddyffryn Aman nag am unrhyw ardal arall y bu'n byw

ynndi yn ystod ei oes.

Bu Dafydd Hywel yn gymaint rhan o fywydau fy nghenedlaeth pan oeddem yn blant. Ef oedd yn actio cymeriad Caleb yn y gyfres 'Miri Mawr' ar HTV. Diddorol oedd darllen am yr hwyl wrth baratoi'r cyfresi hynny. Ef oedd Jac, gŵr Sabrina yn yr opera sebon 'Pobol y Cwm' wedyn. Cofiw'n amdano hefyd yn brif gymeriad yn y gyfres We are Seven a ffilmiwyd yn Llanddewi Brefi.

Dros y blynyddoedd mae disgyblion Ysgol Dyffryn Aman wedi bod yn mwynhau pantomeim blynyddol Cwmni Mega yn Sinema Brynaman. Cofiaf am Dafydd Hywel yn ein cyfarch wrth y fynedfa a'n tywys i'n seddau. Mae'n sôn yn ei lyfr am yr ymateb anhygoel i'r cynrychiadau rheiny dros y blynyddoedd.

Mae'n cyfeirio ychydig at y teulu yn y llyfr. Nid yw'n dweud llawer am ei blant a'i wyrion, ond mae'n dangos parch at ei rieni a'i wraig Betty. Cyfeiria'n annwyl at Bessie ei fam-yng-nghyfraith o Lanwnnen. Adrodda hanes y briodas yng Nghapel Alltyblaca hefyd a oedd yng ngofal y Parchedig D. Jacob Davies a thrist yw ail fyw'r hunllef pan laddwyd Walter, brawd Betty mewn damwain car yn ardal Ciliau Aeron.

Yr hyn sy'n gwneud y llyfr hwn yn unigryw yn fy marn i yw gonestrwydd yr awdur. Er ei amlygrwydd fel actor ac er yr holl enwau mawr y mae'n sôn amdanynt, mae Dafydd Hywel yn hollol agored ynglŷn â'i fywyd personol. Do, fe fu'n gaeth i'r botel a do fe ymadawodd â'i wraig tra'r oedd y plant yn fân, ond mae'n delio â hyn yn sensitif ac yn gall yn y llyfr yn fy marn i.

Mae llais Geraint Lloyd yn gyfarwydd i ddarllenwyr Clonc ers blynyddoedd. Rydym yn gyfarwydd ag e fel y sgweier ym Mhantomeim Felinfach a bu'n boblogaidd iawn fel cyflwynydd ar Radio Ceredigion yn y dyddiau pan oedd yr orsaf honno'n gwasanaethu'r gymuned ddwyieithog. Mae adrannau ganddo yn y llyfr ar gyfer y penodau hyn yn ei fywyd.

Diddorol yw darllen am hanes y darlledwr o'i fagwraeth ym mhentref Lledrod tan ei fod wedi adnewyddu cartref y teulu a dychwelyd i fyw yno erbyn hyn gyda'i deulu bach newydd ei hunan.

Ar hyd y daith honno, sonia am yr amrywiaeth o yrfaoedd a gafodd a'r ffaith na fu'n rhaid iddo ymgeisio am yr un swydd erioed.

Adrodda'n syml am y dor priodas a fu yn ei fywyd ef hefyd. Sonia'n addfwyn am ei rieni ac aelodau eraill ei deulu hyd at y cyfnod diweddar.

Roeddwn yn arbennig o hoff o'r ffordd y neilltuir rhan o'r llyfr i ddangos y ffordd y cynhyrchir ei raglenni o Aberystwyth ar Radio Cymru a sut y mae e wedi llwyddo i boblogeiddio agweddau o'r orsaf honno fel Bois y Loris er enghraifft.


Ychydig iawn o bobl sy'n ymwybodol y gellir galw Geraint Lloyd yn ddyn busnes, ond mae hynny'n wir. Deallwn am Sian, ei gydweithwraig dros y blynyddoedd ag ef, yn sefydlu busnes er mwyn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer Radio Cymru ac erbyn hyn yn rhedeg siop lwyddiannus yn y dref glan môr. Mae e'n weithiwr caled ac yn gorfod aberthu digwyddiadau gyda'r hwyr erbyn hyn er mwyn darlledu rhaglen nos ar y radio.

Mor braf yw darllen am rhywun fel hyn â'i draed yn sownd ar y ddaear o hyd. Gŵr o gefndir gwledig a fagodd hyder wrth ymuno â'r Clwb Ffermwyr Ifanc Lleol, ac un sydd wedi llwyddo i aros yn ei filltir sgwâr gan gyfrannu at fywydau dyddiol pobl Gymru gyfan.

Dau lyfr y gwnes i fwynhau eu darllen yn fawr iawn. Dau lyfr a llawer yn debyg rhyngddynt hefyd. Y ddau berson yn gymeriadau adnabyddus ac yn eu llyfrau yn dweud eu barn am wahanol bynciau. Dafydd Hywel yn fwy na Geraint Lloyd efallai. Y ddau wedi cael bywoliaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn y ddau lyfr yn cael rant am yr iaith honno. Gwahanol farn i raddau, ond yn defnyddio'r cyfrwng i ddweud eu dweud.

Dafydd Hywel, Hunangofiant Alff Garnant, Gwasg Gomer, £9.99
Y Dyn Tu ôl i'r Llais, Geraint Lloyd, Y Lolfa, £9.95

Dylan Lewis



Llanybydder

Diolch

Dymuna Irene, 47 Heol-y-Gaer ddiolch i bawb am y cyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar. Gwerthfawrogir caredigrwydd pob un.

Dymuna Olga, Coedparc ddiolch i bawb am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuna Doris a Graham Wilson ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cyfarchion, y cardiau a'r blodau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Ddiemwnt ym mis Rhagfyr.

Dymuna Elen a Dylan, 1 Tynyffordd ddiolch am yr holl gyfarchion, cardiau a rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar

enedigaeth Elliw Grug ar Ragfyr 6ed. Diolch yn fawr iawn.

Cerdd

Llongyfarchiadau mawr i Elin Davies, Tyngrug Isag, Cwmsychpant am lwyddo mewn arholiad Piano Gradd 5 ac Ysgrifenedig Gradd 4, dros adeg y Nadolig. Da iawn ti Elin.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Elen a Dylan Davies, 1 Tynyffordd, Rhydybont ar enedigaeth merch fach, Elliw Grug, ar Ragfyr 6ed. Dymuniadau gorau i chwi.

Merched y Wawr

Fis Tachwedd cynhaliwyd noson Nadoligaidd yn festri Aberduar pryd daeth Mrs Doreen Sisto o Abergorlech atom i ddangos addurniadau a chardiau Nadolig

o'i gwaith ei hun. Cafwyd noson hwylus a diddorol. Croesawyd Mrs Sisto gan Heather. Beti a Bethan oedd yng ngofal y te.

Enillydd y raffl oedd Lynda, y wobr yn rhoddedig gan Caroline. Gorffennwyd y noson drwy ganu cân y Mudiad.

Ar nos Wener 6ed o Ragfyr aethom fel aelodau i ddathlu'r Nadolig yn y Daffodil Penrhiwllan.

Cyn gwledda mae'n arferiad ers llawer blwyddyn bellach gan aelodau'r gangen i fynd i ganu carolau yng Nghartre 'r Henoed yn Maes-y-Felin, Drefach. Eleni braf oedd cael cwmni Llywydd Merched y Wawr, Mrs Gill Griffiths, i ymuno â ni.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb ac i'r wraig wadd gan Mrs Nans Davies, ein Llywydd. Ar ôl gwledda cawsom anerchiad

ysbrydoledig gan Mrs Gill Griffiths. Soniodd am ei chysylltiad agos â'r ardal gan iddi gael ei geni yn Llanybydder a byw yno tan yn 4 oed. Roedd ei thad-cu yn brifathro yn yr ysgol gynradd leol. Cyn troi am adre bu pedwar aelod oedd yn ddisgyblion yn yr ysgol gyda'i thad-cu yn adrodd penillion yn hel atgofion o'r adeg hynny, a hefyd buom yn edrych ar hen luniau o ysgol Llanybydder a chapel Rhydybont ble'r oedd ei thad-cu yn flaenor ac wedi'i gladdu.

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Lowri Wilson, Glanrhyd a Carwyn Gregson o Gwmann ar eu dyweddïad. Pob dymuniad da i chi'ch dau ar gyfer y dyfodol.

Pencarreg

Cydymdeimlo

Gyda thristwch yr ydym yn ymestyn ein cydymdeimlad â theulu Richard Evans, Pantyfen. I bawb ym Mhencarreg fe'i adnabyddir fel Dic Blaenbidernin. Yn un o wir feibion y mynydd. Cafodd ei eni a threuliodd ei oes yn dilyn crefft dynol ryw, amaethu ym mro'r grug a'r awyr iach. Roedd Dic yn gymeriad yn meddu ar hiwmor iach. Roedd yn gneifiwr a hanner. Yn marchogaeth i fyny a lawr llechweddau serth yn ddi-hid, doedd dim angen cyfrwy, cymaint oedd ei ddawn yn trin ceffyl. Roedd yn hael tuag at gefnogi Eglwys Sant Padrig ac yno daearwyd ei weddillion ym mynwent ei gyndeidiau ar Ragfyr 11eg 2013. Gyda colli Dic daw tristwch wrth feddwl bydd mynydd Pencarreg a chân yr ehedydd wrth ddringo tua'r nefoedd yn gadael gwacter am ffordd o fyw sydd yn prysur myned heibio. Cysga'n dawel Dic.

Gwasanaeth Carolau Plant Pencarreg

Noswyl Nadolig ac Eglwys Sant Padrig yn llawn o blant ac oedolion yn dathlu gŵyl y geni, daeth llawenydd unwaith eto i'r cysegredig fan rhwng y muriau hynafol.

Canwyd carolau traddodiadol megis I orwedd mewn preseb ac O Deuwch Ffyddloniaid, ynghyd â nifer o eitemau gan y plant lleiaf a fu'n canu am Droï y pwddin, pob un ohonynt gyda llwy bren a phadell yn actio cymysgu'r blawd, y menynd a'r ffrwythau. Cafwyd nifer o ddarlenniadau hyfryd gan Caryl, Siân Elin, Carys, Danny, Mili a Jamie. Bu Caryl a Siân Elin yn sôn am traddodiadau slawer dydd ynghlwm wrth ŵyl y geni, a chyfeiriwyd at y dail bytholwyrdd a'r tri phlanhigyn sy'n dwyn ffrwyth adeg y Nadolig – yr uchelwydd, y celyn a'r iorwg – ac roedd yr eglwys wedi ei haddurno'n hardd ar gyfer yr ŵyl, ac yn ogystal â'r planhigion

bytholwyrdd roedd yna goeden Nadolig liwgar a chanhwyllau wedi eu cynnu.

Galwodd Siôn Corn heibio â'i sach ar ei gefn oedd yn drwm gan anrhegion i bob plentyn bach. I orffen, cawsom wledd a phawb wedi mwynhau'r danteithion di-ri. Hyfryd yw gweld to newydd o rieni a phobol ifanc yn llawn brwdfrydedd ac yn gwneud eu gorau i ailfywio'r pentref a sicrhau dyfodol Eglwys Sant Padrig.

Calennig

Bore Calan gwlyb a gwyntog oedd hi, diflas y tywydd ond llawen y gân ar garreg y drws pan alwodd Steffan a Carys, Coed y Llyn i gasglu calennig. Dyna roi clo ar y diflastod, fe ddiplannodd wrth weld gwên siriol y ddau blentyn a gwranddo ar eu penillion:

Blwyddyn newydd dda i chi
Ac i bawb sydd yn y tŷ;
Dyna yw'n dymuniad ni,
Blwyddyn newydd dda i chi.

Dyma'r flwyddyn wedi dod,
Y flwyddyn orau fu erio'd
O dyma'r flwyddyn newydd
A blwyddyn newydd dda i chi.

Pleser oedd cael ymestyn arian a dyrnaid o felysion i'w cynnal ar eu ffordd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau gwresog i Tanya ac Aled, Heol-y-Maes ar enedigaeth mab bychan. Brawd i Dion a Danny.

Mae'n argoeli'n dda ym mhentref Pencarreg; gyda'r holl fechgyn ifanc y cawn cyn hir ailsefydlu tîm pêl-droed unwaith eto a bydd y 'Lakesiders' fel y gelwid ers talwm ar y brig yn glou!

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Malcolm Thomas, Claret House. Rydym yn dymuno'n dda i ti Malcolm.

Colofn Cefn Gwlad

gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad
Cyfoeth Naturiol Cymru



Ymateb i'r Llifogydd

Blwyddyn Newydd Dda! Gobeithio i chi fwynhau'r gwyliu Nadolig. Tra fy mod innau wedi mwynhau cyfnod o fod adref gyda 'nheulu dros yr ŵyl, mae nifer o'm cydweithwyr wedi bod yn ddiwyd yn ymateb i lifogydd trwm ar draws arfordir Cymru. Maent wedi bod yn rhannu gwybodaeth am rybuddion llifogydd yn ogystal â chefnogi'r gwasanaethau brys i helpu'r cymunedau hynny a drawyd gan y tywydd eithafol.

Chwalwyd promenâd Aberystwyth yn y storom ar ddechrau Ionawr a symudwyd oddeutu 250 o bobl o'u cartrefi yn ystod y cyfnod mwyaf peryglus. Mewn sefyllfa fel hon, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio fel rhan o bartneriaeth aml-asiantaeth dan arweiniad yr Heddlu, sy'n cytuno ar y ffordd mwyaf addas i ymateb. Arweiniodd y peryg rhag tonnau cryf yn Aberystwyth at Ymateb Digwyddiad Argyfwng Lefel Aur, sef y lefel uchaf, oedd yn peryglu bywyd ac eiddo.

Mae gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys rhybuddio am lifogydd yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gyffredinol i ymwneud â llifogydd. Rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Tywydd i asesu'r perygl llifogydd ac i rannu'r wybodaeth yna yn effeithiol. Trwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i fonitro glawiad, lefelau afonydd, lefelau dŵr daearol ac amodau yn y môr, rydym yn cyfuno'r wybodaeth yma â data tywydd ac adroddiadau'r llanw gan y Swyddfa Tywydd. O'r wybodaeth yma rydym yn gallu darparu rhagolygon i ardaloedd lleol i hysbysu'r posibilrwydd o lifogydd, a'u difrifoldeb. Mae'r Ganolfan Darogan Llifogydd, sy'n gyfrifol am y gwaith ymchwil yma, yn gweithredu 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn i gadw golwg dros lifogydd yn genedlaethol a rhybuddio cymunedau er mwyn gwneud ymateb brys i sefyllfaoedd argyfwng.

Mae 1 o bob 6 tŷ yng Nghymru mewn perygl o lifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i helpu deiliaid tai, busnesau a chymunedau i fod yn fwy ymwybodol o beryglon llifogydd a dysgu sut i leihau eu heffaith.

Gallwch gael gwybodaeth am y rhybuddion llifogydd cyfredol yng Nghymru a Lloegr drwy:

- fynd i wefan Asiantaeth yr Amgylchedd
- ffonio Floodline ar 0845 988 1188
- lawrlwytho'r app 'Flood Alerts' o siop iTunes neu Google Play
- ymuno â grŵp 'Flood Alerts' ar Facebook

Os ydych yn pryderu eich bod dan fygythiad llifogydd, mae hefyd gennym wasanaeth uniongyrchol sy'n eich rhybuddio ymlaen llaw pan mae llifogydd o'r afonydd a'r môr yn debygol, gan roi amser i chi baratoi. Mae'r gwasanaeth yma yn rhad ac am ddim a gellir derbyn rhybuddion dros y ffôn, ar eich ffôn symudol, ar e-bost, fel neges destun SMS neu ffacs. I dderbyn y gwasanaeth yma, ffoniwch Floodline ar y rhif uchod i gofrestru.

O amgylch Llambod, y risg fwyaf o ran llifogydd yw codiad yn lefelau dŵr Afon Teifi a'i isafonydd yn ogystal â llifogydd lleol yn ymwneud â dŵr wynebol pan fo glaw trwm. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r nifer o lifogydd a'u heffeithiau. Tra bod cynnydd yn y nifer o achosion tywydd eithafol, allwn ni ddim dibynnu'n unig ar amddiffynfeydd llifogydd i'n diogelu. Ni allwn atal llifogydd – ond gallwn helpu pobl baratoi ar eu cyfer a chyfyngu'r difrod.

Mae adnoddau ar sut i baratoi ar gyfer llifogydd a camau i'w cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd, ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru - www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru prosiect ar y gweill i gefnogi cymunedau yng Nghymru i baratoi cynlluniau llifogydd. Mae Cynllun Llifogydd yn amlinellu pa gamau dylai pobl eu cymryd yn ystod llifogydd. Pan rydych wedi cwblhau cynllun, gallwn cydweithio â chi i arbrofi'r cynllun trwy ddefnyddio senario bywyd go-iawn i sicrhau ei fod yn mynd i weithio i'ch cymuned chi. Gallwch hefyd wirfoddoli i fod yn Arweinydd Cynllun Llifogydd yn eich cymuned.

Os oes gennych chi fel cymuned bryderon ynglŷn â llifogydd, gallwn ddarparu'r gwasanaeth creu cynllun llifogydd ar eich cyfer. Cysylltwch ag Andrew Irving sy'n rheoli'r tîm Llifogydd yn Hwlfordd - Andrew.Irving@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ysgol Bro Pedr



Buddugwyr cystadleuaeth Llawysgrifen yn Ysgol Bro Pedr yn ddiweddar.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel mae 2014 wedi cyrraedd o'r diwedd ac nid yw'n rhy hwyr i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd! Wel sut ydych chi ers tro byd? Dydw i ddim wedi siarad gyda chi ers y llynedd!

Wel llongyfarchiadau i bawb a wnaeth liwio llun Siôn Corn yn rhifyn mis Rhagfyr, mi fuodd y postmon yn brysur iawn yn eu cario nhw i'r tŷ.

Llongyfarchiadau i Holly Ann Davies o Abertawe, Joshua Peyto o Gaint, Ffion o Gribyn, Alwena Mair Owen o Lanllwni, Liam Davies o Bontardawe, Elan Jenkins o Alltyblaca a Siwan Mair Jones o Gaerfyrddin am luniau lliwgar a thaclus iawn. Ond am liwio llun bendigedig gydag anrhegion patrymog o dan y goeden, yn ennill y mis hwn mae Lili Peyto, 99 Woodlands Park, Bexley, Caint. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi, a chofiwch bod cyfle i chi gystadlu mis yma eto. Mae'r tymor rygbi wedi dechrau felly ewch ati i liwio'r llun hwn. Pob lwc.

Danfongwech eich lluniau ataf erbyn dydd Llun, Chwefror 24ain.



Enillydd
y mis!

Lili
Peyto



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



MAENORDEIFI (60)

Mae MAENORDEIFI ar lan afon Teifi; a dyna a awgrymir gan yr enw. Gynt dynodai 'maenor' a 'maenol' uned diriogaethol a gweinyddol neu lys pennaeth. Byddai'r faenor yn cynnwys nifer gwahanol o drefi neu ffermydd yn ôl gwahanol fersiynau o'r cyfreithiau. Gall ddynodi, yn ogystal, ddarn o dir, fferm unigol neu ddôl.

Yn 1960 nododd Llwyd Williams yn Crwydro Sir Benfro fod yr eglwys ym Maenordeifi mewn cyflwr adfeiliedig. Er 2000, sut bynnag, mae'r hen eglwys ym Maenordeifi dan ofal corff arbennig iawn sef 'Cyfeillion Eglwys sydd heb Gyfeillion'. Ffurfiwyd y Cyfeillion yn 1957 gan frodor o Gwmbrân, Sir Fynwy, o'r enw Ivor Bulmer-Thomas, gwleidydd rhyfeddol a lwyddodd i ennill sedd i Lafur ac i'r Ceidwadwyr! Erbyn hyn mae gan y Cyfeillion gyfrifoldeb uniongyrchol dros ddeugain o eglwysi - ryw ugain ohonynt yng Nghymru. Oni bai am y Cyfeillion byddai'r eglwysi hyn i gyd naill ai wedi eu dymchwel neu wedi dirywio ymhellach o ran eu cyflwr neu wedi eu ei troi'n dai byw gan berchnogion a allai fod yn hollol ddi-hyd o'u gwerth, o'u cefndir a'u hanes.

Mae Hen Eglwys Maenordeifi wedi ei chysegru i Ddewi ond, o bosib, roedd ar un adeg yn coffâu Llawddog. Mae Cwm Llawddog a Phont Llawddog yn Llechryd gerllaw. Mae amryw olion diddorol i'w canfod yn yr eglwys gan gynnwys bedyddfaen o'r 13 ganrif, cloch sy'n perthyn i'r 15 ganrif, corau o'r 18 ganrif i'r gwŷr mawr lleol a rhai o'r corau'n cynnwys lle tân i gadw'r perchnogion yn ddedwydd gynnes yn ystod y gwasanaeth. A'r eglwys ar lan afon a oedd yn debygol o orlifo'n gyson, cedwid cwrwgl, yn ogystal, ym mhorth yr eglwys. Mae'n siŵr y byddai hwnnw hefyd yn

gallu cynnig cymorth hawdd ei gael i o leiaf un enaid yn ei gyfyngder.

Digwydd 'maenor' yn elfen mewn amryw enwau lleoedd. Yn aml bydd yn cael ei ddilyn gan enw personol: Maenordeilo 'ystad Teilo', Maenorbyr 'ystad Pŷr'. Mae Maenorowen yn perthyn i'r un dosbarth o enwau lleoedd ond yn achos mwy cymhleth o ran ei esbonio. Y ffurf wreiddiol oedd Maenornawan; dyma'r ffurf ar yr enw sy'n digwydd tan y ddeunawfed ganrif pan ddaeth y ffurf Maenorowan i fri ac ennill ei lle. Ystyr Maenornawan yw 'ystad Gnawan'. Digwydd yr un enw personol, sef Gnawan, yn Cilnawan yn Llanboidy, Sir Gaerfyrddin. Eto yn Sir Gaerfyrddin roedd Maenor Fabon ym mhlwyf Llandeilo Fawr; cynrychiolir yr enw hwnnw erbyn hyn gan Manorafon.

I dychwelyd at Maenordeifi. Ceir yn yr hen eglwys amryw gofebion diddorol. Mae un ohonynt, er enghraifft, yn coffâu aelod o deulu lleol a laddwyd gan deigr yn 1852. Mae yno lechen, yn ogystal yn coffâu'r bardd John Blackwell (Alun; 1797-1840) a fu'n rheithor Maenordeifi ac a gladdwyd yno. Enillodd Alun amryw wobrau eisteddfodol ond am delynegion a gyfansoddodd ym Maenordeifi megis Cathl i'r Eos, Càn Gwraig y Pysgotwr ac Abaty Tintern y mae fwyaf adnabyddus.

Adeiladwyd eglwys newydd Maenordeifi yn Carreg Wen yn 1898 ac mae wedi ei chysegru i Ddewi.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com

leuenctid y fro yn llwyddo mewn Siarad Cyhoeddus....



Tîm Adran Ddarllen C.Ff.I. Llanllwni yn ennill cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Sir Gâr. O'r chwith - Edna Davies beirniad, Sioned Bowen, Sioned Howells a Jac Jones.



Tîm Adran Iau C.Ff.I. Llanllwni a ddaeth i'r brig yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Sir Gâr. Yn y tîm oedd Betsan Jones, Owain Davies a Mared Phillips. Yn y llun hefyd mae'r beirniaid Gillian Carpenter a Helen Davies



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus CFFI Ceredigion yn Felinfach
Tîm dan 14oed Llanwenog yn ennill y Cwpan. O'r chwith: Iwan Evans, Alpha Evans a Rhys Davies.



Tîm Ysgol Bro Pedr sef Gwawr Hatcher (Cadeirydd), Gethin Morgan (Cynigydd) a Sian Elin Williams (Gwrthwynebydd) yn cipio'r drydedd wobwr yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305



1 Rhagfyr 2015. Dyma pryd y bydd y ffordd y mae pobl yn dewis rhoi organau yng Nghymru yn newid.

Bu farw 35 o bobl y llynedd yn aros am drawsblaniad organ. Mae prinder organau wedi golygu bod un person wedi marw bob deng niwrnod yn 2012/13 ac mae'r cloc yn tician i gannoedd o bobl eraill. Y gwir amdani yw bod dros 200 o bobl yn aros am organ ar hyn o bryd yng Nghymru.

Dyna pam y bydd y ffordd y mae pobl yn dewis rhoi organau yn newid ar 1 Rhagfyr 2015. Bydd y system newydd yn ei gwneud yn haws i chi benderfynu'n bendant a ydych am roi eich organau ai peidio.

Bydd gennych dri dewis: gallwch fod yn rhoddwr organau drwy optio i mewn, neu drwy wneud dim byd. Os na fyddwch yn gwneud dim, cymerir yn ganiataol eich bod am roi eich organau. Os nad ydych am roi eich organau, gallwch gofrestru'ch penderfyniad i optio allan.

Nawr yw'r amser i wneud yn siŵr eich bod yn deall yr opsiynau ac yn siarad â'ch teulu a ffrindiau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
www.rhoiorganau.org
neu ffoniwch **0300 123 23 23**

**Nawr yw'r amser i feddwl
am roi organau**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw llan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Trosglwyddo arian i achosion da a llwyddiant lleol...



Aelodau o bwyllgor Sioe Gorsgoch sef Geraint Hatcher (Cadeirydd), Cerys Lloyd (Ysgrifennydd) a Gwenan Davies (Trysorydd) yn cyflwyno sic o £3,000 i Rhian Preece Jones (Lead Chemotherapy Nurse Specialist BGH) o Ysbyty Bronglais. Bydd y rhodd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prynu cadair arbenigol i'r ward.



Cynhaliwyd gyrfa chwist lwyddiannus yn y Llew Du Llanybydder ar y 16 o Ragfyr, wedi'i threfnu gan Mr Jack Jenkins Gelli House, a'r elw tuag at Adran Cemotherapi a Radioleg Ysbyty Singleton.

Dyma enillwyr y chwist. Sgôr uchaf: Jean James Rhydargaeau, Merched: 1af Evan Jones Aberarth, 2ail Ivy Jones Aberystwyth, 1af Dynion Betty Griffiths Cilcennin, 2ail Dai Davies Cellan. Curo Allan: 1af Nancy Davies Llambled a Betty Griffiths Cilcennin, 2ail Gwendoline Jones Llanybydder a Mair Davies Llanwnen.

Diolch i Lyn ac Avril Jones Lakefield Llanybydder am noddi enillwyr y chwist (£70). Diolch hefyd i bawb am wobrwyo y raffl ac am bob rhodd ariannol, ac i aelodau'r gangen leol o Ymchwil y Cancer am baratoi y bwyd.

Yn ystod y noson cyflwynodd Jack swm o £710 yr un i dair elusen, sef Sefydliad Prydeinig y Galon, Ymchwil y Cancer UK, a Diabetes UK Cymru – elw gyrfaedd chwist a drefnwyd ganddo yn ystod gaeaf 2012-13.

Menna Williams [chwith] yn derbyn Cwpan Aelod Hŷn y flwyddyn a Sioned Fflur Evans [dde] yn derbyn Cwpan Aelod Iau y flwyddyn yng nghinio Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog, yng Ngwesty'r Emlyn Arms.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.



Ar nos Fawrth y 14eg o Ionawr cynhaliodd C.Ff.I. Llanllwni noson cyflwyno sieciau blynyddol yn neuadd yr Eglwys, Llanllwni. Cyflwynwyd cyfanswm o £3,728.86. Rhannwyd elw'r Sioe a Treialon yn gyfartal eleni rhwng Sefydliad Brydeinig y Galon a Meddygfa Llanyfran, Llandysul; derbyniodd y ddau sefydliad sic o £1,308 yr un. Ychydig wythnosau cyn y Nadolig bu aelodau'r clwb allan yn y pentrefi cyfagos yn canu carolau. Penderfynwyd codi arian eleni i'r adran damwain ac argyfwng ysbyty Glangwili. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd ac a fu'n croesawu ar drothwy'u drysau wrth i ni fynd o amgylch i ganu. Diolch i chi gyd. Diolch hefyd i John ac Ann am y croeso a'r diod poeth yn Talardd ar ddiwedd y ddwy noson.